department for
culture, media
and sport

GORCHYMYNION DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL: CYNIGION AR GYFER:

CYFLWYNO PROSES SYMLACH AR GYFER MÂN AMRYWIADAU I DRWYDDEDAU MANGRE A THYSTYSGRIFAU MANGRE CLWB

TYNNU'R GOFYNIAD AM ORUCHWYLIWR DYNODEDIG MANGRE A THRWYDDED BERSONOL AR GYFER MANGRE GYMUNEDOL

Deddf Trwyddedu 2003

4.8.2008

improving
the quality
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi ceisio rhagoriaeth, a hyrwyddo'r diwydiannau twristaidd, creadigol a hamdden.

Cynnwys

Adran 1 RHAGARWEINIAD 4

Adran 2 MÂN AMRYWIADAU I DRWYDDEDAU MANGRE A THYSTYSGRIFAU MANGRE CLWB 6

Pennod 1: Mân Amrywiadau: Rhagarweiniad a Phwrpas 6

Pennod 2: Mân Amrywiadau: Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol Draff 9

Pennod 3: Mân Amrywiadau: Canllawiau statudol atodol a diwygiedig drafft ar amrywiadau 13

Pennod 4: Mân Amrywiadau: Ffi arfaethedig ar gyfer gwneud cais 19

Pennod 5: Mân Amrywiadau: Ffurflen Gais 20

Pennod 6: Mân Amrywiadau: Asesiad Effaith 29

Adran 3: GORCHYMYN DIWYGIO RHEOLEIDDIO: CYNNIG I GANIATÁU TYNNU'R GOFYNIAD AM ORUCHWYLIWR DYNODEDIG MANGRE A THRWYDDED BERSONOL AR GYFER MANGRE GYMUNEDOL 43

Pennod 1: Tynnu GDM - Rhagarweiniad a Phwrpas 43

Pennod 2: Tynnu GDM - Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol Drafft 46

Pennod 3: Tynnu GDM - Canllawiau atodol a diwygiedig drafft 51

Pennod 4: Tynnu GDM - Ffi arfaethedig ar gyfer gwneud cais 57

Pennod 5: Tynnu GDM - Ffurflen Gais 58

Pennod 6: Tynnu GDM - Asesiad Effaith 64

ATODIAD 1: HOLIADURON 82

ATODIAD 2: RHESTR O'R SAWL YR YMGYNGHORWYD Â HWYNT 84

ATODIAD 3: COD YMARFER Y LLYWODRAETH AR YMGYNGHORIADAU YSGRIFENEDIG 88

ATODIAD 4: GORCHMYNION DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL - YSTYRIAETH SENEDDOL 89

Adran 1: RHAGARWEINIAD

1.1 **Mae'r Ddogfen Ymgynghorol hon yn gofyn am eich barn ar ddau gynnig sydd wedi'u hanelu at symleiddio'r broses drwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a symud beichiau diangen oddi ar ysgwyddau deiliaid trwydded a thystysgrif clwb.**

1.2 **Bwriad y cynnig cyntaf (Adran 2 y Ddogfen hon) yw cyflwyno proses symlach, newydd ar gyfer gwneud mân amrywiadau i drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb. Ymgynghorodd y Llywodraeth ar y dewisiadau polisi ar gyfer y cynnig hwn rhwng 31 Tachwedd 2007 - 20 Chwefror 2008.**

1.3 **Bwriad yr ail gynnig (Adran 3 y Ddogfen hon) yw tynnu'r gofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig Mangre a thrwydded bersonol ar gyfer neuaddau cymunedol. Ymgynghorodd y Llywodraeth ar y dewisiadau polisi ar gyfer y cynnig hwn rhwng 8 Awst 2007 - 31 Hydref 2007, gan sicrhau cefnogaeth i'r cynigion.**

1.4 **Mae'r Llywodraeth yn awr yn ceisio eich barn ar y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft a fydd yn diwygio'r Ddeddf Trwyddedu er mwyn cyflwyno'r prosesau newydd, yr Arweiniad statudol cefnogol, y ffioedd a'r ffurflenni cais priodol. Rhoddir manylion llawn yn y rhagarweiniad i bob Adran.**

Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol

1.5 Mae Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (Deddf 2006) yn galluogi Gweinidog y Goron, gyda chymeradwyaeth y Senedd, i wneud gorchymyn diwygio deddfwriaethol i ddileu neu leihau baich sy'n syrthio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar unrhyw unigolyn.

1.6 Fe all y Gweinidog argymell un o dair gweithdrefn amgen ar gyfer craffu Seneddol yn dibynnu ar faint a phwysigrwydd y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol: negyddol, cadarnhaol ac uwchgadarnhaol. Y weithdrefn negyddol yw'r lleiaf beichus ac felly efallai y bydd yn addas ar gyfer Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol sy'n darparu diwygiadau rheoleiddio bach. Y weithdrefn fwyaf beichus yw'r un uwchgadarnhaol sy'n golygu'r elfen fwyaf o graffu Seneddol manwl. Nodir manylion llawn y prosesau hyn a sut i fynegi eich barn i'r Pwyllgorau Craffu Seneddol yn Atodiad 4.

1.7 Yn yr ymgynghoriad cychwynnol ar y cynigion polisi, argymhellodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y dylai'r weithdrefn negyddol fod yn gymwys i'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol yma ar y sail ei fod yn fân newid i Ddeddf 2003 ac yn un na fyddai'n cael effaith ar yr amcanion trwyddedu. Mae'r Gweinidog yn dal i argymell y weithdrefn negyddol ar gyfer y ddau gynnig. Yn achos mân amrywiadau mae o'r farn bod y ddadl hon wedi ei chryfhau ymhellach trwy ddileu'r rhan fwyaf o amrywiadau cysylltiedig ag alcohol o'r broses mân amrywiadau, fel yr eglurwyd ym Adran 2. Yn achos mangre cymunedol, bydd y cynnig yn effeithio'n unig ar nifer cyfyngedig o fangreoedd, ac mae camau yn eu lle i leihau'r risg i'r amcanion trwyddedu.

R Ymateb i'r Ymgynghoriad

1.8 Os ydych am ymateb i un neu'r ddau gynnig yn y Ddogfen Ymgynghori hon, llenwch yr holiadur perthnasol yn Atodiad 1 a'i anfon mewn ebost at licensingconsultation@culture.gov.uk Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 9.9.2008

1.9 Os yw'n well gennych gallwch anfon copi caled yn y post at:

Nigel Wakelin

Licensing Team

Sport and Leisure Directorate

2-4 Cockspur Street

London SW1Y 5DH

1.10 Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Trwyddedu yn y cyfeiriad uchod neu dros y ffôn ar 020 7211 6388.

1.11 Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion ar y broses ymgynghori ar y papur hwn, cysylltwch â Mythily Manickavasagar, Cydlynydd Ymgynghori, Yr Is-adran Strategaeth, Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2-4 Cockspur Street, Llundain SW1Y 5DH neumythily.manickavasgar@culture.gsi.gov.uk

1.12 Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â chopïau o'r holl ymatebion, ar gael ar wefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad gau. Tybir felly y gall eich ymateb fod ar gael yn gyhoeddus. Yn ogystal, gallai'r holl wybodaeth mewn ymatebion, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn destun cyhoeddi neu ddatgelu o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Os bydd gohebydd yn gofyn am gyfrinachedd, ni ellir sicrhau hyn a bydd ond yn bosibl os ystyrir bod hynny'n briodol o dan y ddeddfwriaeth. Dylai unrhyw gais felly esbonio pam y mae angen cyfrinachedd. Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gaiff ei greu gam eich system TG yn cael ei ystyried fel cais felly oni bai eich bod yn cynnwys cais penodol, gydag esboniad, ym mhrif destun eich ymateb.

1.13 Rhoddir rhestr o'r sawl yr ymgynghorwyd â hwynt yn Atodiad 2. Mae'r meini prawf sy'n berthnasol i bob ymgynghoriad a gynhelir yn y DU o dan God Ymarfer y Cabinet ar Ymgynghoriadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

Adran 2: MÂN AMRYWIADAU I DRWYDDEDAU MANGRE A THYSTYSGRIFAU MANGRE CLWB

Pennod 1: Mân Amrywiadau - Rhagarweiniad a Phwrpas

2.1 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu addasu Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ('Deddf 2003') er mwyn darparu ar gyfer proses symlach ar gyfer 'mân' amrywiadau (newidiadau) i drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb.

2.2 Dyma ail gam yr ymgynghoriad. Yn y cam cyntaf, a gynhaliwyd rhwng 31 Tachwedd 2007 a 20 Chwefror 2008, gofynnwyd i ymatebwyr roi eu barn ar y tri dewis polisi:

> **Dewis 1**: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau, wedi'u diffinio'n gyffredinol fel unrhyw amrywiad nad yw'n effeithio ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gadael i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un mân ai peidio o fewn y paramedrau eang hyn ac ystyried y meini prawf cyffredinol a'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn yr Arweiniad statudol a wnaed o dan Ddeddf 2003. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.
>
> **Dewis 2**: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses mân amrywiadau newydd, ond gan gyfyngu disgresiwn yr awdurdod trwyddedu trwy nodi ar wyneb y Ddeddf pa amrywiadau y dylid eu cynnwys o fewn, a/neu eu hepgor, o'r broses mân amrywiadau. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.
>
> **Dewis 3**: Dim newid.

2.3 Roedd y Llywodraeth yn argymell Dewis 1 ar y sail y byddai'n: datganoli gwneud penderfyniadau i lefel leol yn unol ag egwyddorion y Llywodraeth; cyflenwi arbedion cost mwyaf posib; a chadw amddiffyniad angenrheidiol i breswylwyr ac eraill a fyddai'n cael eu heffeithio.

2.4 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r argymhelliad yma. Fodd bynnag, roedd lleiafrif, yn cynnwys pob cymdeithas preswylwyr a rhai awdurdodau trwyddedu, yn ffafrio naill ai Dewis 2 neu Dewis 3. Eu barn oedd y byddai gadael y mater i'w benderfynu gan awdurdodau trwyddedu yn arwain at anghysonderau mewn

dehongliad a'r perygl y gallai swyddogion trwyddedu ganiatáu amrywiadau o dan y broses mân amrywiadau a fyddai'n cael effaith ar breswylwyr a busnesau lleol. Roedd grwpiau preswylwyr yn arbennig yn bryderus y byddai ceisiadau i ymestyn oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol yn cael eu caniatáu trwy'r broses newydd, heb gyfle i breswylwyr wrthwynebu. Mynegwyd pryderon tebyg hefyd, ond i raddau llai, ynghylch ychwanegu gweithgareddau trwyddedadwy, newidiadau i osodiad mangre a newidiadau i amodau trwydded.

2.5 Mae'r Llywodraeth o'r farn bod mod ymdrin â'r rhan fwyaf o'r pryderon hyn trwy'r Canllawiau arfaethedig ym Mhennod 3 sy'n darparu cyngor ac argymhellion manwl ar gyfer meini prawf i awdurdodau trwyddedu eu hystyried wrth benderfynu a yw amrywiad arfaethedig yn fân ai peidio. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y dylid rhoi pwys priodol i bryderon penodol ynghylch amrywiadau cysylltiedig ag alcohol ac am y rheswm yma mae'n bwriadu eithrio'r canlynol o'r broses mân amrywiadau:

- **ychwanegu gwerthu neu gyflenwi alcohol i drwydded neu dystysgrif mangre clwb;**
- **gwerthu neu gyflenwi alcohol ar unrhyw amser rhwng 11pm a 7am; ac**
- **unrhyw gynnydd yn y cyfnod o amser ar unrhyw ddiwrnod pryd gellir gwerthu neu gyflenwi alcohol.**

2.6 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr hefyd yn cytuno gydag argymhellion pellach y Llywodraeth ar weithrediad manwl y broses mân amrywiadau. Felly bydd y broses mân amrywiadau yn cynnwys y gofynion canlynol:

- awdurdodau trwyddedu i ymgynghori â'r awdurdodau cyfrifol perthnasol yn ôl eu hangen a chymryd eu barn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y cais;
- awdurdodau trwyddedu i ymateb i ymgeiswyr o fewn deg diwrnod gwaith yn dilyn derbyn cais, naill ai trwy ganiatáu'r mân amrywiad neu gyfeirio'r cais i'r broses amrywiad lawn;
- dim hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am fân amrywiadau;
- lle cyfeirir ceisiadau i'r broses amrywiadau llawn bydd y broses honno yn gyfangwbl berthnasol, yn cynnwys y cyfnod hysbysu o 28 diwrnod llawn, yr angen i'r ymgeisydd gopïo'r cais i bob awdurdod cyfrifol a'r ffi a ragnodwyd.

2.7 Yn dilyn ymgynghoriad, cododd grwp rhanddeiliaid trwyddedu'r Llywodraeth gwestiwn camau priodol pe bai, am unrhyw reswm, yr awdurdod trwyddedu yn methu ymateb i'r ymgeisydd o fewn y cyfnod deg diwrnod statudol. Trafodir y pwnc hwn hefyd ym Mhennod 3 (Canllawiau) a byddem yn croesawu eich barn ar y mater.

2.8 Cyhoeddwyd crynodeb llawn o'r ymatebion i gam gyntaf yr ymgynghoriad, ynghyd â chopïau o ymatebion unigol ar wefan DCMS ar 20 Mai a gellir eu gweld trwy ddilyn y cyswllt canlynol: http://www.culture.gov.uk/minor_var_08/minor_var_response.html

Cynnig Cyfredol

2.9 Mae'r ail ran yr ymgynghoriad yma yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

- y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft a fydd yn diwygio'r Ddeddf Trwyddedu i gyflwyno'r broses Mân Amrywiadau newydd (Pennod 2)
- Canllawiau statudol drafft a fydd yn ategu a disodli'n rhannol y Canllawiau statudol presennol ar Amrywiadau (Pennod 3);

- ffi briodol i'w thalu gan ymgeiswyr i adennill costau llawn gweinyddu'r broses mân amrywiadau i Awdurdodau Trwyddedu (Pennod 4);
- ffurflen gais ddrafft rhagnodedig ar gyfer mân amrywiad (Pennod 5);
- Asesiad Effaith sydd wedi ei diwygio i gymryd ystyriaeth o'r eithriadau arfaethedig o'r broses mân amrywiadau (Pennod 6). Effaith yr eithriadau a nodir ym mharagraff 1.5 yw lleihau'r ystod o arbedion cost blynyddol posib o £2.2m – 2.8m **£1.9m - £2.5m.**

Pennod 2: Mân Amrywiadau - Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol Drafft

Gorchymyn Drafft a gyflwynir gerbron y Senedd o dan adran 14(1) y Ddeddf Diwygio Rheoleiddiol a Deddfwriaethol 2006.

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

2008 Rhif. XXXX

DIWYGIO RHEOLEIDDIO

TRWYDDEDAU A THRWYDDEDU

Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Mân Amrywiadau i Drwyddedau Mangre a Thystysgrifau Mangre Clwb) 2008

Gwnaed - - - -	*2008*
Daw i rym - -	*2008*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth ymarfer pwerau a roddwyd gan adran 1 Deddf Diwygio Rheoleiddiol a Deddfwriaethol 2006([1]) ("y Ddeddf").

Mae o'r farn bod yr amodau y cyfeirir atynt yn adran 3(2) y Ddeddf , lle mae hynny'n berthnasol, wedi'u bodloni mewn perthynas â phob darpariaeth a wnaed yn y Gorchymyn.

Mae wedi ymgynghori yn unol ag adran 13(1) y Ddeddf.

Mae wedi gosod drafft o'r Gorchymyn a dogfen eglurhaol gerbron y Senedd yn unol ag adran 14(1) y Ddeddf.

Yn unol ag adran 15 y Ddeddf, mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol (o fewn ystyr Rhan 1 y Ddeddf) yn gymwys mewn perthynas â'r Gorchymyn.

Enwi, cychwyn a graddfa

1.—(1) Gellir enwi'r Gorchymyn hwn fel Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Mân Amrywiadau i Drwyddedau Mangre a Thystysgrifau Mangre Clwb) 2008 a daw'n weithredol ar xx 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig.

Trwyddedau Mangre: diwygio Deddf Trwyddedu 2003

2.—(1) Bydd Deddf Trwyddedu 2003([2]) yn cael ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 41, noder—

([1]) 2006 c. 51.

([2]) 2003 c. 17.

"Amrywio trwyddedau: mân amrywiadau

41A Cais ar gyfer mân amrywiad trwydded mangre

(1) Yn amodol ar isadran (3), fe all deiliad trwydded mangre wneud cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol o dan yr adran hon (yn hytrach nag adran 34) i amrywio'r drwydded.

(2) Mae isadran (1) yn destun rheoliadau o dan—

(a) adran 54 (ffurf ayb. ceisiadau ayb.);

(b) adran 55 (ffioedd ceisiadau ayb.).

(3) Ni ellir gwneud cais o dan yr adran yma i amrywio trwydded mangre er mwyn—

(a) ymestyn y cyfnod y mae'n weithredol;

(b) amrywiad sylweddol i'r fangre y mae'n berthnasol iddi; neu

(c) pennu unigolyn fel goruchwyliwr mangre; neu

(d) awdurdodi—

(i) cyflenwi alcohol,

(ii) cyflenwi alcohol ar unrhyw adeg rhwng 11pm a 7am, neu

(iii) cynnydd yn y cyfnod o amser ar unrhyw ddiwrnod pryd gellir cyflenwi alcohol.

41B Penderfynu'r cais o dan adran 41A

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol lle mae'r awdurdod trwyddedu perthnasol yn derbyn cais a wnaed o dan adran 41A.

(2) Wrth benderfynu ar y cais mae'n rhaid i'r awdurdod—

(a) ymgynghori â'r awdurdodau cyfrifol hynny y mae'n barnu sy'n briodol; a

(b) chymryd ystyriaeth o unrhyw sylwadau a wneir gan yr awdurdodau hynny mewn perthynas â'r cais.

(3) Os yw'r awdurdod o'r farn—

(a) na fyddai'r amrywiad arfaethedig yn y cais yn cael effaith niweidiol ar hyrwyddo unrhyw un o'r amcanion trwyddedu, neu

(b) os oes mwy nag un amrywiad yn cael ei gynnig, na fyddai yr un ohonynt, wedi eu hystyried ar wahân neu gyda'i gilydd) yn cael effaith o'r fath

mae'n rhaid iddo ganiatáu'r cais.

(4) Mewn unrhyw achos arall mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod y cais.

(5) Mae'n rhaid gwneud penderfyniad o dan isadran (3) o fewn y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith yn cychwyn ar y diwrnod gweithio cyntaf ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod yn derbyn y cais.

41C Darpariaeth atodol ynghylch penderfyniadau o dan adran 41B

(1) Lle caniateir cais o dan adran 41B, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu perthnasol roi hysbysiad yn ddi-oed i'r perwyl hynny i'r ymgeisydd.

(2) Mae'n rhaid i'r hysbysiad o dan isadran (1) nodi'r canlynol—

(a) unrhyw amrywiad i'r drwydded mangre sydd i gael effaith o ganlyniad i ganiatáu'r cais; a'r

(b) amser y daw'r amrywiad yn weithredol.

(3) Yr amser y cyfeirir ato yn isadran (2)(b) yw'r amser a nodwyd yn y cais neu, os yw'r amser hynny cyn i'r ymgeisydd dderbyn yr hysbysiad y cyfeirir ato isadran (2) unrhyw amser hwyrach a nodir gan yr awdurdod yn yr hysbysiad.

(4) Lle gwrthodir cais o dan adran 41B mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu perthnasol roi hysbysiad yn ddi-oed i'r perwyl hynny i'r ymgeisydd.

(5) Mae'n rhaid i'r hysbysiad o dan isadran (4) gynnwys datganiad gan yr awdurdod o'r rhesymau dros ei benderfyniad."

Tystysgrifau mangre clwb: diwygio Deddf Trwyddedu 2003

3.—(1) Newidir Deddf Trwyddedu 2003 fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 86, noder—

"Amrywio tystysgrifau: mân amrywiadau

86A Cais ar gyfer mân amrywiad tystysgrif mangre clwb

(1) Yn amodol ar isadran (3), fe all clwb sy'n dal tystysgrif mangre clwb wneud cais o dan yr adran yma (yn hytrach nag o dan adran 84) i'r awdurdod trwyddedu perthnasol i amrywio'r dystysgrif.

(2) Mae Isadran (1) yn destun rheoliadau o dan—

(a) adran 91 (ffurf ayb. ceisiadau ayb.);

(b) adran 92 (ffioedd ceisiadau ayb.).

(3) Ni ellir gwneud cais o dan yr adran yma i amrywio mangre clwb er mwyn-

(a) amrywiad sylweddol i'r fangre y mae'n berthnasol iddi; neu

(b) awdurdodi—

(i) cyflenwi alcohol,

(ii) cyflenwi alcohol ar unrhyw adeg rhwng 11pm a 7am, neu

(iii) cynnydd yn y cyfnod o amser ar unrhyw ddiwrnod pryd gellir cyflenwi alcohol.

86B Penderfynu cais o dan adran 86A

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol lle mae'r awdurdod trwyddedu perthnasol yn derbyn cais a wnaed o dan adran 86A.

(2) Wrth benderfynu ar y cais mae'n rhaid i'r awdurdod -

(a) ymgynghori â'r awdurdodau cyfrifol hynny y mae'n barnu sy'n briodol; a

(b) chymryd ystyriaeth o unrhyw sylwadau a wneir gan yr awdurdodau hynny mewn perthynas â'r cais.

(3) Os yw'r awdurdod o'r farn –

(a) na fyddai'r amrywiad arfaethedig yn y cais yn cael effaith niweidiol ar hyrwyddo unrhyw un o'r amcanion trwyddedu, neu

(b) os oes mwy nag un amrywiad yn cael ei gynnig, na fyddai yr un ohonynt, wedi eu hystyried ar wahân neu gyda'i gilydd yn cael effaith o'r fath

mae'n rhaid iddo ganiatáu'r cais.

(4) Mewn unrhyw achos arall mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod y cais.

(5) Mae'n rhaid gwneud penderfyniad o dan isadran (3) o fewn y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith yn cychwyn ar y diwrnod gweithio cyntaf ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod yn derbyn y cais.

86C Darpariaeth atodol ynghylch penderfyniadau o dan adran 86B

(1) Lle caniateir cais o dan adran 86B, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu perthnasol roi hysbysiad yn ddi-oed i'r perwyl hynny i'r ymgeisydd.

(2) Mae'n rhaid i'r hysbysiad o dan isadran (1) nodi'r canlynol—

(a) unrhyw amrywiad i'r dystysgrif mangre clwb sydd i gael effaith o ganlyniad i ganiatáu'r cais; a'r

(b) amser y daw'r amrywiad yn weithredol.

(3) Yr amser y cyfeirir ato yn isadran (2)(b) yw'r amser a nodwyd yn y cais neu, os yw'r amser hynny cyn i'r ymgeisydd dderbyn yr hysbysiad y cyfeirir ato isadran (2) unrhyw amser hwyrach a nodir gan yr awdurdod yn yr hysbysiad.

(4) Lle gwrthodir cais o dan adran 86B mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu perthnasol roi hysbysiad yn ddi-oed i'r perwyl hynny i'r ymgeisydd.

(5) Mae'n rhaid i'r hysbysiad o dan isadran (4) gynnwys datganiad gan yr awdurdod o'r rhesymau dros ei benderfyniad.".

GORCHYMYN DIWYGIO RHEOLEIDDIO: CYNNIG I GYFLWYNO PROSES SYMLACH AR GYFER MÂN AMRYWIADAU I DRWYDDEDAU MANGRE A THYSTYSGRIFAU MANGRE CLWB

Gerry Sutcliffe
Is-ysgrifennydd Seneddol
xx 2008 Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

NODYN EGLURHAOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn yma'n gosod darpariaethau newydd yn y Ddeddf Trwyddedu 2003 (c. 17) wrth ymarfer y pwerau a roddwyd gan adran 1 Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (c. 51).

Mae'r darpariaethau newydd yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer amrywio trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb mewn achosion lle mae'r awdurdod trwyddedu yn barnu na fyddai yr un o'r amrywiadau a fwriedir gan ddeiliad y drwydded neu'r dystysgrif yn gallu cael effaith niweidiol ar hyrwyddo unrhyw un o'r amcanion trwyddedu a nodir yn adran 4(2) Deddf 2003.

Pwrpas y Gorchymyn yw arbed amser, arian ac adnoddau rheoleiddio trwy ganiatáu amrywiadau na fyddent yn amharu ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu i'w gwneud i drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb trwy weithdrefn symlach a llai costus.

Fe all deiliad trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb wneud cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 12 neu 68 Deddf 2003) i amrywio'r drwydded neu'r dystysgrif o dan y darpariaethau newydd (adrannau newydd 41A a 86A). Bydd ceisiadau yn destun rheoliadau a wneir wrth ymarfer pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 54, 55, 91 a 92 i ragnodi ffurf a modd gwneud ceisiadau, yr wybodaeth a'r dogfennau sy'n mynd gyda hwynt, a'r ffi i'w thalu i'r awdurdod trwyddedu perthnasol.

Wrth benderfynu ar gais mae'n rhaid i'r awdurdod ymgynghori â hynny o awdurdodau cyfrifol a nodwyd yn adran 13 neu 69 Deddf 2003 ag y mae'n ystyried sy'n briodol, a chymryd ystyriaeth o unrhyw sylwadau a wnaed ynghylch y cais gan yr awdurdodau hynny. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r weithdrefn arferol ar gyfer amrywiadau trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, y mae'n rhaid i'r ymgeisydd hysbysu ynghylch y cais i bob awdurdod cyfrifol oddi tanynt (y gall awdurdodau wedyn wneud sylwadau yn eu cylch sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfeirio'r cais i wrandawiad llafar) ac mae'n rhaid hefyd hysbysu'r cais fel sy'n ofynnol gan reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2003.

Mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu perthnasol ganiatáu cais o dan y darpariaethau newydd yn unig os yw'n ystyried na fyddai dim un o'r amrywiadau a gynigir yn y cais yn gallu cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r amcanion trwyddedu yn adran 4(2) Deddf 2003. Mewn unrhyw achos arall mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod y cais.

Ni ellir gwneud cais o dan y darpariaethau newydd os mai effaith yr amrywiadau arfaethedig fyddai ymestyn y cyfnod y mae'r drwydded mangre yn weithredol; amrywiad sylweddol i'r fangre mangre y mae trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn berthnasol; pennu (mewn trwydded mangre) unigolyn fel goruchwyliwr mangre; awdurdodi gwerthu neu gyflenwi alcohol neu awdurdodi adwerthu neu gyflenwi alcohol ar unrhyw amser rhwng 11pm a 7am neu gynyddu'r cyfnod o amser ar unrhyw ddiwrnod pryd gellir adwerthu neu gyflenwi alcohol fel arall. Mae'n rhaid gwneud amrywiadau o'r math yma trwy'r weithdrefn amrywiadau arferol a nodir yn adrannau 34 i 40 (trwyddedau mangre) a 84 i 86 (tystysgrifau mangre clwb) Deddf 2003.

Os yw'r awdurdod trwyddedu perthnasol yn caniatáu cais o dan y Rhan newydd mae'n rhaid iddo hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig, gan nodi'r amrywiadau sydd i ddod yn weithredol o ganlyniad a'r amser y byddant yn weithredol. Os gwrthodir cais, mae'n rhaid i'r awdurdod hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig, gan roi ei resymau dros wrthod y cais. Mae'n ofynnol i'r awdurdod ddod i benderfyniad o fewn cyfnod o ddeg diwrnod gwaith yn cychwyn ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r awdurdod dderbyn y cais.

CWESTIWN 1: A ydych yn cytuno bod y Gorchymyn Drafft hwn yn adlewyrchiad cywir o'r broses mân amrywiadau newydd a ddisgrifir ym Mhennod 1 y Ddogfen Ymgynghori hon? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, rhowch fanylion sut y credwch chi y dylid addasu'r Gorchymyn drafft.

Pennod 3: Mân Amrywiadau - Canllawiau Atodol a Diwygiedig Drafft ar Amrywiadau

3.1 Bydd y Canllawiau drafft isod yn disodli Pennod 8 y Canllawiau statudol i Ddeddf Trwyddedu 2003 (a gyhoeddwyd 28 Mehefin 2007) sy'n rhoi cyngor ar amrywiadau i drwyddedau. Bydd y cyngor yma hefyd yn gymwys ar gyfer amrywiadau i dystysgrifau mangre clwb, fel ar hyn o bryd, er y bydd y ffurflen ragnodedig ychydig yn wahanol (gweler Adran 2, Pennod 5).

Amser ymateb statudol

3.2 Mae'r Canllawiau drafft canlynol yn rhagdybio y bydd awdurdodau trwyddedu yn ymateb i geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol, h.y. o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y ffurflen. Rydym wedi ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau mewn achos lle nad yw awdurdod trwyddedu yn ymateb o fewn y cyfnod amser yma, er enghraifft os yw swyddog trwyddedu mewn awdurdod bach yn absennol oherwydd salwch. Ymysg y dewisiadau a ystyriwyd yr oedd: caniatâd tybiedig i'r cais, gwrthodiad tybiedig, llythyr gan yr awdurdod yn egluro'r rhesymau am yr oedi a/neu estyniad i'r amser ymateb.

3.3 Rydym yn awgrymu nad oes yr un o'r dewisiadau hyn yn foddhaol. Fe allai caniatâd tybiedig arwain at ganiatáu amrywiadau a allai gael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu; byddai gwrthodiad tybiedig yn annheg i'r ymgeisydd nad yw'n gyfrifol am yr oedi; a byddai unrhyw gamau gan yr awdurdod trwyddedu, e.e. ysgrifennu at yr ymgeisydd yn egluro'r rhesymau am yr oedi, yn ychwanegu haen bellach o fiwrocratiaeth i fesur syml a byddai angen rhywun i lunio ac anfon y llythyr.

3.4 Rydym yn hyderus yn y mwyafrif llethol o achosion y bydd awdurdodau trwyddedu yn dilyn eu dyletswydd statudol i ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith ac y bydd ganddynt weithdrefnau yn eu lle i ddelio ag unrhyw broblemau megis absenoldeb annisgwyl aelodau o staff. Rydym felly yn argymell nad oes yno ofyniad ffurfiol i'r awdurdod trwyddedu gymryd unrhyw gamau penodol mewn amgylchiadau o'r fath. Os, am unrhyw reswm, y bydd awdurdod trwyddedu yn methu'n gyson ag ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith, gellid cyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Swyddfeydd Gwell Rheoleiddio Lleol a fydd yn dod yn weithredol yn Hydref 2008.

3.5 Fodd bynnag, rydym hefyd yn argymell, na ddylid codi tâl pellach ar yr adegau prin y bydd awdurdod trwyddedu yn methu ymateb o fewn y terfyn amser statudol a lle bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgyflwyno cais.

CANLLAWIAU DRAFFT

Cyflwyniad

8.33 Mae'r Canllawiau hyn yn diwygio a disodli'r Canllawiau ar amrywiadau trwyddedau mangre a gyhoeddwyd ar 28 Mehefin 2007. Lle mae deiliad trwydded mangre yn dymuno addasu'r drwydded mae'r Ddeddf yn caniatáu, yn y rhan fwyaf o achosion, gwneud cais i amrywio yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol cyflwyno cais ar gyfer trwydded mangre newydd. Bydd y broses i'w dilyn yn dibynnu ar natur yr amrywiad a'i effaith posib ar yr amcanion trwyddedu.

Newid enw a chyfeiriad/Goruchwyliwr Mangre Dynodedig

8.34 Mae yno brosesau symlach ar gyfer cyflwyno cais yn yr achosion canlynol: newid enw neu gyfeiriad rhywun a enwyd yn y drwydded (adran 33); cais i amrywio'r drwydded i enwi unigolyn newydd fel y goruchwyliwr mangre dynodedig (adran 37); cais mewn perthynas â thrwydded yng nghyswllt mangre gymunedol sy'n awdurdodi gwerthu alcohol er mwyn datgymhwyso'r amodau gorfodol ynghylch goruchwylio gwerthu alcohol gan ddeiliad trwydded bersonol a'r angen am Oruchwyliwr Dynodedig Mangre sy'n dal trwydded bersonol (adrannau 25A a 41D); a chais am fân amrywiad i drwydded mangre (adrannau 41A i 41C).

Y broses mân amrywiadau

8.35 Mae Deddf Trwyddedu 2003 wedi ei diwygio trwy gynnwys adrannau [xx] i [yy] sy'n ymwneud â mân amrywiadau. Daeth yr adrannau hyn yn weithredol ar [*noder dyddiad*] Mae amrywiadau bychain na fyddant yn cael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu yn destun proses 'mân amrywiadau' symlach. O dan y broses hon, nid oes angen i'r ymgeisydd hysbysebu'r amrywiad mewn papur newydd neu gylchlythyr, ei arddangos ar hysbysiad glas neu ddarparu copi i'r awdurdodau cyfrifol.

8.36 Ar ôl derbyn cais am fân amrywiad, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried a allai'r amrywiad gael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu. Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid dirprwyo penderfyniadau ar fân amrywiadau fel rheol i swyddogion trwyddedu.

8.37 Wrth ystyried cais, dylai'r swyddog trwyddedu ymgynghori â'r awdurdodau cyfrifol perthnasol fe sy'n briodol. Er enghraifft, efallai bydd angen iddynt ymgynghori â swyddog iechyd yr amgylchedd ynghylch cais sydd â goblygiadau niwsans cyhoeddus posib. Ond nid oes gofyniad i ymgynghori â phob awdurdod cyfrifol ar bob cais ac mewn rhai achosion efallai bydd y swyddog trwyddedu yn gallu dod i benderfyniad heb ymgynghori.

8.38 Mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ymateb i'r ymgeisydd o fewn 10 diwrnod gwaith yn cychwyn ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r awdurdod dderbyn y cais er mwyn ei hysbysu naill ai bod:

- y mân amrywiad wedi ei ganiatáu; neu,
- bod y cais wedi cael ei wrthod a dylent ailgyflwyno cais trwy'r broses amrywiadau lawn.

8.39 Lle cyfeirir cais i'r broses amrywiad lawn, bydd y cyfnod hysbysiad 28 diwrnod llawn yn gymwys o'r dyddiad y derbynnir y cais newydd a dylai ymgeiswyr anfon copi o'r cais i bob awdurdod cyfrifol.

8.40 Yn gyffredinol bydd mân amrywiadau yn dod i mewn i bedwar categori: mân newidiadau i adeiledd neu osodiad mangre; newidiadau bach i oriau trwyddedu; dileu amodau sydd wedi dyddio, sy'n amherthnasol neu na ellir eu gorfodi neu ychwanegu amodau a gynigir yn wirfoddol; ac ychwanegu gweithgareddau trwyddedadwy penodol**. Ym mhob achos y maen prawf cyffredinol yw a fydd yr amrywiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar y pedwar amcan trwyddedu.**

Newidiadau i adeiledd/gosodiad

8.41 Ni fydd llawer o amrywiadau bychain i'r gosodiad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, fel arfer dylid cyfeirio newidiadau i osodiad i'r broses amrywiadau lawn pe baent o bosib yn cael effaith niweidiol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, er enghraifft trwy:

- cynyddu cynhwysedd ar gyfer yfed yn y fangre;
- effeithio ar y mynediad i ran gyhoeddus y fangre a gweddill y fangre neu'r stryd neu lwybr tramwy cyhoeddus, e.e. rhwystro allanfeydd argyfwng neu lwybrau i allanfeydd argyfwng; neu
- rwystro gweithrediad effeithiol mesur lleihau swn.

8.42 Bydd angen i awdurdodau trwyddedu hefyd ystyried effaith gyfun cyfres o geisiadau am newidiadau gosodiad bach dilynol (er enghraifft, fel rhan o gynllun treigl i adnewyddu mangre) a fydd yn ansylweddol ynddynt eu hunain, ond a fydd yn cael effaith gronnol niweidiol ar yr amcanion trwyddedu. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau'r copi diweddaraf o gynllun y fangre.

Gweithgareddau Trwyddedadwy

8.43 Mae amrywiadau er mwyn ychwanegu adwerthu neu gyflenwi alcohol i drwydded wedi eu heithrio o'r broses mân amrywiadau ac mae'n rhaid eu trin fel amrywiadau llawn ym mhob achos.

8.44 Mae'r Ddeddf yn ymdrin ag ystod eang o weithgareddau trwyddedadwy eraill a bydd angen i swyddogion trwyddedu ystyried pob cais fesul achos ac yng ngoleuni amodau'r drwydded a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

8.45 Er enghraifft, efallai y byddai ychwanegu cerddoriaeth byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio at drwydded yn cael effaith ar yr amcan niwsans cyhoeddus, ond byddai hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau yn cynnwys natur y gerddoriaeth. Byddai cerddoriaeth acwstig heb ei chwyddo, er enghraifft, yn llai tebygol o gael effaith ar yr amcanion trwyddedu na cherddoriaeth trwy chwyddseinydd. Bydd angen i swyddogion trwyddedu hefyd ystyried ffactorau megis agosrwydd i ardaloedd preswyl ac unrhyw amodau lleihau swn a gynigir gan yr ymgeisydd. Mae'n fwriad pendant gan y Llywodraeth y dylai ceisiadau i amrywio trwydded ar gyfer cerddoriaeth byw elwa o'r broses mân amrywiadau oni bai fod yno effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu.

8.46 Yn yr un modd, mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd ychwanegu mathau eraill o adloniant wedi'i reoleiddio, megis perfformio dramâu neu arddangos ffilmiau, i drwydded yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu.

8.47 Wrth ystyried ceisiadau i ychwanegu gweithgareddau trwyddedadwy, efallai y bydd o gymorth i swyddogion trwyddedu ystyried y ffactorau canlynol:

- natur y gweithgaredd trwyddedadwy;
- agosrwydd y fangre i ardaloedd preswyl;
- unrhyw amodau trwydded a gynigir gan yr ymgeisydd i liniaru effaith y gweithgaredd;
- a yw alcohol yn cael ei werthu yn y fangre pan fo'r gweithgaredd trwyddedadwy yn digwydd; ac a fydd yn parhau i gael ei werthu yn ystod y cyfnod estynedig. Er enghraifft, gellid ystyried tafarn sy'n gwneud cais i aros yn agored am awr ychwanegol ar ôl i werthu alcohol ddod i ben er mwyn gwerthu bwyd a diod poeth fel budd sy'n hyrwyddo'r amcanion trwyddedu;
- record y fangre yn y gorffennol, er enghraifft, unrhyw gwynion neu gamau gorfodi sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu;
- agosrwydd a nifer y tafarndai, clybiau nos ayb. os yw cwsmeriaid o'r mangreoedd hyn yn debygol o gael eu denu i'r gweithgaredd trwyddedadwy arfaethedig mewn niferoedd mawr. Er enghraifft, pobl sy'n ymweld â siopau bwyd parod ar ôl gadael ty tafarn.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a dylai swyddogion trwyddedu ddefnyddio eu profiad a'u gwybodaeth eu hunain o drwyddedu wrth ystyried ceisiadau.

Oriau trwyddedu

8.48 Mae amrywiadau er mwyn:

- ymestyn oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre neu oddi ar y fangre rhwng oriau 11pm a 7am; neu
- cynyddu'r cyfnod o amser mewn unrhyw ddiwrnod pryd gelir gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre neu oddi ar y fangre

wedi eu **heithrio** o'r broses mân amrywiadau ac mae'n rhaid eu trin fel amrywiadau llawn ym mhob achos. Bydd ceisiadau i leihau oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol fel rheol yn cael eu prosesu fel mân amrywiadau.

8.49 Dylid ystyried ceisiadau i amrywio'r amser ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy eraill fesul achos gan gyfeirio at yr effaith tebygol ar yr amcanion trwyddedu. Wrth ddod i benderfyniad, efallai y bydd o gymorth i swyddogion trwyddedu ystyried y ffactorau canlynol:

- natur y gweithgaredd trwyddedadwy;
- graddfa'r oriau ychwanegol y ceisir ac a fydd yn golygu agor yn hwyrach neu agor rhwng 11pm a 7am;
- agosrwydd y fangre i ardaloedd preswyl;
- unrhyw amodau trwydded a gynigir gan yr ymgeisydd i liniaru effaith y gweithgaredd; unrhyw amodau ychwanegol a gynigir gan yr ymgeisydd;
- trefniadau ar gyfer gwasgariad, h.y. pan yw pobl yn gadael y fangre; a oes yna botensial ar gyfer swn a tharfu gerllaw'r lleoliad; ai'r unig ffordd o wasgaru yw llwybr sengl trwy ardaloedd preswyl;
- a yw'r cyfnod estynedig arfaethedig yn gymwys ar y penwythnos yn unig neu hefyd yn ystod dyddiau'r wythnos;
- a fydd yno dderbyniadau newydd yn ystod y cyfnod yma;
- record y sefydliad yn y gorffennol, e.e. cwynion sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu, unrhyw gamau gorfodi;

- a yw'r fangre eisoes yn agored yn ystod y cyfnod estynedig ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy eraill;
- agosrwydd a nifer y tafarndai, clybiau nos ayb. os yw cwsmeriaid o'r mangreoedd hyn yn debygol o gael eu denu i'r gweithgaredd; trwyddedadwy arfaethedig mewn niferoedd mawr. Er enghraifft, pobl sy'n ymweld â siopau bwyd parod ar ôl gadael ty tafarn.

8.50 Nid yw'r ffactorau hyn yn rhestr gynhwysfawr a dylai swyddogion trwyddedu ddefnyddio eu profiad a'u gwybodaeth eu hunain o drwyddedu wrth ystyried ceisiadau.

Amodau trwyddedu

8.51 Fel rheol bydd amodau trwydded neu dystysgrif clwb wedi eu cynnig yn wirfoddol neu eu gosod i liniaru unrhyw effaith niweidiol posib ar yr amcanion trwyddedu. Yn y rhan fwyaf o achosion felly, dylid trin unrhyw gais i ddileu neu newid geiriad amod fel amrywiad llawn.

8.52 Fodd bynnag, efallai ceir rhai amgylchiadau lle bydd y broses mân amrywiadau yn briodol. Fe all mangre newid dros amser ac efallai na fydd yr amgylchiadau a arweiniodd ar osod neu gynnig yr amod gwreiddiol yn berthnasol bellach. Er enghraifft, efallai na fydd angen goruchwylio wrth y drws os yw bar wedi cael ei droi'n dy bwyta. Yn yr un modd efallai na fydd rhai amodau gwreiddiol yn gymwys.

8.53 Fe all newidiadau mewn deddfwriaeth wneud rhai amodau yn annilys. Er enghraifft, diddymwyd yr holl amodau'n ymwneud â diogelwch tân a osodwyd ar drwyddedau yn llwyr am resymau diogelu rhag gan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 diweddar. Er nad oes rhaid dileu'r amodau o'r drwydded, efallai y bydd awdurdodau trwyddedu yn teimlo bod hyn yn ddymunol i gael eglurder ynghylch ymrwymiadau cyfreithiol deiliad y drwydded.

8.54 Efallai hefyd y bydd yno nifer bach o achosion lle bydd angen diwygio geiriad amod sy'n aneglur a/neu yn amhosib i'w orfodi. Byddai hyn yn dderbyniol fel mân amrywiad cyhyd ag y bod y bwriad sydd wrth wraidd yr amod a'r effaith cyffredinol yn parhau'n ddigyfnewid. Gellid disgwyl i newid o'r fath hyrwyddo'r amcanion trwyddedu trwy ei gwneud yn haws i ddeiliad y drwydded ddeall a chydymffurfio â'r amod a'i gwneud yn haws i'r awdurdod trwyddedu i'w gorfodi.

8.55 Yn olaf, efallai y ceir amgylchiadau pryd y bydd deiliad y drwydded ac awdurdod cyfrifol fel yr heddlu neu awdurdod iechyd yr amgylchedd, yn cytuno ar y cyd y dylid ychwanegu amod newydd i'r drwydded. Er enghraifft, clwb yn ychwanegu darparu lluniaeth hwyr y nos i'w drwydded er mwyn sicrhau cyfnod hirach o wasgariad. Ni fyddai newid o'r fath fel rheol yn cael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu a gellid disgwyl i'r newid eu hyrwyddo trwy atal trosedd ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe allai'r broses mân amrywiad ddarparu ffordd llai costus a beichus o addasu'r drwydded nag adolygiad, neu unrhyw berygl i'r amcanion trwyddedu.

Proses amrywiadau llawn

8.56 Bydd unrhyw newidiadau eraill i'r drwydded yn golygu cyflwyno cais i amrywio o dan adran 34 y Ddeddf.

8.57 Bydd awdurdodau trwyddedu am ystyried a oes yno effaith tebygol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth benderfynu a oes angen i gais i amrywio mewn perthynas â nodweddion nad oes angen eu dangos ar y cynllun o dan adran 17 y Ddeddf, ond sydd er hynny wedi eu cynnwys, er enghraifft, symud dodrefn (newid safle byrddau a chadeiriau) neu gerddi cwrw (gosod lloches ysmygwyr na fyd dyn effeithio ar y defnydd o allanfeydd neu lwybrau dianc).

8.58 Fodd bynnag, dylid nodi na ellir defnyddio cais o dan adran 34 i amrywio trwydded er mwyn:

- ymestyn trwydded cyfyngedig gan amser; neu
- drosglwyddo'r drwydded o un fangre i un arall.

8.59 Pe bai ymgeisydd yn dymuno gwneud y mathau yma o newid i drwydded mangre yna dylai wneud cais newydd am drwydded mangre o dan adran 17 Deddf Trwyddedu 2003.

CWESTIWN 2: A yw'r Canllawiau drafft hyn yn darparu cyngor digonol i gynorthwyo swyddogion wrth ddod i benderfyniad ynghylch barnu a yw amrywiad yn fân ai peidio? Ydynt/Nac ydynt

Os Nac ydynt, rhowch fanylion ynghylch pa ganllawiau ychwanegol y dylid eu darparu.

CWESTIWN 3. A ydych yn cytuno nad oes angen cymryd unrhyw gamau penodol pe bai awdurdod trwyddedu yn methu ymateb i'r ymgeisydd o fewn y cyfnod amser statudol? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, eglurwch pa gamau y dylid eu cymryd a'r rhesymau am hynny?

Pennod 4: Mân Amrywiadau - Ffi Arfaethedig ar gyfer Gwneud Cais

4.1 Mae'r Llywodraeth yn disgwyl pennu'r ffioedd ar lefel a fyddai'n adennill costau gweinyddol, archwilio a gorfodi unrhyw awdurdod trwyddedu sy'n gysylltiedig â'u swyddogaethau trwyddedu o dan Ddeddf 2003.

4.2 Yn dilyn ymgynghoriad gyda'n rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol (LACORs) ac awdurdodau trwyddedu unigol, rydym yn argymell y dylid pennu **£73** fel y ffi gychwynnol ar gyfer cais am Fân Amrywiad.

4.3 Mae hyn yn rhagdybio cyfartaledd amser o 2 awr i brosesu mân amrywiad, sy'n cynnwys 1.75 awr o amser gweinyddol ar gost o £32.12/awr* a 0.25awr o amser proffesiynol (swyddog trwyddedu) ar gost o £68.85/awr. Bydd hyn yn cynnwys darllen ac ystyried y cais, ei gopïo i unrhyw awdurdodau cyfrifol, ymateb i'r ymgeisydd, prosesu'r taliad, gwirio a chyhoeddi'r drwydded newydd a diweddaru'r gofrestr trwyddedu.

CWESTIWN 4: A ydych yn credu bod y ffi arfaethedig yn a) iawn b) rhy isel neu c) rhy uchel?

Os ydych yn credu bod y ffi yn rhy uchel neu'n rhy isel, dylech awgrymu ffigur amgen a rhoi tystiolaeth, yn cynnwys tasgau a gyflawnwyd, amser angenrheidiol i'w cyflawni ar gyfartaledd, a chyfran o'r ymdrech broffesiynol/gweinyddol sy'n berthnasol.

* Cyfraddau'r Llywodraeth fesul y pen (cyfraddau fesul awr ynghyd â gorbenion).

Pennod 5: Mân Amrywiadau - Ffurflen Gais

5.1 Gellir defnyddio'r ffurflen gais ddrafft isod i wneud cais am fân amrywiad i drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb.

Cais ar gyfer mân amrywiad i drwydded mangre/tystysgrif mangre clwb o dan Rhan 4A Deddf Trwyddedu 2003

DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU CANLYNOL GYNTAF

Cyn cwblhau'r ffurflen hon dylech ddarllen y nodiadau arweiniad ar ddiwedd y ffurflen.

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen â llaw dylech ysgrifennu'n eglur mewn priflythrennau. Ym mhob achos dylech sicrhau bod eich atebion y tu mewn i'r blychau ac wedi eu hysgrifennu neu eu teipio mewn inc du. Dylech ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen.

Ar ôl ei gwblhau rhowch eich cais i *[nodwch enw a chyfeiriad yr awdurdod trwyddedu perthnasol].*
Os dymunwch gallwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau ar gyfer eich cofnodion.

Rwyf i/Rydym ni ……***(Noder enw/enwau'r ymgeisydd)***

sef y deiliad/deiliaid trwydded mangre/tystysgrif mangre clwb, yn gwneud cais i amrywio trwydded mangre o dan adran 41A /tystysgrif mangre clwb o dan adran 86A Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer y fangre a ddisgrifir yn Rhan 1 isod.

Rhan 1 – Manylion y fangre

Cyfeiriad post y fangre, neu, os nad oes un, cyfeirnod map arolwg ordnans neu ddisgrifiad	
Tref Bost	Cod Post

Rhif ffôn y fangre (os oes un)

Rhif y drwydded mangre/tystysgrif mangre clwb

Disgrifiad cryno o'r fangre (Gweler Nodyn Arweiniad 1)

Rhan 2 – Manylion yr ymgeisydd

Ticiwch ydwyf ✔

Rwyf/Rydym yn ddeiliad trwydded mangre/tystysgrif mangre clwb ☐

Rhif ffôn cyswllt oriau gwaith (os oes un)

Cyfeiriad E-bost (dewisol)

Cyfeiriad post cyfredol os yn wahanol i gyfeiriad y fangre

Tref Bost

Cod Post

Ffôn (os oes un)

Rhan 3 – Amrywiad

Ticiwch ydwyf ✔

A ydych am i'r amrywiad arfaethedig ddod yn weithredol mor fuan â phosib? ☐

Os nad ydych a ydych am i'r amrywiad ddod yn weithredol ar

Dyddiad		Mis		Blwyddyn			

Disgrifiwch yr amrywiadau) arfaethedig mewn manylder yn y blwch isod ac eglurwch pam eich bod o'r farn na fyddant yn cael effaith niweidiol ar hyrwyddo unrhyw un o'r amcanion trwyddedu.

Manylion yr amrywiad (au) (Gweler Nodyn Arweiniad 2)

Rhan 4 Atodlen Weithredu

Ticiwch y rhannau hynny o'r Atodlen Weithredu fyddai'n destun newid pe bai'r cais hwn i amrywio yn llwyddiannus.

Ticiwch ydwyf ✔

<u>Darparu adloniant wedi'i reoleiddio</u>

a. dramâu ☐
b. ffilmiau ☐
c. digwyddiad chwaraeon dan do ☐
d. adloniant paffio neu wreslo ☐
e. cerddoriaeth byw ☐
f. cerddoriaeth wedi ei recordio ☐
g. perfformiad o ddawns ☐
h. unrhywbeth tebyg i'r hyn sy'n dod o fewn (e), (f) neu (g) ☐

Darparu cyfleusterau adloniant ar gyfer:

i. creu cerddoriaeth ☐
j. dawns ☐
k. adloniant o fath tebyg i'r hyn sy'n dod o fewn (i) neu (j) ☐

Darparu lluniaeth yn hwyr y nos ☐

Adwerthu alcohol ☐

	Ticiwch ydwyf ✔
Rwyf wedi amgáu'r drwydded mangre/tystysgrif mangre clwb	☐
Rwyf wedi amgáu'r rhan berthnasol o'r drwydded mangre/ tystysgrif mangre clwb	☐

Os nad ydych wedi ticio un o'r blychau hyn eglurwch pam yn y blwch isod.

Rhesymau pam nad ydych wedi amgáu'r drwydded mangre/tystysgrif mangre clwb neu rannau perthnasol.

Unrhyw wybodaeth bellach i gefnogi eich cais (Gweler Nodyn Arweiniad 3)

RHESTR WIRIO:- **Ticiwch ydwyf ✔**

- Rwyf wedi talu neu'n amgáu taliad o'r ffi ☐
- Rwy'n amgáu'r cynllun, os yw'n briodol, o'r fangre yn ôl graddfa [1mm i 100mm], oni bai bod yr awdurdod trwyddedu wedi cytuno'n wahanol ☐
- Rwyf wedi amgáu'r drwydded mangre/tystysgrif mangre clwb neu ran berthnasol ohoni/ohono neu wedi rhoi eglurhad ☐

- Rwy'n deall y bydd fy nghais yn cael ei wrthod os nad wyf yn cydymffurfio â'r gofynion uchod. ☐

MAE'N DROSEDD I WNEUD DATGANIAD GAU YNG NGHYSWLLT Y CAIS HWN GALLAI GWNEUD HYNNY ARWAIN AT ERLYNIAD A DIRWY HYD AT LEFEL 5 AR Y RADDFA SAFONOL [SWM], O DAN ADRAN 158 DEDDF TRWYDDEDU 2003

Rhan 5 – Llofnodion (Darllenwch nodyn arweiniad 4)

Llofnod yr ymgeisydd (deiliad presennol y drwydded mangre) neu gyfreithiwr yr ymgeisydd neu asiant awdurdodedig dilys arall (Gweler nodyn arweiniad 5)**. Os yn arwyddo ar ran ymgeisydd dylid nodi yn rhinwedd pa swyddogaeth y gwneir hynny.**

Arwyddwyd
……
……

Dyddiad……
……

Swyddogaeth
……
……

Lle mae'r drwydded mangre yn cael ei dal ar y cyd llofnod yr 2^{il} ymgeisydd, cyfreithwyr yr 2^{il} ymgeisydd neu asiant awdurdodedig arall (Gweler nodyn arweiniad 6)**. Os yn arwyddo ar ran ymgeisydd dylid nodi yn rhinwedd pa swyddogaeth y gwneir hynny.**

Arwyddwyd
……
……

Dyddiad……
……

Swyddogaeth
……
……

Lle mae clwb yw'r fangre

Rwyf *(nodwch enw llawn)*…… yn gwneud y cais hwn ar ran y clwb ac mae gennyf awdurdod i ymrwymo'r clwb

Arwyddwyd ……..

Dyddiad ……

Swyddogaeth ……..

Enw cyswllt (lle na roddwyd yn flaenorol) a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cais hwn. (Gweler nodyn arweiniad 7)	
Tref Bost	Cod Post
Rhif ffôn (os oes un)	
Nodwch eich cyfeiriad e-bost pe bai'n well gennych i ni ohebu â chi trwy e-bost (dewisol)	

Nodiadau Arweiniad

Gellir defnyddio'r broses mân amrywiadau yn unig ar gyfer amrywiadau na <u>allai gael effaith niweidiol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.</u>

Ni ellir ei defnyddio i:

- **ymestyn y cyfnod y mae trwydded yn weithredol;**
- **trosglwyddo' r drwydded o un fangre i un arall;**
- **nodi'n benodol, mewn trwydded mangre, unigolyn fel goruchwyliwr mangre**
- **ychwanegu adwerthu neu gyflenwi alcohol fel gweithgaredd a awdurdodir gan drwydded mangre;**
- **awdurdodi gwerthu neu gyflenwi alcohol ar unrhyw amser rhwng 11pm a 7pm;**
- **awdurdodi cynnydd yn yr amser mewn diwrnod pryd gellir adwerthu neu gyflenwi alcohol.**

1. Disgrifiwch y fangre. Er enghraifft y math o fangre, ei lleoliad a'i gosodiad cyffredinol ac unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu. Fe ddylai hyn gynnwys unrhyw weithgareddau mewn neu'n gysylltiedig â defnyddio'r fangre a allai arwain at bryderon yng nghyswllt plant boed yn fwriad gennych neu beidio i blant gael mynediad i'r fangre, er enghraifft (ond nid yn gyfan gwbl) noethlymundra neu noethlymundra rhannol, ffilmiau ar gyfer grwpiau oedran cyfyngedig, presenoldeb peirannau hapchwarae, ayb.
2. Rhowch fanylion llawn yr holl amrywiad (au) arfaethedig. Fe all methu darparu gwybodaeth ddigonol arwain at wrthod eich cais. Dylai manylion gynnwys disgrifiad o'r amrywiad (au) arfaethedig mewn termau mor fanwl â phosib. Os nad ydych yn fanwl, fe all yr awdurdod trwyddedu benderfynu y byddai'r newidiadau a fwriedir gennych efallai'n fwy eang eu cwmpas na'r hyn y bwriadwch a gwrthod eich cais ar y sail nad yw'r amrywiad yn 'fân'. Dylech hefyd gynnwys datganiad ynghylch pam eich bod yn ystyried na allai'r amrywiadau arfaethedig gael effaith ar yr amcanion trwyddedu a restrwyd yn adran 4(2) y Ddeddf. Dylech ymdrin â phob un o'r amcanion a allai fod yn berthnasol i'ch bwriad chi (neu i bob un o'ch bwriadau os oes mwy nag un) a nodi pam eich bod yn credu na fyddai yno effaith niweidiol i'r amcanion dan sylw. Cynorthwyir eich cais trwy gynnwys cymaint o wybodaeth â phosib ynglyn â hyn.

a) Amrywiadau i weithgareddau trwyddedadwy/oriau trwyddedu

- a fydd lefelau newydd neu gynnydd mewn gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd o dan do neu yn yr awyr agored. Fe all dan do gynnwys pabell;
- manylion perthnasol pellach, er enghraifft a fydd y gerddoriaeth yn cael ei chwarae trwy chwyddseinydd neu beidio;
- dyddiau ac amseroedd safonol pryd bydd y gweithgaredd yn digwydd, yn cynnwys amser cychwyn a gorffen;
- unrhyw amrywiadau tymhorol mewn amseroedd, e.e. dyddiau ychwanegol yn ystod misoedd yr haf;
- amseroedd ansafonol, e. e. pryd byddwch am i'r gweithgaredd fynd ymlaen yn hirach ar ddiwrnod penodol megis Noswyl Nadolig.

(Noder - dylid rhoi pob amseriad mewn cloc 24 awr (e.e. 16.00) gan roi manylion yn unig ar gyfer dyddiau'r wythnos pryd yr ydych yn bwriadu defnyddio'r fangre ar gyfer y gweithgaredd).

b) Amrywiadau i osodiad mangre/clwb

Os ydych yn gwneud cais ar gyfer amrywiad i osodiad eich mangre, mae'n rhaid i chi gynnwys cynllun diwygiedig. Dylech gadw mewn cof y bydd eich cais yn debygol o gael ei wrthod pe gallai'r amrywiad arfaethedig:

- cynyddu cynhwysedd ar gyfer yfed yn y fangre;
- effeithio ar y mynediad i ran gyhoeddus y fangre a gweddill y fangre neu'r stryd neu lwybr tramwy cyhoeddus, e.e. rhwystro allanfeydd argyfwng neu lwybrau i allanfeydd argyfwng; neu
- rwystro gweithrediad effeithiol mesur lleihau swn.

c) Amrywiadau i amodau

Gellir defnyddio'r broses mân amrywiadau i ddileu amodau sydd wedi dyddio neu sy'n annilys a diwygio amodau sy'n aneglur (ar yr amod bod y bwriad a'r effaith yn aros yr un fath). Gellir ei defnyddio hefyd i ychwanegu amod newydd sydd wedi'i gytuno ar y cyd rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdod cyfrifol, megis yr heddlu neu awdurdod iechyd yr amgylchedd (yn destun effaith ar yr amcanion trwyddedu)

d) Amrywiadau i oriau agor

Manylion unrhyw newidiadau i oriau pan yw'r fangre neu'r clwb yn agored i'r cyhoedd.

3. Dylech geisio defnyddio'r blwch yma i roi unrhyw dystiolaeth ychwanegol i gefnogi eich dadl bod yr amrywiad arfaethedig gyn un 'mân' ac na fyddai'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
4. Mae'n rhaid llofnodi'r ffurflen.
5. Fe all asiant ymgeisydd (er enghraifft cyfreithiwr) lofnodi'r ffurflen ar ei ran ar yr amod fod ganddo'r awdurdod i wneud hynny.
6. Lle ceir mwy nag un ymgeisydd, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr neu eu hasiantiaid perthnasol lofnodi'r ffurflen.
7. Dyma'r cyfeiriad a ddefnyddir gennym i ohebu â chi ynglyn â'r cais hwn.

CWESTIWN 5: A ydych yn credu y bydd ymgeiswyr yn gallu cwblhau'r ffurflen hon yn hawdd heb ofyn am gyngor cyfreithiol? Ydwyf/Nac ydwyf.

Os Nac ydwyf, eglurwch sut y gellid ei gwneud yn fwy hwylus i'r defnyddiwr.

CWESTIWN 6: A yw'r ffurflen hon yn darparu digon o wybodaeth er mwyn i swyddog trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn fân ai peidio?

Os Nac ydwyf, rhowch fanylion ynghylch pa wybodaeth ychwanegol ddylid ei darparu.

Pennod 6: Mân Amrywiadau - Asesiad Effaith

Crynodeb: Ymyrraeth a Dewisiadau		
Adran /Asiantaeth: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	**Teitl:** Asesiad Effaith o'r cynnig i gyflwyno proses symlach ar gyfer mân amrywiadau i drwyddedau	
Cam: Ymgynghoriad	**Fersiwn:** 1.2	**Dyddiad:** 04/08/2008
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: Deddf Trwyddedu 2003, Papur Ymgynghori ar y cynnig i gyflwyno proses symlach ar gyfer mân amrywiadau i drwyddedau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.		
Ar gael i'w weld neu ei lawrlwytho yn: http://www.culture.gov.uk		
Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Amanda Stevens		**Ffôn:** 020 7211 6322

Beth yw'r broblem o dan sylw? Pam fod angen ymyrraeth gan y llywodraeth?

Mae angen system drwyddedu i reoleiddio rhai gweithgareddau 'trwyddedadwy', yn cynnwys gwerthu alcohol, darparu adloniant rheoledig a darparu lluniaeth hwyr y nos, er mwyn lleihau'r risg i'r amcanion trwyddedu craidd (atal trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed).

O dan y system bresennol, gellid disgwyl i gyfran sylweddol o newidiadau bach i drwyddedau gael dim effaith neu fawr ddim effaith ar yr amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded fynd trwy'r broses amrywio llawn, gyda'r costau a'r baich gweinyddol cysylltiedig, pan yw'r risgiau i'r amcanion trwyddedu yn fach iawn a lle nad oes gan bartïon sydd â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol fawr ddim neu ddim diddordeb o gwbl ynddynt. Golyga hyn bod yno anghydbwysedd rhwng costau cydymffurfio â'r budd o safbwynt lleihau risg. Mae angen ymyrraeth gan Lywodraeth i gywiro'r anghydbwysedd hyn trwy leihau costau cydymffurfio ar gyfer newidiadau bach, risg isel i drwyddedau.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau a fwriedir?

Yr amcan polisi yw hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu am y cost gweinyddol lleiaf. Yr effeithiau a fwriedir yw :

- gostyngiad sylweddol yn y baich gweinyddol cyfredol ar ddeiliaid trwydded
- cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n cyflwyno newidiadau bach i drwyddedau i'r awdurdod trwyddedu. Fe ddylai hyn sicrhau bod gan awdurdodau trwyddedu (ac awdurdodau eraill) gofnodion diweddar er mwyn llywio eu strategaethau gorfodi.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi cael eu hystyried? Cyfiawnhewch unrhyw ddewis a ffafrir os gwelwch yn dda

Ymgynghorodd y Llywodraeth ar y dewisiadau canlynol o 31 Tachwedd 2007 tan 20 Chwefror 2008:

Dewis 1: Diffinio 'mân amrywiad' fel unrhyw newid i drwydded a fydd yn cael effaith ar y pedwar amcan trwyddedu. Rhoi disgresiwn llwyr i awdurdodau trwyddedu o fewn y diffiniad eang yma, i benderfynu beth sy'n cyfateb i fân amrywiad neu beidio, yn ddarostyngedig i ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol (yr heddlu, ayb) os oes angen. Y dewis sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth

Dewis 2: Cyfyngu neu ddileu disgresiwn awdurdod trwyddedu trwy bennu beth yw, a/neu beth nad yw mân amrywiad ar wyneb y Ddeddf. Ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol yn ôl yr angen.

Dewis 3. Dim newid

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno gyda'r dewis sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth, ond roedd lleiafrif yn ffafrio Dewis 2 neu 3 oherwydd pryderon y gallai ymgeiswyr ddefnyddio'r broses mân amrywiadau i wneud newidiadau a fyddai'n cael effaith niweidiol ar breswylwyr ac eraill yn y cyffiniau. Mynegwyd pryderon penodol ynghylch y posibilrwydd o amrywio trwydded i ychwanegu gwerthu neu gyflenwi alcohol neu ymestyn yr oriau pryd gellid gwerthu neu gyflenwi alcohol. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd ystyriaeth o'r pryderon hyn yn y cynnig polisi canlynol sy'n sail i'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft a'r Arweiniad drafft a gynhwysir yn yr ail gam yma o'r ymgynghoriad.

Cynnig: Diwygio Deddf Trwyddedu 2003 er mwyn cyflwyno proses newydd ar gyfer 'mân amrywiadau i drwyddedau neu dystysgrifau mangre clwb. Diffinnir 'mân amrywiad' fel newid i drwydded na fyddai'n cael effaith niweidiol ar y pedwar amcan trwyddedu, gyda'r eithriadau canlynol:

- **ychwanegu gwerthu neu gyflenwi alcohol i drwydded;**
- **gwerthu neu gyflenwi alcohol ar unrhyw adeg rhwng 11pm a 7am;**
- **ac unrhyw gynnydd yn y cyfnod o amser ar unrhyw ddiwrnod pryd gellir gwerthu neu gyflenwi alcohol**

Gyda'r eithriadau hyn, bydd gan awdurdodau trwyddedu ddisgresiwn o fewn y diffiniad eang i benderfynu a yw amrywiad yn un mân neu'n destun ymgynghoriad gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol ac sy'n ystyried yr Arweiniad statudol.

Pa bryd y bydd y polisi'n cael ei adolygu i ddarganfod y costau a'r buddion gwirioneddol a'r graddau y cyflawnwyd? Gaeaf 2011, tair blynedd ar ôl ei weithredu.

Cymeradwyaeth y Gweinidog i gam ymgynghori Asesiadau Effaith:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad o'r Effeithiau ac rwyf yn fodlon ei fod, yn wyneb y dystiolaeth sydd ar gael, yn cynrychioli barn resymol o gostau, buddion ac effaith debygol y dewisiadau amlycaf.

Arwyddwyd gan y Gweinidog â Chyfrifoldeb:

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth	
Polisi	**Disgrifiad: fel uchod**

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL	
Untro (Trawsnewid) **Bl**	Disgrifiad a graddfa **costau ariannol allweddol** gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
£	
Cost Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio cost untro)	
£0	**Cyfanswm Cost** **£0**

Buddion eraill allweddol nad ydynt yn rhai ariannol gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Bydd y cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel y barnant yn ofynnol, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr amrywiad. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd angen i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag un neu ddau awdurdod cyfrifol ar y mwyaf, ac mewn rhai achosion bydd modd iddynt ddod i benderfyniad heb geisio cyngor allanol. Felly byddai unrhyw gostau cysylltiedig yn fach a gellid eu hadennill trwy ffi taladwy gan yr ymgeisydd i'r awdurdod trwyddedu.

BUDDION	BUDDION BLYNYDDOL		Disgrifiad a graddfa **buddion ariannol allweddol** gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
	Untro	**Bl**	Arbedion Blynyddol posib i bob deiliad trwydded a thystysgrif o £1.9m-£2.5m y flwyddyn.
	£0		
	Budd Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio budd untro)		
	£2.2m (£1.9m-£2.50m)		**Cyfanswm Buddion** (PV) £18.3m (15.8m-20.8m)
	Buddion eraill allweddol nad ydynt yn rhai ariannol gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Ar hyn o bryd ymgynghorir ag awdurdodau cyfrifol ar bob 'mân' amrywiad risg isel. O dan y cynigion hyn byddid yn ymgynghori â hwynt ar nifer fechan o fân amrywiadau ymylol, gan ryddhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau eraill.		

Rhagdybiaethau/Sensitifrwydd/Risgiau allweddol Amcangyfrifon o niferoedd yr amrywiadau fyddai'n dod o fewn y broses mân amrywiadau, costau a graddfa'r amrywiadau sy'n golygu newidiadau gosodiad ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid.

Sail Pris Blwyddyn	Cyfnod Amser Blynyddoedd	**Ystod Buddion Net** (NPV)	**BUDD NET** (Amcangyfrif gorau NPV)
2007	10	**£15.8m-£20.8m**	**£18.3m**

Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/dewis?	Cymru a Lloegr
Ar ba ddyddiad y gweithredir y polisi?	Gaeaf 08/ Gwanwyn 09
Pa sefydliad(au) a fydd yn gorfodi'r polisi?	Awdurdodau trwyddedu
Beth yw cyfanswm cost flynyddol gorfodi i'r sefydliadau hyn?	£ 0 (ffioedd yn cynnwys
A yw'r broses o orfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?	Ydyw
A fydd gweithredu'n mynd y tu hwnt i leiafswm gofynion yr UE?	Na fydd
Beth yw gwerth y mesur arfaethedig i osod yn erbyn bob blwyddyn?	£ ddim ar gael
Beth yw gwerth y newidiadau mewn allyriadau nwyon ty gwydr?	£ ddim ar gael
A fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar y gystadleuaeth?	Na fydd

Cost blynyddol (£-£) fesul corff/mudiad	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A yw unrhyw un o'r cyrff hyn yn eithriedig?	Na	Na	Ddim ar gael	Ddim ar gael

Effaith ar Waelodlin Beichiau Gweinyddol (Prisiau 2007) (Cynnydd - Gostyngiad)

Cynnydd o Gostyngiad o **Effaith Net**

Sail Tystiolaeth (ar gyfer taflenni crynodeb)

Allwedd **Costau a Buddion Blynyddol: Prisiau Cyson** **Gwerth Presennol (Net)**

[Defnyddiwch y gofod hwn (gydag uchafswm a argymhellwyd o 30 tudalen) i ddatgan y dystiolaeth, dadansoddiad a'r naratif manwl yr ydych wedi eu defnyddio fel sail i'r dewisiadau neu gynnig polisi. Sicrhewch fod yr wybodaeth wedi cael ei threfnu yn y fath fodd fel ag i esbonio'n glir yr wybodaeth gryno ar dudalennau blaenorol y ffurflen hon.]

Y baich deddfwriaethol

Mae Adran 34 Deddf Trwyddedu 2003 yn darparu y gall deiliad trwydded mangre wneud cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol ar gyfer amrywiad o'r drwydded. Mae amrywiad yn ofynnol ar gyfer unrhyw newid i'r drwydded yn cynnwys newidiadau i unrhyw nodwedd a ddangosir ar gynllun o'r fangre.

Yr unig eithriad yw amrywiad i'r drwydded i bennu unigolyn fel goruchwyliwr mangre sy'n ddarostyngedig i broses hysbysu symlach o dan adran 37 y Ddeddf.

Cynnig y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid addasu Deddf 2003 er mwyn darparu ar gyfer proses 'mân' amrywiadau newydd. Byddai hyn yn caniatáu ymgeiswyr i wneud newidiadau bach i'w trwyddedau am dâl bychan a heb orfod hysbysu ynglyn â'r amrywiad neu anfon copi ohono at bob awdurdod cyfrifol.

Rhoddwyd y cynnig hwn gerbron fel rhan o Gynllun Symleiddio DCMS a gyhoeddwyd yn 2007.

Pwy y mae'r baich yn effeithio arnynt?

Ar 8 Tachwedd 2007 cyhoeddwyd bwletin Ystadegol DCMS "Alcohol, Entertainment and Late Night Refreshment Licensing". Mae hyn yn cynnwys ffigurau am niferoedd y ceisiadau i amrywio trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb yng Nghymru a Lloegr yn y cyfnod 1 Ebrill 2006 tan 31 Mawrth 2007. Ar sail ymateb gan 82% o awdurdodau trwyddedu roedd yno 10,120 o geisiadau i amrywio, er y bydd y ffigurau hyn yn uwch pe baent yn cael eu hallosod i gynnwys gweddill y 18% o'r awdurdodau na roddodd ymateb, yn rhoi cyfanswm o tua 12,000.

Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â chyfnod yn fuan ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, felly mae'n dilyn y byddai mangreoedd a chlybiau yn llai tebygol o ddymuno amrywio telerau eu hawdurdodiadau. Mae hyn hefyd yn egluro pam fod yr ystadegau yn dangos nifer cymharol uchel o geisiadau am drwyddedau a thystysgrifau newydd, 14,960 o geisiadau newydd ar sail ymateb gan 82% o awdurdodau trwyddedu. Os yw hyn yn cael ei ymestyn i'r 18% o awdurdodau na wnaeth ymateb, mae hyn yn rhoi cyfanswm o tua 18000 o geisiadau.

Yn dilyn trafodaethau gyda grwpiau rhanddeiliaid a grwp ffocws o ddeg awdurdod trwyddedu, rydym yn gwybod y bydd llawer o fangreoedd a chlybiau yn dewis gwneud cais am drwyddedau a thystysgrifau newydd yn hytrach na gwneud cais i amrywio. Ni ddylai hyn ddigwydd mewn blynyddoedd i ddod oherwydd bod yr Arweiniad statudol diwygiedig[3] a gyhoeddwyd ym Mehefin 2007 bellach yn ei gwneud yn glir y dylid gwneud newidiadau i drwyddedau a thystysgrifau clwb presennol trwy'r broses amrywiadau. Os rhagdybir mai ceisiadau i amrywio oedd tua 20% o'r 18000 o geisiadau (3600) am drwyddedau a thystysgrifau clwb newydd, mae hyn yn rhoi cyfanswm diwygiedig o 15600 o geisiadau i amrywio y flwyddyn.

Gallwn hefyd ragdybio cynnydd pellach mewn ceisiadau i amrywio o ganlyniad i gyflwyno'r broses mân amrywiadau. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol yn dilyn camau gorfodi gan awdurdodau trwyddedu, bod rhai deiliaid trwydded wedi gwneud newidiadau i'w trwyddedau heb wneud cais i amrywio, efallai oherwydd bod y broses yn rhy gostus. Mae'r deiliaid trwydded hyn yn fwy tebygol o wneud cais i amrywio o dan y broses mân amrywiadau symlach a rhatach. Yn yr un modd, mae deiliaid trwydded nad ydynt o bosib wedi gwneud cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro o'r blaen fel dewis rhatach i newid eu trwyddedau, yn fwy tebygol o wneud cais am fân amrywiad. Rydym yn amcangyfrif y dylai hyn arwain at gynnydd o tua 4000-5000 o geisiadau i amrywio y flwyddyn.

Rydym felly yn amcangyfrif mewn blynyddoedd i ddod, y bydd yno oddeutu **20,000 o geisiadau i amrywio** y flwyddyn ar draws pob awdurdod trwyddedu.

Er mwyn cyfrifo'r baich cyfredol byddai angen i ni wedyn sefydlu faint o geisiadau i amrywio a fyddai'n dod o fewn amlinelliad bras mân amrywiad fel y'i diffiniwyd gan gynnig y Llywodraeth isod:

[3] Arweiniad a gyhoeddwyd o dan adran 182 y Ddeddf Trwyddedu [ychwaneger cyswllt]

Diwygio Deddf Trwyddedu 2003 er mwyn cyflwyno proses newydd ar gyfer 'mân amrywiadau i drwyddedau neu dystysgrifau mangre clwb. Diffinnir 'mân amrywiad' fel newid i drwydded na fyddai'n cael effaith niweidiol ar y pedwar amcan trwyddedu, gyda'r eithriadau canlynol:

- **ychwanegu gwerthu neu gyflenwi alcohol i drwydded;**
- **gwerthu neu gyflenwi alcohol ar unrhyw adeg rhwng 11pm a 7am;**
- **ac unrhyw gynnydd yn y cyfnod o amser ar unrhyw ddiwrnod pryd gellir gwerthu neu gyflenwi alcohol**

Unwaith eto, nid oes amcangyfrifon dibynadwy ar gael a chymhlethir pethau ymhellach gan y ffaith bod llawer o fangreoedd yn dewis peidio gwneud cais amrywiad ar gyfer mân newidiadau, oherwydd y costau anghymesur sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gyda grwpiau rhanddeiliaid ac awdurdodau trwyddedu amcangyfrifwyd yn yr asesiad effaith rhannol a wnaed yn rownd gyntaf yr ymgynghoriad bod tua **30% o amrywiadau (6000)** yn debygol o gael eu cynnwys o fewn proses mân amrywiadau, pe rhoddir disgresiwn llawn i awdurdodau trwyddedu. Rydym yn amcangyfrif y byddai'r eithriadau arfaethedig a nodir uchod yn lleihad o 10% yng nghyfanswm nifer yr amrywiadau a fyddai'n debygol o gael eu dal gan y broses newydd i **5400**.

Nid yw'r ffigur yma'r trosi'n uniongyrchol i niferoedd busnesau neu glybiau y mae'r baich yn effeithio arnynt, ond oherwydd y bydd rhai mangreoedd yn cyflwyno sawl cais i amrywio (e.e. os ydynt yn cynnal gwaith ailosod sylweddol i siop). Mae'r arwyddion o du rhanddeiliaid yn awgrymu bod ceisiadau niferus fel hyn yn cyfrif am tua 5% o'r 'mân' amrywiadau cyfredol. Pe bai'r cyfanswm yn cael ei leihau 5% i ystyried ceisiadau niferus, byddai'n dal i olygu bod y baich yn effeithio ar 5130 **mangre bob blwyddyn**.

Mae'r ystod o grwpiau yr effeithir arnynt yn cynnwys:

- tafarndai, bariau, clybiau nos, gwestai, llety gwely a brecwast a mangreoedd eraill sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol yn y fangre;
- archfarchnadoedd, siopau hwylus ac eiddo arall a drwyddedwyd i werthu alcohol oddi ar y fangre;
- theatrau, sinemâu, lleoliadau cerddoriaeth byw, darparwyr adloniant rheoledig eraill;
- siopau pryd ar y stryd, tai bwyta, caffis a mangreoedd eraill sy'n darparu lluniaeth hwyr y nos;
- cyrff gwirfoddol, megis elusennau, ysgolion, neuaddau pentref a chymunedol; a
- clybiau aelodau preifat, megis clybiau chwaraeon, clybiau gweithwyr a chlybiau gwleidyddol.

Cost y baich

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd am amrywio trwydded neu dystysgrif (ac eithrio amrywiad i bennu goruchwyliwr mangre):

- cwblhau ac anfon ffurflen gais gyda chopi o'r drwydded neu'r dystysgrif, y cynllun gwreiddiol (a chynllun wedi'i addasu, os yw hynny'n briodol) i'r awdurdod trwyddedu perthnasol (£15-£80[4])
- talu ffi (£100-£1905, yn dibynnu ar werth trethadwy'r fangre);
- copïo pob dogfen at hyd at naw awdurdod cyfrifol (£20-£40);
- hysbysu'r newid arfaethedig mewn papur newydd/cylchlythyr lleol (£200-£400);
- arddangos crynodeb byr o'r cais ar hysbysiad o faint A4 ar y fangre neu'r tu allan i'r fangre (£5-£10, er y byddai hyn yn cynyddu yn achos mangreoedd mwy y mae'n rhaid iddynt arddangos mwy nag un hysbysiad).

[4] Ar sail 1-5 awr o amser rheoli ar gost yr awr o £16.23 (amcangyfrifwyd o drafodaethau gyda rhanddeiliaid).

Amcangyfrifir bod cost amrywiad ar gyfartaledd (yn cynnwys ffioedd, sy'n cael eu codi ar yr un sail â chais am drwydded llawn sydd ar gyfartaledd yn £225 i bob mangre) tua **£610.** Amcangyfrifir bod cost amrywiad ar gyfartaledd ac eithrio ffioedd tua **£385.**

Fodd bynnag, fe all y costau ychwanegol canlynol fod yn gymwys ar gyfer rhai amrywiadau:

- cyflwyno cynllun diwygiedig o'r fangre (lle gwneid cais a newidiadau i osodiad y fangre) - £25-£500 (e.e. os oes angen darlun proffesiynol o'r cynllun)
- cael cymorth cyfreithiol proffesiynol - £100-£500 (er mewn nifer bach o achosion, fe allai'r ffioedd cyfreithiol fod mor uchel â £1500).

Os ychwanegir y costau hyn, byddai cyfartaledd cost amrywiad yn codi i £950 (ac eithrio ffioedd) neu £1170 (yn cynnwys ffioedd).

Felly mae'r ystod o gostau posib ar gyfer amrywiad (ac eithrio ffioedd) rhwng **£385 - £950**.

Ar sail tua 6000 o geisiadau amrywiad y flwyddyn sy'n debygol o gael eu dal gan broses mân amrywiadau, ar gost gweinyddol sylfaenol o £385 i bob cais, byddai hyn yn arwain at faich ariannol blynyddol o tua **£2.1m**. Dylid nodi bod pob baich blynyddol yn yr Asesiad Effaith yma wedi cael eu talgrynnu i'r £0.1m agosaf.

Mae cynlluniau diwygiedig yn ofynnol yn unig ar gyfer amrywiadau sy'n cynnwys newidiadau i osodiad. Mae rhanddeiliaid yn amcangyfrif bod tua 70% o'r 54000 o amrywiadau sy'n debygol o gael eu dynodi fel 'mân' o dan y broses newydd (3780) yn dod o fewn y categori yma ac felly yn wynebu'r costau ychwanegol hyn. Ar gyfartaledd cost o £263 ar gyfer cynllun diwygiedig, mae hyn yn arwain at faich blynyddol o tua **£1.0m**.

Yn yr un modd, ni fydd pob ymgeisydd yn chwilio am gymorth cyfreithiol i gwblhau cais am amrywiad. Mae trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn ein harwain i amcangyfrif bod tua hanner (2700) o bob 'mân' amrywiad yn wynebu ffioedd cyfreithiol ar gyfartaledd cost o £300 fesul cais, gan arwain at faich ariannol blynyddol ychwanegol o **£0.8m** i'r ymgeiswyr hyn.

Felly mae ystod y baich cost blynyddol ar gyfer amrywiadau (ac eithrio ffioedd), ond yn cynnwys cost y cynlluniau diwygiedig a ffioedd cyfreithiol fel uchod ar gyfer rhai ymgeiswyr, yn **£2.1m-£3.9m**[5].

Arbedion cost proses mân amrywiadau

<u>Costau gweinyddol</u>

O dan gynnig y Llywodraeth ar gyfer proses mân amrywiadau fe fyddai yno arbedion cost llawn mewn perthynas â'r canlynol:

- copïo pob dogfen at hyd at naw awdurdod cyfrifol (£20-£40);
- hysbysu'r newid arfaethedig mewn papur newydd/cylchlythyr lleol (£200-£400);
- arddangos crynodeb byr o'r cais ar hysbysiad o faint A4 ar y fangre neu'r tu allan i'r fangre (£5-£10)

Ar gyfartaledd o £338 fesul cais, ac eithrio ffioedd, ardraws pob un o'r 5400 o fân amrywiadau byddai hyn yn cyflenwi arbediad cost blynyddol o **£1.8m**.

O dan y broses mân amrywiadau, byddai'n ofynnol o hyd i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais a'i hanfon at yr awdurdod trwyddedu perthnasol, gyda chopi o'r drwydded neu'r dystysgrif, y cynllun gwreiddiol a'r cynllun diwygiedig, os yw hynny'n briodol). Fodd bynnag, gan ragdybio y bydd y ffurflen gais yn fyrrach a symlach, mae hyn yn debygol o gymryd llai o amser na chais am amrywiad llawn. Os rhagdybir lleihad cyffredinol mewn amser rheoli er mwyn cwblhau'r broses o 0-3 awr ar gyfartaledd fesul; cais ar amcangyfrif cost o £16.23 yr awr byddai'r arbediad cost ar gyfartaledd yn £24. Gan y bydd yr arbediad cost ar gyfartaledd yma yn berthnasol ar draws pob un o'r 5400 o amrywiadau bydd yr amcangyfrif arbediad cost blynyddol yn **£0.1m.**

[5] Efallai na fydd y ffigurau yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Mae hyn yn golygu y byddai'r amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion cost blynyddol sy'n berthnasol i'r holl geisiadau, yn **£2.0m**[6].

Costau cyfreithiol

Mae'n bosib y byddai ymgeisydd sy'n ceisio cymorth cyfreithiol i wneud cais am amrywiad cymharol syml yn dal i ddewis gwneud hynny ar gyfer cais am fân amrywiad, hyd yn oed gyda ffurflen symlach, gan leihau'r arbedion posib. Os amcangyfrifir na fyddai tua hanner y 2700 o fân amrywiadau (1350) sydd ar hyn o bryd yn cynnwys ffioedd cyfreithiol yn gwneud hynny mwyach, fe fyddai hynny'n arwain at arbediad cost o £300/cais a chyfanswm arbediad cost o **£0.4m**.

Byddai'r 1350 o fân amrywiadau sy'n weddill yn dal i wynebu costau cyfreithiol. Fodd bynnag, byddai graddfa unrhyw ffioedd cyfreithiol yn adlewyrchu cymhlethdod y broses o wneud cais ac o'r herwydd dylai'r system fân amrywiadau mwy syml leihau costau. Rydym yn amcangyfrif y bydau costau cyfreithiol ar gyfer mân amrywiadau oddeutu £100-£300, gyda chyfartaledd o £200, sy'n golygu arbediad cost ar gyfartaledd ar gyfer pob cais sy'n cynnwys cymorth cyfreithiol o £100, ac arbediad cost blynyddol o tua **£0.1m**.

Felly cyfanswm yr arbedion cost blynyddol fyddai **£0.5m**.

Mae hyn yn rhoi ystod arbedion cost blynyddol posib o **£1.9m-£2.5m**.

Efallai y bydd ymgeiswyr hefyd yn elwa o'r amserlen fyrrach sydd ei hangen i gael caniatâd ar gyfer mân amrywiad, ond byddai hyn yn dibynnu ar natur yr amrywiad ac mae'n amhosib ei fesur.

[6] Efallai na fydd y ffigurau yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Profion Effeithiau Penodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos pa mor eang yr ystyriwch y bydd effeithiau potensial eich dewisiadau polisi.

Sicrhewch fod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar ddadansoddiad cost a budd yn cael eu cynnwys o fewn y brif sail tystiolaeth; gellir ychwanegu canlyniadau eraill.

Math o brofi a wnaed	***Canlyniadau yn y Sail Tystiolaeth?***	***Canlyniadau wedi'u hychwanegu?***
Asesiad Cystadleuaeth	Nac ydynt	Ydynt
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach	Nac ydynt	Ydynt
Cymorth Cyfreithiol	Nac ydynt	Nac ydynt
Datblygu Cynaliadwy	Nac ydynt	Nac ydynt
Asesiad Carbon	Nac ydynt	Nac ydynt
Amgylcheddol Arall	Nac ydynt	Nac ydynt
Asesiad Effaith ar Iechyd	Nac ydynt	Ydynt
Cydraddoldeb Hiliol	Nac ydynt	Ydynt
Cydraddoldeb i Bobl Anabl	Nac ydynt	Ydynt
Cydraddoldeb Rhywiol	Nac ydynt	Ydynt
Hawliau Dynol	Nac ydynt	Nac ydynt
Profi Gwledig	Nac ydynt	Ydynt

Atodiadau

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb – Sgrinio Cychwynnol

Adran	Nodiadau
1. Enw'r swyddogaeth/polisi i gael ei asesu: **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio arfaethedig i ddarparu ar gyfer proses 'mân' amrywiadau newydd i ganiatáu ymgeiswyr i wneud newidiadau bach i drwyddedau a thystysgrifau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 trwy broses cost isel a syml.**	
2. Beth yw nod, amcan neu ddiben y polisi? **Yr amcan polisi yw addasu Deddf Trwyddedu 2003 er mwyn cyflwyno proses llwybr cyflym symlach ar gyfer gwneud newidiadau bach, risg isel i drwyddedau.** **Yr effaith a fwriedir yw gostyngiad sylweddol yn y baich gweinyddol cyfredol ar ddeiliaid trwydded, a chynnydd yn y nifer o ymgeiswyr sy'n cyflwyno newidiadau bach i drwyddedau i'r awdurdod trwyddedu. Fe ddylai hyn sicrhau bod gan awdurdodau trwyddedu (ac awdurdodau eraill) gofnodion diweddar o fangreoedd er mwyn llywio eu strategaethau gorfodi.**	
3. Beth yw'r canlyniadau a fwriedir? **Addasiad i Ddeddf Trwyddedu sy'n darparu mecanwaith symlach ar gost is ar gyfer gwneud newidiadau bach i drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb.** **Diwygiad i'r Arweiniad statudol i awdurdodau trwyddedu er mwyn adlewyrchu'r broses reoleiddio newydd yma.**	*Ystyriwch:* • *Sut fyddwch chi'n monitro cynnydd tuag at y canlyniadau hyn?* • *A yw'r canlyniadau'n cefnogi neu'n llesteirio polisïau, gwerthoedd neu amcanion eraill o fewn yr Adran?* • *Os ydynt yn llesteirio gwaith arall a ellir cyfiawnhau hyn?*
4. Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol? **Rhai sy'n cynrychioli deiliaid trwydded mangre (yn cynnwys tafarndai, clybiau nos, gwestai, archfarchnadoedd, siopau hwylus, theatrau, sinemâu, lleoliadau cerddoriaeth byw, siopau pryd ar y stryd, tai bwyta a neuaddau pentref) a deiliaid tystysgrif mangre clwb (yn cynnwys clybiau chwaraeon, clybiau gweithwyr a chlybiau gwleidyddol), yr awdurdodau trwyddedu fel gweinyddwyr y gyfundrefn, rhai sy'n ymwneud â gweithgaredd gorfodi megis yr heddlu ac awdurdodau cyfrifol eraill, ac eraill sydd â budd yn effaith y cynigion ar yr amcanion trwyddedu megis trigolion.**	• *Pwy yw'r grwpiau/unigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y swyddogaeth neu bolisi?* • *Pwy arall allai fod â budd sylweddol yng ngweithredu'r polisi hwn?* • *Pwy arall allai fod â gwybodaeth am effaith neu effaith bosibl y polisi neu swyddogaeth*
5. A yw nod y polisi neu unrhyw un o'i ganlyniadau a fwriedir wedi eu cynllunio'n benodol i gyflawni'r Dyletswyddau Cyhoeddus, er enghraifft: ➢ Dileu gwahaniaethu? ➢ Hyrwyddo Cyfle Cyfartal?	• *Er enghraifft, polisi sydd â'r nod o atal aflonyddu a bwlio* • *Os mai'r ateb yw **YDYNT** i unrhyw un o'r cwestiynau, yna fe fydd gofyn ichi fynd*

➢ Hyrwyddo perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau **Na** [*Ni fydd y mwyafrif o swyddogaethau, polisïau ac arferion wedi cael eu cynllunio'n **benodol** i gyflawni'r Dyletswyddau Cyhoeddus. Nid oes ond angen ichi ateb **'ydynt'** os mai **bwriad penodol** y swyddogaeth, polisi neu arfer yw cyflawni'r dyletswyddau cyhoeddus. Fel arall, symudwch ymlaen i adran 6]*	*ymlaen i asesiad effaith llawn. Dylech droi at adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 7-12 yn eich helpu chi i gynnal asesiad llawn*

6. A yw'r swyddogaeth neu bolisi'n ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd neu â staff a gyflogir gan yr adran, neu'n effeithio arnynt? **Ydyw**	• *Os mai'r ateb yw **YDYW** ewch ymlaen i adran 7* • *Os mai'r ateb yw **NA** rhestrwch y dystiolaeth neu'r cyfiawnhad arall gyferbyn neu arall daflen amgaeedig sy'n dangos pam na fydd y polisi'n effeithio ar aelodau o'r cyhoedd neu ar staff a gyflogir gan yr Adran* • *Os yw'r dystiolaeth sydd gennych yn dangos nad oes unrhyw effaith nac effaith debygol ni fydd angen ichi gynnal asesiad effaith ond fe fydd angen ichi fonitro gweithredu'r polisi dros amser er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i beidio â chael unrhyw effaith ar bobl. Fel isafswm, dylai hyn fod bob tair blynedd* • *Os ydych yn sicr mai'r ateb yw **NA**, ewch ymlaen i adrannau 13 a 14*
7. A oes unrhyw dystiolaeth sy'n dweud wrthych sut mae'r swyddogaeth neu bolisi'n gweithio neu sut y bwriedir iddo weithio dros y rhanddeiliaid arfaethedig? **Oes** **Mae ymateb gan amrediad o randdeiliaid yn awgrymu bod yno faich diangen ar hyn o bryd ar y rhai hynny sy'n dymuno gwneud newidiadau bach i'w trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, nad yw'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar yr amcanion trwyddedu. Bwriadwyd y cynigion i leihau'r baich sy'n gysylltiedig â chyflwyno cais o'r fath gan gadw'r amcanion trwyddedu ar yr un pryd fel yr amddiffyniad allweddol a adeiladwyd yn rhan o'r system.**	• *Os nad oes gennych ddim tystiolaeth ar gael, **yna ni fyddwch yn gallu asesu a yw'r polisi'n berthnasol i gydraddoldeb*** • *Fe fydd angen ichi gasglu tystiolaeth ynghylch effeithiau'r polisi ar randdeiliaid. (Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at adran 2 o'r nodiadau arweiniad ar gasglu tystiolaeth)* • *Dylech hefyd ystyried ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid a chynnwys pobl anabl ar y cam hwn (Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at adran 5 ar ymgynghori a chynnwys)* • *Pan fyddwch chi wedi casglu tystiolaeth o effeithiau'r polisi ar y rhanddeiliaid arfaethedig,*

	gellwch wedyn symud ymlaen gyda'r sgrinio cychwynnol • *Dylech sicrhau bod y camau angenrheidiol ar gyfer casglu'r dystiolaeth yn cael eu nodi mewn cynllun gweithredu*
1. O'r dystiolaeth sydd ar gael, a oes unrhyw reswm dros gredu fod pobl yn cael eu heffeithio'n wahanol neu'n debygol o gael eu heffeithio'n wahanol yn ôl unrhyw un o'r meysydd cydraddoldeb a restrir, er enghraifft, oherwydd bod ganddynt wahanol anghenion neu flaenoriaethau? Oedran: X Anabledd: X Rhyw: X Hil: X Crefydd neu Gred: X Tueddfryd Rhywiol: X Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael **Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd y newid rheoleiddio arfaethedig yn debygol o effeithio'n wahanol ar unrhyw un o'r llinynnau cydraddoldeb uchod**	• *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 9-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn* • *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 9* • *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

2. A oes unrhyw dystiolaeth fod y swyddogaeth neu bolisi mewn unrhyw fodd yn gwahaniaethu, neu'n gallu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl o unrhyw un o'r meysydd a restrir, er enghraifft o ran y gallu i gael at wasanaeth neu fanteisio ar gyfle? Oedran: X Anabledd: X Rhyw: X Hil: X Crefydd neu Gred: X Tueddfryd Rhywiol: X Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael **Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd y newid rheoleiddio arfaethedig yn gwahaniaethu yn erbyn y bobl yn y llinynnau a restrwyd.**	• *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 10-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn* • *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 10* • *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

3. A oes unrhyw dystiolaeth fod gan bobl o'r grwpiau a gynhwysir o fewn y meysydd a restrir, neu y gall fod ganddynt, wahanol ddisgwyliadau o'r swyddogaeth neu bolisi o dan sylw?

	Oes	Nac oes	Anhysbys
Oedran		X	
Anabledd		X	
Rhyw		X	
Hil		X	
Crefydd neu Gred		X	
Tueddfryd Rhywiol		X	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd gan unrhyw un o'r grwpiau uchod ddisgwyliadau gwahanol yn dilyn y newid rheoleiddio arfaethedig.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 11-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 11*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

4. A oes unrhyw dystiolaeth fod y swyddogaeth neu'r polisi'n effeithio neu y gallai effeithio ar y berthynas rhwng grwpiau a gynhwysir yn y meysydd cydraddoldeb, er enghraifft, a yw neu a allai gael ei weld fel petai'n ffafrio unrhyw grwp neilltuol neu'n gwadu cyfleoedd i un arall?

	Oes	Nac oes	Anhysbys
Oedran		X	
Anabledd		X	
Rhyw		X	
Hil		X	
Crefydd neu Gred		X	
Tueddfryd Rhywiol		X	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd y newid rheoleiddio arfaethedig yn ffafrio grwp arbennig neu yn amddifadu grwp arall o unrhyw gyfleoedd.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adran 12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 12*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

5. A yw ymgynghoriadau blaenorol gyda grwpiau rhanddeiliaid neu unigolion perthnasol yn awgrymu bod polisïau o'r math hwn yn creu allgau neu'n peri sialensiau penodol i unrhyw un o'r grwpiau a restrir?

	Oes	Nac oes	Anhysbys
Oedran		X	

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13*

Anabledd		X	
Rhyw		X	
Hil		X	
Crefydd neu Gred		X	
Tueddfryd Rhywiol		X	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd y polisi hwn yn creu eithriadau neu'r creu sialensiau penodol i unrhyw un o'r grwpiau a restrwyd.

- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 13*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

13. A oes angen asesiad effaith llawn?

Na

Ni chredwn y bydd y newid rheoliadol arfaethedig yn effeithio mewn ffordd wahanol ar unrhyw un o'r grwpiau o dan y meysydd a restrir.

- *Os mai'r ateb yw **NA** defnyddiwch y gofod gyferbyn i grynhoi pam ac amgaewch unrhyw dystiolaeth gefnogol bellach*
- *Os mai'r ateb yw **OES** fe fydd angen ichi drefnu i gynnal asesiad effaith llawn*
- *Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr wybodaeth yr ydych eisoes wedi ei nodi yn y sgrinio cychwynnol hwn yn werthfawr ichi wrth gynnal yr asesiad effaith llawn*

14. Os nad oes angen asesiad effaith llawn, nodwch os gwelwch yn dda y cynlluniau i fonitro gweithredu'r polisi hwn dros y tair blynedd nesaf.

Fe fyddwn ni'n gwirio gyda rhanddeiliaid allweddol a yw'r datganiad yn adran 13 yn dal yn wir 12 mis ar ôl deddfiad (yn amodol ar y Senedd) y newid rheoliadol.

15. Dychwelwch gopi o'r ffurflen hon os gwelwch yn dda at:

Enw: **Amanda Stevens**

Uned/ Cyfarwyddiaeth: **Tîm Trwyddedu / Cyfarwyddiaeth Diwydiant**

Dyddiad:**04/08/2008**

Asesiad Cystadleuaeth

Nid ydym o'r farn bod y polisi arfaethedig yn debygol o godi unrhyw bryderon cystadleuaeth. Mater i fangre neu glwb fydd penderfynu gwneud cais am fân amrywiad neu beidio ac ni fyddai yno gyfyngiad i fath arbennig o fangre neu glwb, felly i'r graddau hynny mae'r cynigion yr un mor berthnasol i bob mangre. Felly, ni fydd yn cyfyngu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y nifer neu'r ystod o gyflenwyr, cyfyngu ar allu'r cyflenwyr i gystadlu neu leihau cymhelliant cyflenwyr i gystadlu'n egniol.

Prawf effaith cwmnïau bach

Gan y bydd y cynigion hyn yn cael effaith cydradd ar bob mangre, trwy newid y mecanwaith o wneud mân amrywiad yn unig, nid ydym o'r farn y bydd yno effaith tebygol ar fusnesau bach. Lle mae'r cynigion hyn yn effeithio ar fusnesau bach, yr effaith fydd lleihau'r baich a chaniatáu mwy o hyblygrwydd mewn gweithrediad busnes. Mae'r grwp rhanddeiliaid a sefydlwyd i'n cynghori ar y cynigion hyn yn cynnwys amrediad eang o gyrff sy'n cynrychioli busnesau bach, yn cynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymdeithas Siopau Hwylus, Cymdeithas Arddangoswyr Sinema, Consortiwm Adwerthu Prydain, Busnes mewn Hamdden a Chwaraeon, Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain, Undeb y Cerddorion, y Gymdeithas Adloniant Bar a Dawns, a Phwyllgor Cymdeithasau Clybiau Cofrestredig. Ni wnaeth yr un o'r grwpiau hyn ein cynghori ynghylch unrhyw effaith niweidiol yn sgil y cynigion hyn ar fusnesau bach.

Profi Gwledig

Mae Action with Communities in Rural England (ACRE) yn aelod o'n grwp rhanddeiliaid ac nid yw wedi codi unrhyw bryderon ynghylch effaith y cynigion hyn ar gymunedau gwledig.

Sgrinio Asesiad Effaith Iechyd

Rydym wedi cynnal proses sgrinio i benderfynu a oes angen asesiad effaith iechyd llawn ar y polisi hwn. Mae'r cynnig ond yn newid y broses o ganiatáu amrywiad yn achos rhai amrywiadau risg na fyddan tyn effeithio ar yr amcanion trwyddedu (sy'n cynnwys atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus) a fyddai fel arall yn cael eu caniatáu heb unrhyw anhawster. Gan nad yw fel arall yn newid unrhyw elfen arall o'r polisi trwyddedu, nid ydym o'r farn bod angen asesiad effaith iechyd.

Rydym o'r farn na fydd gan y polisi:

- **effaith sylweddol ar iechyd dynol yn rhinwedd ei effeithiau ar y penderfynyddion iechyd ehangach canlynol :** Incwm, Troseddu, yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Tai, Addysg, Cyflogaeth, Amaethyddiaeth neu gydlynedd Cymdeithasol.
- **effaith sylweddol ar unrhyw un o'r newidynnau canlynol sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw:** Gweithgaredd corfforol, Deiet, Ysmygu, cyffuriau, neu ddefnydd o alcohol, Ymddygiad rhywiol, Damweiniau a straen yn y cartref neu yn y gwaith.
- **galw sylweddol am unrhyw un o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol canlynol:** Gofal sylfaenol, Gwasanaethau cymunedol, Gofal ysbyty, Angen am feddyginiaeth, presenoldeb mewn damwain neu argyfwng, Gwasanaethau Cymdeithasol , ymateb parod ac amddiffyn iechyd.

CWESTIWN 7: A ydych yn cytuno gyda'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith yma? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, rhowch eich rhesymau a nodwch gostau amgen.

Adran 3: GORCHYMYN DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL: CYNNIG I DYNNU'R GOFYNIAD AM ORUCHWYLIWR DYNODEDIG MANGRE A THRWYDDED BERSONOL AR GYFER MANGRE GYMUNEDOL

Pennod 1: Tynnu GDM – Rhagarweiniad a Phwrpase

1.1 Dyma ail gam yr ymgynghoriad ynghylch cyflwyno proses newydd i ganiatáu mangreoedd cymunedol sy'n cynnwys neuaddau pentref, neuaddau eglwys, neuaddau capel ac adeiladau cymunedol tebyg, i geisio datgymhwyso amodau trwydded gorfodol sy'n gofyn am y canlynol:

a) bod goruchwyliwr dynodedig mangre yn cael ei nodi ar bob trwydded mangre i awdurdodi gwerthiant alcohol; a

b) bod pob gwerthiant alcohol mewn mangre felly'n cael ei awdurdodi gan ddeiliad trwydded bersonol,

1.2 Yn y cam cyntaf, a gynhaliwyd rhwng 8 Awst 2007 a 31 Hydref 2008, gofynnwyd i ymatebwyr roi eu barn ar y pedwar dewis polisi:

Dewis 1: (a) Datgymhwyso'r ddau amod gorfodol (sy'n ofynnol gan adran 19 Deddf Trwyddedu 2003 ar hyn o bryd) yn ymwneud â deiliaid trwydded bersonol a goruchwylwyr dynodedig mangre mewn perthynas â thrwyddedau mangre sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol mewn neuaddau pentref, neuaddau eglwys, neuaddau capel a mangreoedd tebyg. (b) Rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodi pob gwerthiant alcohol yn y fangre i ddeiliad y drwydded mangre. (c) Peidio â chaniatáu gosod amodau felly ar y drwydded mangre dan unrhyw amgylchiadau.

Dewis 2: (a) Datgymhwyso'r ddau amod gorfodol (sy'n ofynnol gan adran 19 Deddf Trwyddedu 2003 ar hyn o bryd) yn ymwneud â deiliaid trwydded bersonol a goruchwylwyr dynodedig mangre mewn perthynas â thrwyddedau mangre sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol mewn neuaddau pentref, neuaddau eglwys, neuaddau capel a mangreoedd tebyg. (b) Rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodi pob gwerthiant alcohol yn y fangre i ddeiliad y drwydded mangre. (c) Yn dilyn unrhyw adolygiad gan yr awdurdod trwyddedu o drwydded mangre felly am resymau'n ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu, rhoi'r doethineb i'r awdurdod trwyddedu osod amodau sy'n debyg i'r rheiny yn adran 19 Deddf 2003 lle bo angen er mwyn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

Dewis 3: (a) Caniatáu i ddeiliaid trwydded mangre perthnasol (neu ddarpar ddeiliaid trwydded mangre) i wneud cais i ddatgymhwyso'r ddau amod gorfodol (sy'n ofynnol gan adran 19 Deddf Trwyddedu 2003 ar hyn o bryd) yn ymwneud â deiliaid trwydded bersonol a goruchwylwyr dynodedig mangre mewn perthynas â thrwyddedau mangre sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol mewn neuaddau pentref, neuaddau eglwys, neuaddau capel a mangreoedd tebyg. (b) Lle caiff cais ei ganiatáu, rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodi pob gwerthiant alcohol yn y fangre i ddeiliad y drwydded mangre. (c) Yn dilyn unrhyw adolygiad gan yr awdurdod trwyddedu o drwydded mangre felly am resymau'n ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu, rhoi'r doethineb i'r awdurdod trwyddedu osod amodau sy'n debyg i'r rheiny yn adran 19 Deddf 2003 lle bo angen er mwyn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.*

Dewis 4: Dim newid.

1.3. Roedd y Llywodraeth yn argymell Dewis 3 ar y sail y byddai'n tynnu rhwystr sylweddol i fangre gymunedol sicrhau trwydded i gynnwys eu gweithgareddau'n llawn, tra'n cadw lefel digonol o ddiogelwch y cyhoedd mewn perthynas â gwerthu alcohol mewn mangre o'r fath.

1.4 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â chynnig y Llywodraeth i ganiatáu tynnu gofynion deiliad trwydded bersonol a GDM ar gyfer mangre gymunedol ac roedd y mwyafrif o'r rhai a fynegodd farn ar sut i wneud hyn yn cefnogi'r dewis sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth, sef dewis 3.

1.5 Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad hefyd yn cefnogi'r canlynol:

- diffiniad y Llywodraeth o'r mangreoedd cymunedol hynny i'w cynnwys yn y cynigion ac mai mater i'r awdurdodau trwyddedu fyddai penderfynu cynnwys mangre unigol ai peidio;
- bod y cynnig yn cynnwys mangre â rheolaeth ffurfiol neu bwyllgor gweithredol yn unig ac mai mater i awdurdodau trwyddedu fyddai penderfynu ar hyn, a
- bod dewis 3 yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a buddiannau'r rhai sy'n cael eu heffeithion niweidiol gan y cynnig ac nad yw'n tynnu diogelwch y cyhoedd yn ddiangen.

1.6. Wrth ystyried yn fanwl sut i weithredu'r newidiadau, daeth yn amlwg na fyddai, fel y bwriadwyd, defnyddio'r newid presennol yn y ffurflen GDM ar gyfer y mangreoedd cymunedol hynny oedd eisoes yn meddu ar drwydded sy'n caniatáu gwerthu alcohol. Felly bu'n ofynnol cynllunio ffurflen newydd i'w rhagnodi trwy ddeddfwriaeth eilaidd berthnasol.

1.7 Cyhoeddwyd crynodeb llawn o'r ymatebion i gam gyntaf yr ymgynghoriad, ynghyd â chopïau o ymatebion unigol ar wefan DCMS ar 23 Ionawr a gellir eu gweld trwy ddilyn y cyswllt canlynol: http://www.culture.gov.uk/reference_library/consultations/1158.aspx

Cynnig Cyfredol

1.8. Mae ail ran yr ymgynghoriad yma yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

- y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft a fydd yn diwygio'r Ddeddf Trwyddedu i ganiatáu mangre gymunedol i geisio datgymhwyso'r amodau gorfodol mewn perthynas â deiliaid trwydded bersonol a GDM. (Adran 3, Pennod 2)
- canllawiau statudol drafft a fydd yn ategu a disodli'n rhannol y Canllawiau statudol presennol ar Amrywiadau (Adran 3, Pennod 3);

- ffi briodol i'w thalu gan ymgeiswyr i adennill costau llawn gweinyddu'r broses ddatgymhwyso lle nad yw hynny'n rhan o wneud cais am drwydded mangre newydd neu amrywio trwydded mangre bresennol i Awdurdodau Trwyddedu (Adran 3, Pennod 4);
- ffurflen gais ddrafft rhagnodedig ar gyfer datgymhwyso'r amodau gorfodol (Adran 3, Pennod 5).

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau oedd yn amau'r asesiad effaith drafft a ffurfiodd ran o'r ymgynghoriad. Gan fod yr asesiad effaith terfynol yn ailadrodd yr asesiad cychwynnol ar gyfer y dewis sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth, nid yw hyn yn destun ymgynghori pellach, er bod yr asesiad effaith terfynol ynghlwm er gwybodaeth (Adran 3, Pennod 6).

1.9 Os ydych am ymateb i'r ymgynghoriad yma, llenwch Holiadur 2 yn Atodiad 1. Rhoddir manylion ynghylch sut i ymateb yn Adran 1 y Ddogfen Ymgynghorol yma.

Pennod 2: Tynnu GDM - Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol Drafft

Gorchymyn Drafft a gyflwynir gerbron y Senedd o dan adran 14(1) y Ddeddf Diwygio Rheoleiddiol a Deddfwriaethol 2006.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L D R A F F T

2008 Rhif. XXXX

DIWYGIO RHEOLEIDDIO

TRWYDDEDAU A THRWYDDEDU

Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Goruchwylio Gwerthu Alcohol mewn Neuaddau Eglwys a Phentref &c.) 2008

Gwnaed - - - -	*2008*
Daw i rym - -	*2008*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth ymarfer pwerau a roddwyd gan adran 1 Deddf Diwygio Rheoleiddiol a Deddfwriaethol 2006([7]) ("y Ddeddf").

Mae o'r farn bod yr amodau y cyfeirir atynt yn adran 3(2) y Ddeddf , lle mae hynny'n berthnasol, wedi'u bodloni mewn perthynas â phob darpariaeth a wnaed yn y Gorchymyn.

Mae wedi ymgynghori yn unol ag adran 13(1) y Ddeddf.

Mae wedi gosod drafft o'r Gorchymyn a dogfen eglurhaol gerbron y Senedd yn unol ag adran 14(1) y Ddeddf.

Yn unol ag adran 15 y Ddeddf, mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol (o fewn ystyr Rhan 1 y Ddeddf) yn gymwys mewn perthynas â'r Gorchymyn.

Enwi, cychwyn a graddfa

4.—(1) Gellir enwi'r Gorchymyn hwn fel Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Goruchwylio Gwerthu Alcohol mewn Neuaddau Eglwys a Phentref &c.) 2008 a daw'n weithredol ar xx Hydref 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig.

5. Bydd Deddf Trwyddedu 2003( ) yn cael ei diwygio fel nodwyd yn rheoliadau 3 i 6.

Cais am drwydded parthed mangre gymunedol: goruchwylio gwerthu alcohol

6. Ar ôl adran 25, noder—

([7]) 2006 c. 51.

“25A Caniatáu trwydded mangre: cyflenwi alcohol o fangre gymunedol

(1) Lle mae pwyllgor rheoli mangre gymunedol yn gwneud cais o dan adran 17 am drwydded mangre sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol, fe all y cais gynnwys cais i gynnwys yr amod trwydded amgen yn y drwydded yn hytrach na'r amodau yn adran 19(2) a (3).

(2) Yn yr adran hon “yr amod trwydded amgen” yw'r amod bod gofyn i'r pwyllgor rheoli awdurdodi neu wneud yr holl gyflenwi alcohol o dan y drwydded mangre.

(3) Mewn achos lle mae cais a wneir o dan adran 17 yn cynnwys cais o dan isadran (1), bydd adrannau 17 i 19 yn cael eu haddasu fel a ganlyn.

(4) Mae Adran 17 yn weithredol fel pe bai isadrannau (3)(c) a (4)(e) wedi eu hepgor.

(5) Mae Adran 18 yn weithredol fel pe bai —

(a) isadran (4)(c) wedi ei hepgor;

(b) yn isadran (6)(c), bod y cyfeiriad ynghylch pwy yw'r unigolyn a enwir yn y cais fel y goruchwyliwr mangre arfaethedig at gynnwys yr amod trwydded amgen;

(c) yn isadran (9)(b), bod y cyfeiriad ynghylch dynodi’r unigolyn dan sylw fel goruchwyliwr mangre o dan y drwydded mangre at gynnwys yr amod trwydded amgen.

(6) Mae Adran 19 yn weithredol fel pe bai'r canlynol wedi’i gynnwys ar y diwedd-

“(4) Ond lle—

(a) bodlonir yr awdurdod trwyddedu perthnasol bod y trefniadau ar gyfer rheoli’r fangre gan yr ymgeisydd yn ddigonol i sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o'r cyflenwi alcohol ar y fangre, ac

(b) os gwneir unrhyw gyflwyniadau yn unol ag adran 18(6)(c), nad yw'r awdurdod yn ystyried bod angen cynnwys yr amodau yn isadrannau (2) a (3) i hyrwyddo’r amcan atal troseddu,

ni ddylai’r drwydded gynnwys yr amodau yn isadrannau (2) a (3) ond mae’n rhaid cynnwys yr amod trwydded amgen y cyfeirir ati yn adran 25A(2) yn eu lle.”.”

Amrywio trwydded parthed mangre gymunedol: goruchwylio gwerthu alcohol

7. Ar ôl adran 41C (adrannau 41A i 41C i'w mewnosod gan y gorchymyn mân amrywiadau) noder—

“**41D Amrywio trwydded mangre: cyflenwi alcohol o fangre gymunedol**

(1) Lle mae pwyllgor rheoli sy’n dal trwydded mangre parthed mangre gymunedol yn gwneud cais o dan adran 34 i amrywio'r drwydded er mwyn awdurdodi cyflenwi alcohol, fe all y cais gynnwys cais am yr amod trwydded amgen i’w chynnwys yn y drwydded yn hytrach na'r amodau yn adran 19(2) a (3).

(2) Fe all pwyllgor rheoli sy'n dal trwydded mangre parthed mangre gymunedol sy'n cynnwys yr amodau yn adran 19(2) a (3) wneud cais o dan adran 34 i (neu sy'n cynnwys cais i) amrywio’r drwydded i gynnwys yr amod trwydded amgen yn hytrach na'r amodau hynny.

(3) Yn yr adran hon “yr amod trwydded amgen” yw'r amod bod gofyn i'r pwyllgor rheoli awdurdodi neu wneud yr holl gyflenwi alcohol o dan y drwydded mangre.

(4) Mewn achos lle mae cais o dan adran 34 yn cynnwys cais o dan isadran (1), neu’n cael ei wneud yn unol ag isadran (2), bydd adran 19 (fel y mae'n gymwys yn rhinwedd adran 35(7)) ac adran 35 yn cael eu haddasu fel a ganlyn.

(5) Mae Adran 19 yn weithredol fel pe bai'r canlynol wedi’i gynnwys ar y diwedd—

“(4) Ond lle—

(a) bodlonir yr awdurdod trwyddedu perthnasol bod y trefniadau ar gyfer rheoli’r fangre gan yr ymgeisydd yn ddigonol i sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o'r cyflenwi alcohol ar y fangre, ac

(b) os gwneir unrhyw gyflwyniadau yn unol ag adran 35(5)(aa), nad yw'r awdurdod yn ystyried bod angen cynnwys yr amodau yn isadrannau (2) a (3) i hyrwyddo’r amcan atal troseddu,

ni ddylai’r drwydded gynnwys yr amodau yn isadrannau (2) a (3) ond mae’n rhaid cynnwys yr amod trwydded amgen y cyfeirir ati yn adran 41D(3) yn eu lle.”.

(6) Mae Adran 35 yn weithredol fel pe bai'r canlynol wedi’u mewnosod ar ôl isadran (5)(a)-

“(aa) os ydynt yn berthnasol i gynnwys yr amod trwydded amgen—

(i) wedi’i wneud gan y prif swyddog heddlu mewn ardal heddlu lle lleolir y fangre, ac yn

(ii) cynnwys datganiad i'r perwyl, oherwydd amgylchiadau eithriadol yr achos, mae wedi’i fodloni y byddai cynnwys yr amod trwydded amgen y cyfeirir ati yn adran 41D(3) yn hytrach na'r amodau yn adran 19(2) a (3) yn tanseilio’r amcan atal troseddu, ac”.”

Adolygu trwydded parthed mangre gymunedol: goruchwylio gwerthu alcohol

8. Ar ôl adran 52 noder—

"**52A Adolygiad: cyflenwi alcohol o fangre gymunedol**

(1) Mewn achos lle gwneir cais o dan adran 51 am adolygiad trwydded mangre —

(a) a ddelir gan bwyllgor rheoli mewn perthynas â mangre gymunedol, ac

(b) sydd yn cynnwys yr amod trwydded amgen,

yna bydd adran 52 yn cael ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Mae isadran (4) yn weithredol fel pe bai paragraff (c) wedi'i hepgor.

(3) Mae isadran (5) yn weithredol fel pe bai'r isod yn disodli'r isadran honno—

"(5) Mae isadran (3) yn ddarostyngedig -

(a) i'r gofyniad bod yn rhaid i'r drwydded gynnwys—

(i) yr amodau yn adran 19(2) a (3), neu

(ii) yr amod trwydded amgen y cyfeirir ati yn adran 52A(4)

(ond nid y ddau), ac

(b) i adrannau 20 a 21 (gofyniad i gynnwys amodau penodol mewn trwyddedau mangre)."

(4) Yn yr adran hon "yr amod trwydded amgen" yw'r amod bod gofyn i'r pwyllgor rheoli awdurdodi neu wneud yr holl gyflenwi alcohol o dan y drwydded mangre.

Diwygiadau amrywiol

9.—(1) Yn adran 193—

(a) ar ôl y diffiniad o "seidr" mewnosodir—

""mae mangre gymunedol" yn golygu mangre sydd neu sy'n rhan o —

(a) neuadd eglwys, neuadd capel neu adeilad tebyg arall, neu

(b) neuadd bentref, neuadd blwyf, neuadd gymunedol neu adeilad tebyg arall;";

(b) ar ôl y diffiniad o "swyddogaethau trwyddedu" mewnosodir—

""mae pwyllgor rheoli", mewn perthynas ag unrhyw fangre gymunedol, yn golygu pwyllgor neu fwrdd o unigolion sydd â'r cyfrifoldeb o reoli'r fangre;".

(2) Yn y tabl yn adran 194—

(a) ar ôl y cofnod ar gyfer "tystysgrif mangre clwb" mewnosodir y cofnod canlynol

"mangre gymunedol	adran 193";

(b) ar ôl y cofnod ar gyfer "amcanion trwyddedu" mewnosodir y cofnod canlynol—

"pwyllgor rheoli	adran 193".

Gerry Sutcliffe
Is Ysgrifennydd Seneddol

xx 2008 Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

NODYN EGLURHAOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn yma'n gosod darpariaethau newydd yn y Ddeddf Trwyddedu 2003 (c. 17) ("y Ddeddf") wrth ymarfer y pwerau a roddwyd gan adran 1 Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (c. 51).

Effaith y diwygiadau yw caniatáu i awdurdodau trwyddedu mewn rhai amgylchiadau i gynnwys amod trwydded amgen yn ymwneud â goruchwylio gwerthu alcohol mewn trwyddedau mangre yng nghyswllt mangre gymunedol. Mae'r diffiniad o fangre gymunedol yn golygu unrhyw neuadd eglwys neu gapel (neu adeilad arall tebyg), neu unrhyw neuadd bentref, plwyf neu gymuned (neu adeilad arall tebyg).

Fel rheol, mae'n rhaid i drwydded mangre sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol gynnwys yr amodau a bennir yn adran 19(2) a (3) y Ddeddf ("yr amodau gorfodol arferol"). Mae'r amodau gorfodol hyn yn gwahardd cyflenwi alcohol o dan y drwydded ar unrhyw adeg lle nad oes yno oruchwyliwr dynodedig mangre ("GDM" - gweler adran 15 y Ddeddf) wedi'i nodi yn y drwydded, neu ar unrhyw adeg lle nad yw'r GDM yn dal trwydded bersonol o dan Ran 6 y Ddeddf (neu fod y drwydded wedi'i gohirio). Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyflenwi alcohol a ddigwydd o dan y drwydded gael ei wneud neu ei awdurdodi gan unigolyn sy'n dal trwydded bersonol.

Mae'r addasiadau a gyflwynwyd gan y Gorchymyn hwn yn caniatáu i bwyllgor neu fwrdd o unigolion sydd â chyfrifoldeb am reoli mangre gymunedol ("y pwyllgor rheoli") i wneud cais i gael cynnwys amod trwydded amgen mewn trwydded mangre yn lle'r amodau gorfodol arferol. Yr amod amgen yw bod yr holl gyflenwi alcohol o dan y drwydded yn cael ei wneud neu ei awdurdodi gan y pwyllgor rheoli.

Mae erthyglau 3, 4 a 5 y Gorchymyn yn gosod adrannau 25A, 41D a 52A newydd yn y Ddeddf sy'n addasu adrannau 17 i 19 (mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau), 19 a 35 (mewn perthynas â cheisiadau i amrywio trwyddedau) a 52 (mewn perthynas â cheisiadau i adolygu trwyddedau).

Mae'r gyfres gyntaf o addasiadau (yn yr adran 25A newydd) yn caniatáu i bwyllgor rheoli mangre gymunedol gynnwys yn y cais am drwydded mangre sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol gais am gymhwyso'r amod trwydded amgen yn hytrach na'r amodau gorfodol arferol. Mewn achos o'r fath, nid yw'n ofynnol i'r cais gynnwys unrhyw ffurf o ganiatâd gan unigolyn sydd i weithredu fel GDM, nac unrhyw wybodaeth ragnodedig ynghylch unigolyn o'r fath. Gellir cyflwyno sylwadau perthnasol (ac yn dilyn hynny mae'n rhaid cynnal gwrandawiad o'r cais oni bai bod pob parti yn cytuno na does ei angen) sy'n ymwneud â chynnwys yr amod trwydded amgen gan y prif swyddog heddlu yr ardal lle lleolir y fangre. Mae'n rhaid i sylwadau o'r fath gynnwys datganiad sy'n nodi oherwydd amgylchiadau eithriadol yr achos, bod y swyddog wedi'i fodloni y byddai cynnwys yr amod amgen yn hytrach na'r amodau gorfodol arferol yn tanseilio'r amcan atal troseddu yn adran 4(2)(a) y Ddeddf. Os na chyflwynir unrhyw sylwadau o'r fath, neu lle nad yw'r awdurdod trwyddedu o'r farn bod angen yr amodau gorfodol arferol i hyrwyddo'r amcan atal troseddu; a lle bodlonir yr awdurdod bod y trefniadau ar gyfer rheoli'r fangre gan yr ymgeisydd yn ddigonol i sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o'r cyflenwi alcohol yn y fangre, yna cynhwysir yr amod trwydded amgen yn y drwydded yn hytrach na'r amodau gorfodol arferol.

Mae'r ail gyfres o addasiadau yn gwneud addasiadau cyffelyb mewn perthynas ag amrywio trwyddedau (yn yr adran 41D newydd). Mae'r rhain yn gymwys lle mae pwyllgor rheoli mangre gymunedol eisoes yn dal trwydded mangre ac yn gwneud cais i'w amrywio er mwyn awdurdodi cyflenwi alcohol; a lle mae pwyllgor o'r fath eisoes yn dal trwydded sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol yn ddarostyngedig i'r amodau gorfodol arferol. Yn y naill achos a'r llall, fe all y pwyllgor wneud cais i gynnwys yr amod trwydded amgen yn y drwydded yn hytrach na'r amodau gorfodol arferol. Fe all yr awdurdod trwyddedu ganiatáu cais o'r fath yn unol â'r un meini prawf mewn perthynas â'r ceisiadau gwreiddiol am drwydded, fel nodwyd uchod. Diffinnir cyflwyno sylwadau perthnasol yn yr un modd.

Mae'r drydedd gyfres o addasiadau (yn yr adran 52A newydd) yn ymwneud â cheisiadau i adolygu trwyddedau a ddelir gan bwyllgor rheoli yng nghyswllt mangre gymunedol, ac sy'n cynnwys yr amod trwydded amgen yn hytrach na'r amodau gorfodol arferol. Yng nghyswllt ceisiadau o'r fath, fe all yr awdurdod trwyddedu bennu y dylai'r amodau gorfodol arferol fod yn gymwys yn hytrach na'r amod amgen os yw o'r farn bod hynny'n angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gellir dod i benderfyniad o'r fath yn dilyn y weithdrefn arferol ar gyfer adolygu ceisiadau a nodwyd yn adrannau 51 i 53 y Ddeddf.

Mae erthygl 6 y Gorchymyn yn mewnosod diffiniadau newydd o "fangre gymunedol" a "pwyllgor rheoli" yn adran 193 y Ddeddf.

CWESTIWN 1: A ydych yn cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchiad cywir o'r broses newydd a ddisgrifir yn Adran 3, Pennod 1 y Ddogfen Ymgynghorol yma i ganiatáu datgymhwyso amodau gorfodol yn ymwneud â gwerthu alcohol mewn perthynas â mangre gymunedol? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, a wnewch chi ddisgrifio'n fanwl sut y dylid diwygio'r Gorchymyn drafft yn eich barn chi.

Pennod 3: Tynnu GDM - Canllawiau Atodol a Diwygiedig Drafft

3.1 Bydd y canllawiau drafft isod yn diwygio'r cyfeiriadau at ofynion ddeiliad trwydded bersonol a GDM er mwyn adlewyrchu gallu mangre gymunedol i wneud cais i ddatgymhwyso'r amodau gorfodol hynny. Mae hefyd yn ychwanegu paragraffau newydd i Bennod 4 y Canllawiau er mwyn helpu awdurdodau trwyddedu i wneud penderfyniadau o dan y trefniadau newydd.

3.2 Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar sut i gymhwyso'r diffiniad o fangre gymunedol a sut i asesu'r strwythurau rheoli priodol. Yn y pen draw, materion i'r awdurdodau trwyddedu unigol fydd y rhain.

CANLLAWIAU ATODOL DRAFFT

Mae'r Canllawiau hyn yn diwygio adrannau Canllawiau statudol Deddf Trwyddedu 2003 (a gyhoeddwyd ar 28 Mehefin 2007) sy'n ymdrin â'r amodau gorfodol yng nghyswllt deiliaid trwydded bersonol a Goruchwylwyr Dynodedig Mangre ar gyfer mangre â thrwydded i werthu alcohol. Mae'n ychwanegu canllawiau newydd yng nghyswllt penderfyniadau ar geisiadau i ddatgymhwyso'r amodau gorfodol hynny yn achos mangre gymunedol (e.e. neuadd eglwys neu gapel a mangreoedd tebyg (neu rannau ohonynt), a neuaddau pentref, plwyf neu gymunedol a mangreoedd tebyg (neu rannau ohonynt)).

Mae'r paragraffau isod yn disodli'r paragraffau sydd â'r un rhifau yn y Canllawiau a gyhoeddwyd ar 28 Mehefin 2007.

4.1. Mae'r Bennod hon yn darparu cyngor ynghylch arfer gorau wrth weinyddu'r broses ar gyfer cyhoeddi trwyddedau personol i werthu neu gyflenwi alcohol. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau gan fangre gymunedol (neuaddau eglwys a neuaddau pentref ayb.) i ddatgymhwyso'r amodau gorfodol arferol sy'n ymwneud â thrwyddedau personol a Goruchwylwyr Dynodedig Mangre (GDMau).

GOFYNION AR GYFER TRWYDDED BERSONOL

4.2 Mae gwerthu a chyflenwi alcohol, oherwydd ei effaith ar y gymuned ehangach ac ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn golygu mwy o gyfrifoldeb na darparu adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr y nos. Dyma pam fod angen trwydded bersonol ar unigolion sydd o bosib yn ymwneud â gwneud ac awdurdodi gwerthu a chyflenwi alcohol. Nid oes angen trwydded bersonol ar bob person sy'n adwerthu alcohol mewn mangre drwyddedig i'r diben hynny, ond mae'n rhaid o leiaf awdurdodi pob gwerthiant neu gyflenwi alcohol a wneir gan ddeiliad trwydded o'r fath (gweler paragraffau 10.48 -10.53 y Canllawiau hyn). Yr unig eithriad yw ar gyfer mangre gymunedol lle gwnaed cais llwyddiannus i ddatgymhwyso'r amodau gorfodol a bennwyd yn a.19(2) ac a.19(3) Deddf 2003. (Nodir arweiniad o'r fath ym mharagraffau 4.32 i 4.47 y canllawiau hyn). Fe all unrhyw fangre lle mae'r gofyniad deiliad trwydded bersonol yn gymwys lle gwerthir neu gyflenwir alcohol gyflogi un neu fwy o ddeiliaid trwydded o'r fath. Er enghraifft, efallai fod yno un perchennog neu uwch reolwr a nifer o is reolwyr sy'n dal trwydded bersonol.

MANYLEB GORUCHWYLWYR DYNODEDIG MANGRE NEWYDD

4.19 Ym mhob mangre trwyddedig ar gyfer cyflenwi alcohol, mae'n rhaid pennu deiliad trwydded bersonol fel 'goruchwyliwr dynodedig mangre', yn unol â diffiniad Deddf 2003. Fel rheol y person yma fydd yr unigolyn sydd wedi derbyn cyfrifoldeb dydd i ddydd ar gyfer rhedeg y fangre gan y deiliad trwydded mangre. Yr unig eithriad yw ar gyfer mangre gymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i ddatgymhwyso'r amodau gorfodol a nodwyd yn a.19(2) ac a.19(3) Deddf 2003. Rhoddir arweiniad ar geisiadau o'r fath ym mharagraffau 4.32 i 4.47 y canllawiau hyn.

FFURFLENNI CAIS

8.24 Mae'n rhaid gwneud cais am drwydded mangre yn y ffurf a ragnodir gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol gan anfon copi at bob un o'r awdurdodau cyfrifol. Er enghraifft, ni ddylid anfon ceisiadau ar gyfer mangreoedd nad ydynt yn llongau at Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Mae'n rhaid cynnwys y canlynol gyda'r cais:

- y ffi gofynnol (rhoddir manylion ffioedd ar wefan DCMS);
- atodlen weithredol (gweler isod);
- cynllun o'r fangre yn y ffurf a ragnodwyd; ac
- os yw'r cais yn golygu cyflenwi alcohol:

  - ffurflen o ganiatâd gan yr unigolyn sydd i'w enwi yn y drwydded fel y goruchwyliwr dynodedig mangre; neu

  - yn achos mangre gymunedol sy'n ceisio datgymhwyso'r amodau gorfodol yn a.19(2) ac a.19(3) Deddf 2003 (h.y. tynnu'r gofynion arferol parthed goruchwylio gwerthu alcohol gan ddeiliad trwydded bersonol a Goruchwyliwr Dynodedig Mangre sy'n dal trwydded bersonol), ffurflen wedi'i chwblhau a ragnodwyd o'r diben hwnnw.

AMRYWIADAU

8.34 Mae yno brosesau wedi'u symleiddio ar gyfer gwneud ceisiadau yn yr achosion canlynol: newid yn enw neu gyfeiriad rhywun a enwir yn y drwydded (adran 33); cais i amrywio'r drwydded i enwi unigolyn newydd fel goruchwyliwr dynodedig mangre (adran 37); cais mewn perthynas â thrwydded yng nghyswllt mangre gymunedol sy'n awdurdodi gwerthu alcohol i ddatgymhwyso'r amodau gorfodol parthed goruchwylio gwerthu alcohol gan ddeiliad trwydded bersonol a'r angen am Oruchwyliwr Dynodedig Mangre sy'n dal trwydded bersonol (adrannau 25A a 41D); a chais am fân amrywiad i drwydded mangre (adrannau 41A i 41C).

CEISIADAU I NEWID Y GORUCHWYLWYR DYNODEDIG MANGRE

8.60 (Paragraff newydd, 8.53 yn flaenorol) Mae paragraffau 4.19 - 4.28 uchod yn ymdrin â goruchwylwyr dynodedig mangre a cheisiadau i amrywio trwydded mangre yn cynnwys gwerthu alcohol trwy bennu goruchwyliwr dynodedig mangre newydd. Mae paragraffau 4.32 i 4.47 yn ymdrin â cheisiadau gan fangre gymunedol i ddatgymhwyso'r amodau gorfodol yn a.19(2) a a.19(3) Deddf 2003 ynghylch goruchwylio gwerthu alcohol gan ddeiliad trwydded bersonol a'r angen am Oruchwyliwr Dynodedig Mangre sy'n dal trwydded bersonol.

AMODAU GORFODOL

Goruchwyliwr Dynodedig Mangre

10.45 Fe all unrhyw fangre lle gwerthir neu cyflenwir alcohol gyflogi un neu fwy o ddeiliaid trwydded bersonol. Prif bwrpas 'goruchwyliwr dynodedig mangre' fel y'i diffinnir yn Neddf 2003 yw sicrhau bod yno ar bob adeg un unigolyn penodol ymysg y deiliaid trwydded bersonol hyn y gellir ei adnabod yn hwylus ar gyfer y fangre lle mae trwydded mangre mewn grym. Bydd yr unigolyn hynny fel rheol wedi cael cyfrifoldeb dydd i ddydd ar gyfer rhedeg y fangre gan ddeiliad y drwydded mangre. Nid yw'r gofynion a nodir ym mharagraffau 10.46 i 10.52 isod mewn perthynas â'r goruchwyliwr dynodedig mangre ac awdurdodi gwerthu alcohol gan ddeiliad trwydded bersonol yn berthnasol i fangre gymunedol yng nghyswllt cyflwyno cais llwyddiannus i ddatgymhwyso'r amodau gorfodol a nodir yn a.19(2) ac a.19(3) Deddf 2003. (Rhoddir arweiniad ar geisiadau o'r fath ym mharagraffau 4.32 i 4.47 y canllawiau hyn).

Awdurdodi gan ddeiliaid trwydded bersonol

10.53 Mae'n rhaid cofio er bod goruchwyliwr dynodedig mangre neu ddeiliad trwydded bersonol yn gallu awdurdodi unigolion i werthu alcohol yn eu habsenoldeb, maent yn gyfrifol am unrhyw werthiant a wneir. Yn yr un modd, mae deiliad trwydded mangre yn parhau'n gyfrifol am sicrhau bod cyfraith drwyddedu ac amodau trwydded yn cael eu dilyn yn y fangre mangre, ac mae hefyd yn gyfrifol am werthu alcohol mewn mangre gymunedol lle mae'r amodau gorfodol sy'n ymwneud â deiliaid trwydded bersonol a Goruchwylwyr Dynodedig Mangre wedi eu datgymhwyso (gweler paragraffau 4.32 i 4.47 o'r canllawiau hyn).

PARAGRAFFAU YCHWANEGOL

Mewnosodir y paragraffau canlynol ar ôl paragraff 4.31 yr Arweiniad a gyhoeddwyd ar 28 Mehefin 2007.

DATGYMHWYSO AMODAU GORFODOL AR GYFER MANGRE GYMUNEDOL

4.32 Roedd Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Goruchwylio Gwerthu Alcohol mewn Neuaddau Eglwys a Phentref &c.) 2008 (SI 2008/XXXX) yn diwygio Deddf 2003 i ganiatáu rhai mangreoedd cymunedol sydd wedi, neu sydd yn gwneud cais am drwydded mangre sy'n awdurdodi gwerthu alcohol i wneud cais i gynnwys yr amod amgen a nodir yn adrannau 25A(2) a 41D(3) ("yr amod gorfodol newydd") Deddf 2003 yn y drwydded yn hytrach na'r amod gorfodol a nodir yn a.19(2) a (3) ("yr amodau gorfodol arferol"). Gellir cyflwyno cais o'r fath yn unig os yw deiliad y drwydded naill ai yn bwyllgor neu fwrdd o unigolion a chyfrifoldeb am reoli'r fangre ("pwyllgor rheoli"), neu am fod yn bwyllgor neu fwrdd o unigolion o'r fath. Pe bai cais o'r fath yn llwyddiannus, effaith yr amod gorfodol newydd fydd gwneud deiliad y drwydded (h.y. y pwyllgor neu'r bwrdd) yn gyfrifol am yr holl werthu alcohol a wneir o dan y drwydded. Bydd gofyn i ddeiliad y drwydded wneud neu awdurdodi pob gwerthiant o'r fath. Ni fydd yno ofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig Mangre neu i oruchwylio gwerthu alcohol gan ddeiliad trwydded bersonol. Mae'r Gorchymyn yn diffinio mangre gymunedol fel mangre sydd yn neuadd eglwys, neuadd capel neu adeilad tebyg arall neu neuadd bentref, neuadd blwyf neu neuadd gymunedol neu adeilad tebyg arall neu sy'n ffurfio rhan o neuadd neu adeilad o'r fath.

4.33 Mae'r broses yn gofyn am gwblhau ffurflen newydd sy'n cael ei nodi yn [noder enw'r rheoliadau]. Lle mae pwyllgor rheoli mangre gymunedol yn gwneud cais am gael awdurdodi

gwerthu alcohol am y tro cyntaf, dylai gynnwys y ffurflen gyda'r cais am drwydded mangre newydd neu gais i amrywio'r drwydded mangre. Nid oes angen tâl ychwanegol ar wahân i'r ffi bresennol am gais newydd neu amrywiad.

4.34 Lle mae gan fangre gymunedol eisoes drwydded i werthu alcohol, ond am gynnwys yr amod gorfodol newydd yn hytrach na'r rhai arferol, dylai gyflwyno'r ffurflen ar ei phen ei hun gyda'r ffi gofynnol.

Diffinio mangre gymunedol

4.35 Yn y rhan fwyaf o achosion, fe ddylai fod yn eglur a yw mangre yn neuadd eglwys, neuadd capel neu adeilad tebyg arall neu neuadd bentref, neuadd blwyf, neuadd gymunedol neu adeilad tebyg arall neu'n ffurfio rhan o neuadd neu adeilad o'r fath.

4.36 Bydd amryw o awdurdodau trwyddedu eisoes wedi cymryd safbwynt ynghylch sut i benderfynu a yw mangre yn cwrdd â diffiniad o fangre gymunedol ai peidio ar gyfer dibenion eithriadau o'r ffioedd a bennwyd yn a.9(2)(b) Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Ffioedd) 2005 (SI 2005/79). Gan fod y meini prawf yr un fath, bydd mangreoedd sy'n gymwys ar gyfer yr eithriadau yma rhag talu ffioedd ar gyfer adloniant rheoledig hefyd yn "fangreoedd cymunedol" ar gyfer y dibenion presennol..

4.37 Fodd bynnag, efallai fod yno sawl math o fangre sy'n ceisio datgymhwyso'r gofynion trwydded bersonol a GDM nad ydynt cyn hyn wedi ceisio cael eu heithrio o'r ffi fel mangre gymunedol. Efallai fod hyn oherwydd nad oeddent wedi cynnwys alcohol neu luniaeth hwyr y nos yn eu trwydded o'r blaen ac felly wedi gorfod talu ffi doed a ddel, neu wedi cymhwyso ar gyfer cael eu heithrio o'r ffi ar gyfer trwyddedau adloniant rheoledig fel sefydliad addysgol.

4.38 Lle nad yw'n glir a yw mangre yn "fangre gymunedol" ai peidio, bydd angen i awdurdodau trwyddedu ddelio â'r mater fesul achos. Y brif ystyriaeth yn y rhan fwyaf o achosion fydd sut y defnyddir y fangre yn bennaf. Os yw'r fangre ar gael mewn gwirionedd ar gyfer budd y gymuned y rhan fwyaf o'r amser ac ar gael i'w defnyddio gan ystod eang o bobl a sectorau o'r gymuned leol ar gyfer dibenion sy'n cynnwys dibenion sydd o fudd i'r gymuned gyfan, yna bydd y fangre yn debygol o gwrdd â'r diffiniad. Mae'n ddichonadwy y gallai hyn gynnwys mangreoedd addysgol, megis neuaddau ysgol, ond dim ond lle cânt eu defnyddio mewn gwirionedd ac yn eang er budd y gymuned gyfan, ac nid yr ysgol benodol yn unig.

4.39 Mae amryw o neuaddau ysgol a phreifat ar gael i'w llogi'n breifat gan y cyhoedd. Ni fyddai'r ffaith hon ar ei phen ei hun yn ddigon i neuaddau o'r faith gymhwyso fel "mangre gymunedol". Er bod modd ystyried llogi mangre o'r fath fel darparu cyfleuster i'r gymuned, bydd awdurdodau trwyddedu am ystyried a yw neuaddau a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer eu llogi'n breifat gan unigolion neu gyrff preifat yn wirioneddol oherwydd eu natur yn "fangre gymunedol". Cyfeirir y prawf statudol at natur y fangre ei hun fel y'i adlewyrchir yn y prif ddefnydd, ac nid yn unig yn nefnyddioldeb y fangre i aelodau'r gymuned ar gyfer dibenion preifat.

4.40 Pe bai'r defnydd o'r fangre yn amodol ar aelodaeth o sefydliad neu sefydliadau penodol, byddai hynny'n awgrymu'n gryf nad oedd y fangre dan sylw yn "fangre gymunedol" o fewn y

diffiniad hwn. Fodd bynnag, ni fyddai llogi'r fangre i sefydliadau unigol a defnyddwyr sy'n cyfyngu eu gweithgareddau i'w haelodau eu hunain a'u gwesteion o reidrwydd dyn gwrthdaro gyda statws y fangre fel "mangre gymunedol", ar yr amod bod y fangre yn gyffredinol ar gael i'w defnyddio gan y gymuned yn yr ystyr a ddisgrifiwyd uchod. Nid yw'n fwriad i glybiau 'cymwys' sy'n gallu gwneud cais am dystysgrif mangre clwb geisio yn hytrach am drwydded mangre gyda datgymhwyso'r amodau gorfodol yn berthnasol i gyflenwi alcohol.

Rheoli'r fangre

4.41 Mae adrannau 25A(1) a 41D(1) a (2) Deddf 2003 yn caniatáu ceisiadau gan fangre gymunedol i gymhwyso'r amod gorfodol newydd yn hytrach na'r rhai arferol yn unig lle mae'r ymgeisydd am y drwydded yn bwyllgor rheoli'r fangre dan sylw. Ar ben hynny, mae adrannau 25A(6) a 41D(5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu gael ei fodloni bod y trefniadau ar gyfer rheoli'r fangre gan bwyllgor neu fwrdd yn ddigonol i sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o'r cyflenwi alcohol yn y mangre.

4.42 Bwriad y cyfeiriad at 'bwyllgor neu fwrdd o unigolion' yw cynnwys unrhyw bwyllgor neu strwythur rheoli a cyfansoddol, tryloyw ac atebol yn ffurfiol. Dylai pwyllgor o'r fath feddu ar y gallu i ddarparu goruchwyliaeth ddigonol o'r fangre er mwyn lleihau unrhyw risg i'r amcanion trwyddedu a allai ddeillio o ganiatáu trosglwyddo'r cyfrifoldeb am werthu alcohol o ddeiliad trwydded bersonol/goruchwyliwr dynodedig mangre. Fe allai hyn gynnwys pwyllgorau rheoli, pwyllgorau gweithredol a byrddau ymddiriedolwyr.

4.43 Nid oes gofyniad i fangre gymunedol gyflwyno copïau o'i chyfansoddiad neu ddogfennau rheoli eraill gyda'i chais. Fodd bynnag, mae *[nodwch deitl y ffurflen gais]* yn gofyn i ymgeiswyr nodi sut y mae'r fangre yn cael ei rhedeg, ei strwythur pwyllgor a sut y bwriedir sicrhau goruchwylio gwerthu alcohol mewn sefyllfaoedd gwahanol (e.e. pan yw'r neuadd yn cael ei llogi i bartïon preifat) a sut y mae'r cyfrifoldeb am hyn yn cael ei bennu mewn achosion unigol a'i drafod a'i adolygu o fewn y weithdrefn pwyllgorau pe bai unrhyw faterion yn codi. Lle mae'r trefniadau rheoli yn llai clir, efallai bydd awdurdodau trwyddedu am ofyn am fanylion pellach i gadarnhau bod y bwrdd rheoli neu bwyllgor wedi'i gyfansoddi'n briodol ac yn atebol cyn cymryd penderfyniad ynghylch caniatáu'r cais neu beidio (yn amodol ar farn yr heddlu). Efallai bydd mangre gymunedol am wirio gyda'r awdurdod trwyddedu cyn gwneud cais.

4.44 Fel deiliad y drwydded mangre, bydd y bwrdd rheoli neu bwyllgor yn gydgyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith, er na fyddai o reidrwydd unrhyw aelod unigol yn bresennol o hyd yn y fangre. Er mai'r bwrdd rheoli neu'r pwyllgor fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol, lle llogir y fangre gellir nodi'r sawl sy'n llogi yn eglur fel yr un sydd â phrif gyfrifoldeb am faterion sy'n dod o dan ei r/rheolaeth (e.e. o dan y cytundeb llogi a gynigir gan ddeiliad y drwydded), yn yr un modd ag y mae trefnydd digwyddiad yn gyfrifol am ddigwyddiad a gynhelir o dan Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.

4.45 Fel nodwyd uchod mae adrannau 25A(6) a 41D(5) Deddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu ystyried a yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r fangre gan y pwyllgor yn wyneb yr amodau y mae, neu y bydd, y drwydded yn ddarostyngedig iddynt er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o'r cyflenwi alcohol yn y fangre. Lle caniateir llogi preifat ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys gwerthu alcohol gan y drwydded, byddai angen cael cytundeb llogi effeithiol. Dylai awdurdodau trwyddedu ystyried trefniadau ar gyfer defnyddio cytundebau llogi yng ngoleuni'r argymhellion ar gyfer arfer gorau a wnaed gan sefydliadau fel ACRE a Community Matters [i'w gadarnhau]

Barn yr Heddlu

4.46 Cam diogelwch ychwanegol yw y gall yr heddlu mewn amgylchiadau eithriadol wrthwynebu cais i gynnwys yr amod gorfodol newydd ar sail trosedd ac anhrefn, a gall unrhyw awdurdod cyfrifol geisio ailosod yr amodau trwy adolygu trwydded (fel darperir gan adran 52A Deddf 2003). Bydd yr heddlu am ystyried unrhyw hanes o ddigwyddiadau mewn sefydliadau yng ngoleuni'r trefniadau rheoli gwirioneddol neu arfaethedig, yn cynnwys defnyddio cytundebau llogi priodol. Os yw'r heddlu yn cyhoeddi hysbysiad sy'n gofyn am wrthod y cais i gynnwys yr amod gorfodol newydd, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawiad er mwyn dod i benderfyniad ynghylch caniatáu'r cais neu beidio.

Apelio

4.47 Lle mae Prif Swyddog yr Heddlu wedi cyflwyno sylwadau perthnasol yn erbyn cynnwys yr amod gorfodol newydd, neu wedi rhoi hysbysiad o dan a41D(6) na chafodd ei dynnu yn ôl, gall apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod trwyddedu i ganiatáu cynnwys yr amod gorfodol newydd . Yn yr un modd, fe all mangre gymunedol apelio yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod trwyddedu i wrthod cynnwys yr amod gorfodol newydd yn dilyn gwrandawiad a ysgogwyd gan sylwadau perthnasol neu hysbysiad a roddwyd o dan a41D(6). Yn dilyn adolygiad o'r drwydded lle allosodir yr amodau gorfodol arferol, fe all deiliad y drwydded apelio yn erbyn y penderfyniad. Os cedwir yr amod gorfodol newydd yn dilyn adolygiad, fe all yr ymgeisydd ar gyfer adolygiad, neu unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau perthnasol apelio yn erbyn y penderfyniad.

CWESTIWN 2: A yw'r Canllawiau drafft hyn yn darparu cyngor digonol i gynorthwyo swyddogion trwyddedu i ddod i benderfyniad ynghylch a yw mangre yn cwrdd â'r gofynion a nodir yn adran 25A(6) arfaethedig Deddf 2003 i ganiatáu datgymhwyso'r amodau gorfodol mewn perthynas â deiliad trwydded bersonol a GDM? Ydi/Nac ydi

Os Nac ydi, a wnewch chi ddisgrifio'n fanwl pa Ganllawiau ychwanegol y dylid eu darparu.

Pennod 4: Tynnu GDM - Ffi Arfaethedig ar gyfer Gwneud Cais

4.1 Mae'r Llywodraeth yn disgwyl pennu'r ffioedd ar lefel a fyddai'n adennill costau gweinyddol, archwilio a gorfodi unrhyw awdurdod trwyddedu sy'n gysylltiedig â'u swyddogaethau trwyddedu o dan Ddeddf 2003.

4.2 Fel rhan o'r broses bwriedir craffu ar y neuaddau cymunedol hynny sy'n gwneud cais am drwydded i ganiatáu gwerthu alcohol am y tro cyntaf (naill ai fel cais newydd neu gais i amrywio trwydded). Felly nid ydym o'r farn y byddai datgymhwyso'r gofynion gorfodol yn achosi baich ychwanegol sy'n cyfiawnhau cynnydd mewn ffioedd i'r ymgeiswyr hynny.

4.3 Lle mae gan fangre gymunedol eisoes drwydded sy'n caniatáu gwerthu alcohol, bydd yno broses ar wahân i dynnu'r amodau gorfodol. Y bwriad gwreiddiol oedd defnyddio'r ffurflen a'r broses bresennol er mwyn i fangre wneud cais am newid GDM. Er na fu hynny'n bosib ac er bod angen ffurflen newydd, ar wahân, nid ydym o'r farn bod costau proses o'r fath yn wahanol i'r rhai sy'n ymwneud â newid GDM ac rydym yn bwriadu pennu'r ffi ar yr un lefel. (£23 ar hyn o bryd). Er bod yno destun trafod o bosib ynghylch a yw mangre yn fangre gymunedol gyda phwyllgor rheoli priodol, nid ydym i'r farn y bydd yno lawer o achosion lle ceir anghydfod a fydd yn ychwanegu at gostau. Mae ymchwil yn nodi mai dim ond tua thraean o neuaddau pentref sydd â thrwydded ar hyn o bryd sy'n awdurdodi gwerthu alcohol ac yn amlwg bydd llawer o'r rhain yn cwrdd â'r diffiniad o fangre gymunedol gyda strwythur rheoli addas yn ei lle.

CWESTIWN 3: A ydych yn credu bod y ffi arfaethedig yn a) iawn b) rhy isel neu c) rhy uchel?

Os ydych yn credu bod y ffi yn rhy uchel neu'n rhy isel, dylech awgrymu ffigur amgen a rhoi tystiolaeth, yn cynnwys tasgau a gyflawnwyd, amser angenrheidiol i'w cyflawni ar gyfartaledd, a chyfran o'r ymdrech broffesiynol/gweinyddol sy'n berthnasol.

Pennod 5: Tynnu GDM – Ffurflen Gais

5.1 Gellir defnyddio'r ffurflen gais ddrafft isod i wneud cais am ddatgymhwyso'r amodau gorfodol. Dylid cyflwyno'r ffurflen gyda chais am drwydded mangre newydd neu gais i amrywio trwydded mangre lle mae mangre gymunedol yn dymuno caniatáu gwerthu alcohol a datgymhwyso'r amodau gorfodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid anfon y ffurflen ar ei phen ei hun, ynghyd â'r drwydded bresennol neu ran berthnasol, ynghyd â ffi am y cais am drwydded mangre newydd neu gais i amrywio trwydded mangre.

5.2 Lle mae gan y fangre gymunedol trwydded sy'n caniatáu gwerthu alcohol eisoes, dylid cyflwyno'r ffurflen ar ei phen ei hun, ynghyd â'r ffi briodol.

Cais parthed mangre gymunedol i gynnwys yr amod gorfodol yn adran 19(4) Deddf Trwyddedu 2003 mewn trwydded mangre

DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU CANLYNOL GYNTAF

Cyn cwblhau'r ffurflen hon dylech ddarllen y nodiadau arweiniad ar ddiwedd y ffurflen.

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen â llaw dylech ysgrifennu'n eglur mewn priflythrennau. Ym mhob achos dylech sicrhau bod eich atebion y tu mewn i'r blychau ac wedi eu hysgrifennu neu eu teipio mewn inc du. Dylech ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen.

Ar ôl ei gwblhau rhowch eich cais i [*nodwch enw a chyfeiriad yr awdurdod trwyddedu perthnasol*]. Os dymunwch gallwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau ar gyfer eich cofnodion.

Rydym ni …… fel bwrdd neu bwyllgor o unigolion â chyfrifoldeb am reoli'r fangre gymunedol a ddisgrifir yn Rhan 1 isod, ac fel (ymgeisydd am drwydded mangre/deiliad trwydded mangre) *[dileer fel sy'n briodol]* yng nghyswllt y fangre honno yn gwneud cais i gynnwys yr amod y cyfeirir ati yn adran 19(4) Deddf Trwyddedu 2003 yn y drwydded yn hytrach na'r amodau y cyfeirir atynt yn adran 19(2) a (3) y Ddeddf. (gweler Nodyn Arweiniad 2).

Part 1 – Community premises details

Cyfeiriad post y fangre, neu, os nad oes un, cyfeirnod map arolwg ordnans neu ddisgrifiad	
Tref bost	Cod Post

Rhif ffôn y fangre (os oes un)

Rhif y drwydded mangre (os yn berthnasol)

Disgrifiad cryno o'r fangre (Gweler Nodyn Arweiniad 3)

Disgrifiwch strwythur rheoli'r fangre ar gyfer y fangre a sut y bwriedir goruchwylio gwerthu alcohol (Gweler Nodyn Arweiniad 4)

Rhan 2 – Manylion yr ymgeisydd

Ticiwch ydwyf ✔

Rydym yn ddeiliad trwydded mangre ☐

Rhif ffôn cyswllt oriau gwaith (os oes un)

Cyfeiriad e-bost (dewisol)

Cyfeiriad post cyfredol os yn wahanol i gyfeiriad y fangre

Tref Bost **Cod Post**

Rhif ffôn (os oes un)

Ticiwch ydwyf ✔ fel sy'n briodol

Rwyf wedi amgáu'r drwydded mangre/ ☐

Rwyf wedi amgáu rhan berthnasol y drwydded mangre ☐

Mae'r ffurflen hon yn mynd gyda chais am drwydded mangre newydd ☐

Os ydych yn amrywio trwydded bresennol a heb dicio un o'r ddau flwch cyntaf uchod eglurwch pam yn y blwch isod.

Rhesymau pam nad ydych wedi amgáu'r drwydded mangre/tystysgrif mangre clwb neu rannau perthnasol.

Unrhyw wybodaeth bellach i gefnogi eich cais.

RHESTR WIRIO:- Ticiwch ydwyf ✔

Os ydych yn gwneud cais i dynnu'r gofynion gorfodol o drwydded mangre bresennol sydd eisoes yn awdurdodi gwerthu alcohol

- **Rwyf wedi talu neu'n amgáu taliad o'r ffi** ☐
- **Rwy'n deall y bydd fy nghais yn cael ei wrthod os nad wyf yn cydymffurfio â'r gofynion uchod** ☐

Os ydych yn gwneud cais ar y cyd â chais newydd neu amrywiad ar gyfer caniatâd i ganiatáu gwerthu alcohol

- **cyflwynir y cais yma'n gyfochrog â chais am drwydded mangre newydd /cyflwynir y cais yma'n gyfochrog â chais i amrywio trwydded mangre bresennol *(dileer fel sy'n briodol)***
- **Rwyf wedi amgáu'r drwydded mangre/tystysgrif mangre clwb neu ran berthnasol ohoni/ohono neu wedi rhoi eglurhad** ☐
- **Rwy'n deall y bydd fy nghais yn cael ei wrthod os nad wyf yn cydymffurfio â'r gofynion uchod** ☐

MAE'N DROSEDD I WNEUD DATGANIAD GAU YNG NGHYSWLLT Y CAIS HWN GALLAI GWNEUD HYNNY ARWAIN AT ERLYNIAD A DIRWY HYD AT LEFEL 5 AR Y RADDFA SAFONOL [***SWM***], O DAN ADRAN 158 DEDDF TRWYDDEDU 2003

Rhan 5 – Llofnodion **(Darllenwch nodyn arweiniad 5)**

Llofnod yr ymgeisydd. Dylech nodi yn rhinwedd pa swyddogaeth yr ydych yn cynrychioli deiliad y drwydded mangre.

Arwyddwyd
……
……

Dyddiad……
……

Swyddogaeth……
……

Enw cyswllt (lle na roddwyd yn flaenorol) a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cais hwn.	
Tref bost	Cod Post
Rhif ffôn (os oes un)	
Nodwch eich cyfeiriad e-bost pe bai'n well gennych i ni ohebu â chi trwy e-bost (dewisol)	

Nodiadau Arweiniad

1. Gellir defnyddio'r ffurflen hon gan fangre gymunedol sy'n ceisio tynnu'r amodau gorfodol yn a.19(2) ac a.19(3) Deddf 2003 sy'n gofyn am ddeiliad trwydded bersonol a Goruchwyliwr Dynodedig Mangre lle mae mangre yn caniatáu cyflenwi alcohol, a gosod yn ei lle'r amod gorfodol amgen (yn adran 19(4) y Ddeddf) bod y cyflenwi alcohol yn cael ei awdurdodi yn hytrach gan ddeiliad trwydded mangre naill ai :

   trwy wneud cais i dynnu amodau gorfodol trwydded mangre bresennol sy'n caniatáu gwerthu alcohol;

   trwy wneud cais i dynnu'r amodau gorfodol wrth wneud cais am drwydded mangre newydd sy'n cynnwys gwerthu alcohol; neu

   trwy wneud cais i dynnu'r amodau gorfodol wrth wneud cais i amrywio trwydded mangre bresennol i ganiatáu gwerthu alcohol.

2. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn bwyllgor neu fwrdd o unigolion sydd â chyfrifoldeb am reoli'r fangre – nodwch enw'r pwyllgor neu'r bwrdd.
3. Disgrifiwch y fangre. Yn benodol, eglurwch eich rhesymau dros gredu ei bod yn fangre gymunedol, hy ar gael er budd y gymuned y rhan fwyaf o'r amser ac yn hygyrch i ystod eang o bobl a sectorau o'r gymuned leol ar gyfer dibenion sydd er budd y gymuned yn gyffredinol. Os mai elusen gofrestredig yw'r fangre gymunedol, dylech gynnwys ei rhif Comisiwn Elusennau.
4. Nodwch sut y mae'r fangre'n cael ei rheoli, strwythur pwyllgor a sut y bwriedir sicrhau goruchwylio gwerthiant alcohol mewn sefyllfaoedd gwahanol (e.e. pan yw'r neuadd yn cael ei llogi i bartïon preifat) a sut y mae'r cyfrifoldeb am hyn i'w bennu mewn achosion unigol a'i darfod a'i adolygu o fewn y weithdrefn bwyllgor yn achos unrhyw faterion sy'n codi. Os dymunwch, gallwch gynnwys copïau o ddogfennau rheoli a chytundebau llogi.
5. Mae'n rhaid gwneud ceisiadau i dynnu adran 19(4) yr amod gorfodol gan bwyllgor rheoli strwythur sy'n dal neu a fydd yn dal y drwydded mangre ar gyfer mangre gymunedol. Dylech nodi ym mha swyddogaeth yr ydych yn llofnodi'r cais (ee Cadeirydd Pwyllgor, aelod pwyllgor, ysgrifennydd Neuadd ayb).

CWESTIWN 4: A ydych yn credu y bydd ymgeiswyr yn gallu cwblhau'r ffurflen hon yn hawdd heb ofyn am gyngor cyfreithiol? Ydwyf/Nac ydwyf.

Os Nac ydwyf, eglurwch sut y gellid ei gwneud yn fwy hwylus i'r defnyddiwr.

CWESTIWN 5: A yw'r ffurflen hon yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng darparu digon o wybodaeth er mwyn i swyddog trwyddedu benderfynu a yw neuadd yn fangre gymunedol ac yn meddu ar strwythur rheoli digonol i leihau'r baich ar y sawl sy'n cyflwyno cais? Ydi/Nac ydi?

Os Nac ydi, rhowch fanylion ynghylch pa wybodaeth ychwanegol y dylid ei darparu neu beth ddylid ei eithrio gan egluro'r rhesymau am hynny.

Pennod 6: Tynnu GDM – Asesiad Effaith

Lluniwyd Asesiad Effaith cychwynnol fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2007 ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau sylweddol. Felly mae'r Asesiad Effaith terfynol isod yn atgynhyrchu'r asesiad ar gyfer y dewis sy'n cael ei ffafrio gan y llywodraeth fel y'i nodir yn yr ymgynghoriad hwnnw. Ar ben hynny, mae'r Asesiad bellach yn cynnwys cyfrifiad er mwyn addasu arbedion ar gyfer 'gwerth presennol' dros y cyfnod 10 mlynedd.

Crynodeb: Ymyrraeth a Dewisiadau		
Adran /Asiantaeth: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	Teitl: Asesu Effeithiau'r cynnig i dynnu'r gofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig mangre a deiliad trwydded bersonol ar gyfer mangre gymunedol	
Cam: Asesiad Effaith Terfynol	Version: **2**	Date: **16/06/08**
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: **Deddf Trwyddedu 2003, Papur Ymgynghori ar y cynnig i dynnu'r gofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig mangre ar gyfer mangre gymunedol o dan y Ddeddf honno**		

Ar gael i'w ddarllen neu ei lawrlwytho ar:

http://www.culture.gov.uk

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: **David Gookey** Ffôn: **020 7211 6351**

Beth yw'r broblem o dan sylw? Pam fod angen ymyrraeth gan y llywodraeth?

Mae cyrff a mudiadau sy'n cynrychioli neuaddau pentref a chymunedol wedi darganfod rhwystr i fangre o'r fath sy'n gwneud cais am drwydded caniatáu gwerthu alcohol, sef y gofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig mangre/deiliad trwydded bersonol i gael yr awdurdod i werthu alcohol. Mae gwirfoddolwyr yn gyndyn i gymryd y cyfrifoldeb hwn, sy'n golygu bod llawer o fangreoedd yn dibynnu ar ganiatadau dros dro i ganiatáu gwerthu alcohol (hysbysiadau digwyddiad dros dro) sy'n gyfyngedig i 12 o ddigwyddiadau bob blwyddyn. Mae gofyn am ymyrraeth o du'r Llywodraeth i ddiwygio'r Ddeddf Drwyddedu i ddatgymhwyso'r gofynion hyn.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau a fwriedir?

Bwriedir y bydd mwy o neuaddau pentref a mangreoedd cymunedol tebyg yn gwneud cais am drwydded sy'n caniatáu gwerthu alcohol os caiff y gofynion hyn eu datgymhwyso. Byddai hyn yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o fethu â chynnal yr holl weithgareddau sy'n ofynnol o dan y drefn Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ac yn sicrhau nad yw'r drefn drwyddedu'n cyfyngu'n ddiangen ar weithgareddau cymunedol lleol. Dylai ddarparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer y mangreoedd hyn a dylai fod â photensial i ostwng costau dros gyfnod o 10 mlynedd.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi cael eu hystyried? Cyfiawnhewch unrhyw ddewis a ffafrir os gwelwch yn dda.

Mae'r rhai sy'n cynrychioli mangre gymunedol wedi galw am gynnydd sylweddol yng nghyfyngiad Hysbysiadau Digwyddiad dros dro. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys rhai awdurdodau lleol, grwpiau trigolion a'r heddlu'n bryderus ynghylch llacio cyfyngiadau ar drefn cyffyrddiad ysgafn sy'n galluogi trigolion i wrthwynebu digwyddiadau. Cefnogwyd y cynnig gan banel annibynnol a sefydlwyd i adolygu ffi'r drwydded a chostau eraill. Daeth i'r casgliad y dylai neuaddau pentref wneud cais am drwyddedau mangre llawn er mwyn lleihau eu dibyniaeth ar ganiatadau dros dro a beichiau gweinyddol mwy hirdymor.

Ymgynghorodd y Llywodraeth ar y Dewisiadau canlynol o 8 Awst 2007 i 31 Hydref 2007:

Dewis 1: a) Datgymhwyso'r ddau amod gorfodol (sy'n ofynnol gan adran 19 Deddf Trwyddedu 2003 ar hyn o bryd) yn ymwneud â deiliaid trwydded bersonol a goruchwylwyr dynodedig mangre mewn perthynas â thrwyddedau mangre sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol mewn neuaddau pentref, neuaddau eglwys, neuaddau capel a mangreoedd tebyg. (b) Rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodi pob gwerthiant alcohol yn y fangre i ddeiliad y drwydded mangre. (c) Peidio â chaniatáu gosod amodau felly ar y drwydded mangre dan unrhyw amgylchiadau.

Dewis 2: (a) Datgymhwyso'r ddau amod gorfodol (sy'n ofynnol gan adran 19 Deddf Trwyddedu 2003 ar hyn o bryd) yn ymwneud â deiliaid trwydded bersonol a goruchwylwyr dynodedig mangre mewn perthynas â thrwyddedau mangre sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol mewn neuaddau pentref, neuaddau eglwys, neuaddau capel a mangreoedd tebyg. (b) Rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodi pob gwerthiant alcohol yn y fangre i ddeiliad y drwydded mangre. (c) Yn dilyn unrhyw adolygiad gan yr awdurdod trwyddedu o drwydded mangre felly am resymau'n ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu, rhoi'r doethineb i'r awdurdod trwyddedu osod amodau sy'n debyg i'r rheiny yn adran 19 Deddf 2003 lle bo angen er mwyn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

Dewis 3: (a) Caniatáu i ddeiliaid trwydded mangre perthnasol (neu ddarpar ddeiliaid trwydded mangre) i wneud cais i ddatgymhwyso'r ddau amod gorfodol (sy'n ofynnol gan adran 19 Deddf Trwyddedu 2003 ar hyn o bryd) yn ymwneud â deiliaid trwydded bersonol a goruchwylwyr dynodedig mangre mewn perthynas â thrwyddedau mangre sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol mewn neuaddau pentref, neuaddau eglwys, neuaddau capel a mangreoedd tebyg. (b) Lle caiff cais ei ganiatáu, rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodi pob gwerthiant alcohol yn y fangre i ddeiliad y drwydded mangre. (c) Yn dilyn unrhyw adolygiad gan yr awdurdod trwyddedu o drwydded mangre felly am resymau'n ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu, rhoi'r doethineb i'r awdurdod trwyddedu osod amodau sy'n debyg i'r rheiny yn adran 19 Deddf 2003 lle bo angen er mwyn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. (**Y dewis sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth).**

Dewis 4: Dim newid.

Yn gyffredinol roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno gyda chynnig y Llywodraeth i dynnu'r gofyniad am GDM a deiliad trwydded bersonol i neuaddau pentref a mangreoedd cymunedol tebyg. Dim ond 14 (12%) oedd o'r farn na ddylai fod unrhyw newid. (dewis 4).

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dewis sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth - dewis 3.

Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad hefyd yn cefnogi :

- **diffiniad y Llywodraeth o'r mangreoedd cymunedol sy'n dod o fewn y cynigion ac mai mater i'r awdurdodau trwyddedu fyddai penderfynu pa fangreoedd unigol yw cynnwys;**
- **y dylai'r cynnig gynnwys mangre yn unig sydd â rheolaeth ffurfiol neu bwyllgor gweithredol ac mai mater i'r awdurdodau trwyddedu fyddai penderfynu hyn; a**
- **bod dewis 3 yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a buddiannau'r rhai sydd wedi eu heffeithio'n niweidiol gan y cynnig ac nad yw dewis 3 yn tynnu unrhyw diogelwch y cyhoedd yn ddiangen.**

Pa bryd y bydd y polisi'n cael ei adolygu i ddarganfod y costau a'r buddion gwirioneddol a'r graddau y cyflawnwyd yr effeithiau a ddeisyfir? Gaeaf 2011, tair blynedd ar ôl ei gweithredu.

Cymeradwyaeth y Gweinidog

Rwyf wedi darllen yr Asesiad o'r Effeithiau ac rwyf yn fodlon ei fod, yn wyneb y dystiolaeth sydd ar gael, yn cynrychioli barn resymol o gostau, buddion ac effaith debygol y dewisiadau amlycaf.

Arwyddwyd gan y Gweinidog â Chyfrifoldeb:

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth	
Dewis Polisi:	Disgrifiad: y cynnig i dynnu'r gofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig mangre a deiliad trwydded bersonol ar gyfer mangre gymunedol

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL

Untro (Trawsnewid)

£ 0

Cost Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio cost untro)

£ 0

Disgrifiad a graddfa **costau ariannol allweddol** gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Cyfanswm Cost (PV) **£ 0**

Costau eraill allweddol nad ydynt yn rhai ariannol gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Efallai bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu ofyn am eglurder gan ymgeiswyr gwirioneddol er mwyn sicrhau bod y fangre gymunedol yn cael ei rheoli'n briodol. Fodd bynnag, byddai'r costau ymylol mewn perthynas â chais am drwydded mangre newydd neu amrywiadau i drwydded mangre bresennol yn fach ac yn cael eu pasio ymlaen i'r ymgeisydd trwy gyfrwng ffi sy'n daladwy i'r awdurdod trwyddedu.

BUDDION

BUDDION BLYNYDDOL

Untro (Trawsnewid)

£

Cost Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio cost untro)

£ 0.2m

Disgrifiad a graddfa **buddion ariannol allweddol** gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai yno arbedion cost posib o hyd at £273 yn y gost o gyflwyno cais i'r neuaddau pentref a chymuned hynny sydd am gael trwydded mangre sy'n caniatáu gwerthu alcohol.

	Mangre 'Mewn Peryg'	Mangre gyda thrwydded alcohol
Arbedion Posib (PV dros gyfnod 10 mlynedd)	£901,351	£784,221

Cyfanswm Buddion (PV) **£ 1.7m**

Buddion eraill allweddol nad ydynt yn rhai ariannol gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Ni fyddai gofyn i unrhyw berson unigol (gwirfoddolwr fel arfer) i gymryd cyfrifoldeb GDM. Mwy o hyblygrwydd i'r rhai sy'n cael trwydded mangre lawn (lleihau dibyniaeth ar hysbysiadau digwyddiad dros dro).

Rhagdybiaethau/Sensitifrwydd/Risgiau allweddol Mae amcangyfrifon o'r 'mangreoedd mewn risg' a'r rheini gyda thrwydded alcohol wedi cael eu hallosod o arolygon gan gyrff eraill ynghylch y nifer o neuaddau pentref a chymunedol.

Blwyddyn Sail Pris Blwyddyn	Cyfnod amser Blynyddoedd	**Ystod Buddion Net** (NPV) **£**	**BUDD NET** (Amcangyfrif gorau NPV) **£**

Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/dewis?	Cymru a Lloegr
Ar ba ddyddiad y gweithredir y polisi?	Gwanwyn 2008
Pa sefydliad(au) a fydd yn gorfodi'r polisi?	Awdurdodau Trwyddedu
Beth yw cyfanswm cost flynyddol gorfodi i'r sefydliadau hyn?	£ 0 (ffioedd)
A yw'r broses o orfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?	Ydyw

A fydd gweithredu'n mynd y tu hwnt i leiafswm gofynion yr UE?			Na fydd	
Beth yw gwerth y mesur arfaethedig i osod yn erbyn bob blwyddyn?			£ ddim ar gael	
Beth yw gwerth y newidiadau mewn allyriadau nwyon ty gwydr?			£ ddim ar gael	
A fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar y gystadleuaeth?			Na fydd	
Cost flynyddol (£-£) fesul corf/mudiad (heb gynnwys cost untro)	Meicro **0**	Bach **0**	Canolig **0**	Mawr **0**
A yw unrhyw un o'r cyrff hyn yn eithriedig?	Na	Na	Ddim ar gael	Ddim ar gael

Effaith ar Waelodlin Beichiau Gweinyddol (Prisiau 2007)				(Cynnydd - Gostyngiad)
Cynnydd o	£ 0	Cynnydd o	£ 200,000	Cynnydd o £ -200,000

Allwedd: **Costau a Buddion Blynyddol: Prisiau Cyson** | **Gwerth Presennol (Net)**

Sail Dystiolaeth (ar gyfer taflenni crynodeb)

[Defnyddiwch y gofod hwn (gydag uchafswm a argymhellwyd o 30 tudalen) i ddatgan y dystiolaeth, dadansoddiad a'r naratif manwl yr ydych wedi eu defnyddio fel sail i'r dewisiadau neu gynnig polisi. Sicrhewch fod yr wybodaeth wedi cael ei threfnu yn y fath fodd fel ag i esbonio'n glir yr wybodaeth gryno ar dudalennau blaenorol y ffurflen hon.]

Y Baich - Cefndir

Mae Adran 19 o Ddeddf Drwyddedu 2003 yn darparu bod, lle bo trwydded mangre'n awdurdodi cyflenwi alcohol, yn rhaid i'r drwydded gynnwys dau amod.

- Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi dim alcohol o dan y drwydded mangre:
  - ar adeg pan na fo 'goruchwyliwr dynodedig mangre' mewn perthynas â'r drwydded mangre;
  - nac ar adeg pan nad yw'r goruchwyliwr dynodedig mangre'n dal trwydded bersonol neu pan fo'i drwydded bersonol wedi cael ei gohirio.
- Yr ail amod yw bod yn rhaid i bob cyflenwad o alcohol o dan y drwydded mangre gael ei wneud gan berson sy'n dal trwydded bersonol.

Cynnig y Llywodraeth

Y cynnig yw bod Deddf 2003 yn cael ei diwygio fel bod trwyddedau mangre a ddelir gan neuaddau pentref, neuaddau eglwysi, neuaddau capeli, neuaddau cymunedol a mangreoedd cymunedol tebyg yn cael eu heithrio o'r ddau amod gorfodol a ddisgrifir uchod.

Byddai'r Ddeddf yn cael ei diwygio hefyd fel bod y cyfrifoldeb dros awdurdodi gwerthu alcohol yn disgyn ar ddeiliad y drwydded mangre, a allai fod, er enghraifft, yn bwyllgor y neuadd bentref ar y cyd. Byddai hyn yn golygu na fyddai rhaid i aelod o'r mudiadau sy'n defnyddio'r fangre ar gyfer gwerthu alcohol gaffael trwydded bersonol.

Cyhoeddodd y Llywodraeth, mewn datganiad ysgrifenedig Gweinidogaethol ym mis Gorffennaf y 2006, fwriad y Llywodraeth i weithio ar y cynigion hyn ar gyfer ystyriaeth Seneddol yn amodol ar ganlyniad ymgynghori cyhoeddus.

Y Baich – Costau

Trwyddedau Personol

Rhaid i ymgeiswyr am drwyddedau personol:

- gwblhau'r ffurflenni angenrheidiol – a amcangyfrifir i gymryd 1 awr;
- ymgeisio a thalu am drwydded sy'n datgelu cofnod troseddol yr unigolyn, neu'r ffaith nad oes ganddo un, at gost o £20 oddi wrth *Disclosure Scotland;*
- talu ffi o £37;
- mynychu cwrs am un diwrnod – a amcangyfrifir i fod yn 6 awr; a
- thalu cost o £150 ar gyfartaledd am y cwrs.

Gan ddefnyddio amcangyfrif y BRE ar gyfer cost awr o waith gwirfoddolwr fel £9.48, amcangyfrifir cyfanswm y gost o ennill trwydded bersonol i fod tua £273.

Trwyddedau Mangre.

Mae ffioedd ymgeisio a ffioedd blynyddol ar gyfer mangreoedd trwyddedig wedi eu seilio ar fand gwerth trethiannol annomestig y fangre. Mae'r mwyafrif o neuaddau pentref a chymunedol a mangreoedd tebyg yn debygol o fewn ym Mand A a band B. O dan y Ddeddf Drwyddedu, y ffioedd yw:

Band A

Ffi ymgeisio: £100 Ffi flynyddol: £70

Band B

Ffi ymgeisio: £190 Ffi flynyddol: £180

Nid oes unrhyw ffioedd yn daladwy ar gyfer trwyddedau mangre sy'n caniatáu adloniant rheoledig yn unig (dim alcohol) mewn neuaddau eglwysi, neuaddau capeli neu adeiladau eraill tebyg, neu neuaddau pentref, plwyf neu gymunedol, neu ysgolion neu golegau (i ddibenion y sefydliad addysg).

Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (TENs)

Mae'r rhain yn gymwys ar gyfer digwyddiadau o hyd at 96 awr ac ar gyfer uchafswm o 499 o bobl. Cyfyngiad o 12 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ym mhob mangre, hyd at uchafswm o 15 diwrnod y flwyddyn. Mae pob Hysbysiad o'r fath yn costio £21.

Pwy y mae'r baich yn effeithio arnynt

Mae'r rhagdybiaethau a wneir isod yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ynghylch potensial y costau beichiau i neuaddau pentref a neuaddau cymunedol a mangreoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr.

Darganfu arolwg a gyhoeddwyd yn 1997 gan Paul Marriott ar gyfer *Community Matters* fod tua 18,800 o adeiladau cymunedol, megis neuaddau pentref a neuaddau cymunedol a chanolfannau cymunedol yn rhannau gwledig a heb fod yn wledig o Gymru a Lloegr. Amcangyfrifodd adroddiad Marriott fod mwy na thraean o'r rhain yn neuaddau cymuned, chwarter yn ganolfannau cymunedol ac un o bob deuddeg yn adeiladau eglwys. Yn fwy diweddar, mae Action with Communities in Rural England (ACRE) wedi amcangyfrif fod tua 8,900 o neuaddau pentref mewn ardaloedd gwledig yn Lloegr.

Mae ymchwil a wnaed gan ACRE yn dangos fod dros 90 y cant y neuaddau pentref mewn ardaloedd gwledig yn Lloegr wedi caffael trwyddedau mangre sydd wedi bod mewn grym ers 24 Tachwedd 2005. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif llethol o'r trwyddedau hyn wedi eu cyfyngu i ddarparu adloniant rheoledig a dim ond traean o'r trwyddedau mangre sy'n awdurdodi adwerthu alcohol. Awgryma hyn fod y mwyafrif o

neuaddau pentref a mangreoedd tebyg yn dibynnu ar Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro, a gyfyngir i 12 rhybudd i bob mangre mewn blwyddyn galendr, ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys gwerthu alcohol.

'Mangreoedd mewn perygl'

Dangosodd ymchwil ACRE fod tua 20% o'r neuaddau pentref yn yr arolwg nad oes ganddynt unrhyw drwydded i werthu alcohol mewn perygl o fynd y tu hwnt i'w cyfyngiad o Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (Hysbysiadau) o ran y nifer o ddigwyddiadau sy'n cynnwys gwerthu alcohol. Er bod hyn wedi'i seilio ar sampl fechan o neuaddau pentref, pe bai hyn yn cael ei allosod i gyfanswm amcangyfrif ACRE o neuaddau pentref, awgrymai hyn y gallai fod tua 1,200 (20% o'r tua 6,000 o neuaddau pentref sydd heb drwydded alcohol) o neuaddau pentref yn Lloegr yn unig mewn perygl o fethu â chynnal yr holl weithgareddau y mae galw amdanynt. Os gwneir rhagdybiaethau tebyg gyda ffigyrau Marriott, o ran y gyfran o fangreoedd cymunedol sydd heb drwydded i werthu alcohol ac sy'n debyg o fynd y tu hwnt i'w cyfyngiad Hysbysiadau, yna byddai'r nifer tua 2,500. Mewn gwirionedd, mae rhai o'r mangreoedd a gynhwysir yn ffigwr Marriot (megis neuaddau pentref ac adeiladau cymunedol eraill tebyg) yn llai tebygol na neuaddau pentref o fod eisiau caniatáu gwerthiannau alcohol, felly mae gofyn i'r rhif cyfanswm gael ei addasu ar i lawr yn unol â hynny. Amcangyfrifwn felly ystod o gwmpas tua 2,000 o fangreoedd a fyddai fwyaf tebygol i ystyried ymgeisio am drwydded mangre sy'n caniatáu gwerthu alcohol petai'r dewisiadau'n cael eu derbyn.

Trwy dynnu'r gofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig mangre (Goruchwyliwr) a deiliad trwydded bersonol ar gyfer mangre o'r fath (amcangyfrifwyd y gost uchod i fod yn £273) yna gallai'r potensial am arbediad cychwynnol fod tua £546,000 (2,000 x £273). Yn ogystal ag arbed wrth wneud cais, fe fyddai arbediad bob tro y byddai'r Goruchwyliwr yn newid. O wneud amcangyfrif ceidwadol y byddai o leiaf un newid ar gyfartaledd o ran pwy yw'r Goruchwyliwr (er enghraifft os yw gwirfoddolwr yn rhoi'r gorau iddi neu'n gadael y pentref) mewn cyfnod o 10 mlynedd (uchafswm hyd trwydded bersonol) yna byddai'r potensial am arbedion pellach yr un fath â'r arbediad cychwynnol (sef £546,000). Fe fyddai potensial felly i arbed cyfanswm o £1,092,000 dros gyfnod 10 mlynedd (£546,000 x 2) sydd yr un fath ag arbediad cyfartalog o £109,200 y flwyddyn.

Neuaddau pentref a chymunedol sydd eisoes â thrwydded mangre i werthu alcohol

Ar ben hyn, gallai neuaddau pentref a chymunedol sydd eisoes â thrwydded mangre i ganiatáu gwerthu alcohol ddymuno cymryd mantais o'r trefniadau newydd. Yn ôl arolwg ACRE, mae tua 2,400 o neuaddau pentref a chanddynt drwyddedau alcohol yn Lloegr. Os gwneir rhagdybiaethau tebyg gyda ffigyrau Marriot, o ran y gyfran o fangreoedd cymunedol sydd â thrwydded i werthu alcohol, yna byddai'r nifer tua 5,000 o fangreoedd. Fel gyda'r uchod, ni fydd y cyfan o'r mangreoedd a gynhwyswyd yn amcangyfrif Marriot (megis neuaddau eglwysi ac adeiladau cymunedol eraill tebyg) â chymaint o angen gwerthu alcohol â neuaddau pentref, felly fe fydd y nifer uwch hwn yn debygol o fod yn is. Rydym felly'n amcangyfrif y gallai'r nifer o fangreoedd a fydd fwyaf tebygol o elwa o drwydded mangre sy'n caniatáu gwerthu alcohol (ond heb GDM neu ddeiliad trwydded bersonol) fod o gwmpas 4,000.

Trwy dynnu'r gofyn am GDM a deiliad trwydded bersonol (amcangyfrifwyd y gost i fod tua £273) yna byddai'r potensial am arbediad ar gyfer pob cyfnod 10 mlynedd (hyd trwydded bersonol) tua £1,092,000 (4,000 x £273) neu tua £109,200 y flwyddyn. Mae hyn ar sail ragdybiaeth geidwadol na fyddai (ar gyfartaledd) ddim mwy nag un newid wedi bod yn y Goruchwyliwr dros y cyfnod o 10 mlynedd.

Gostyngiadau posib mewn arbedion

Mae yno bosibilrwydd y gellid ychwanegu'r gofyniad am GDM i drwydded mangre, yn dilyn adolygiad, a chost ychwanegol o'r herwydd, ac ychydig o dystiolaeth sydd gennym i ddangos pa mor aml y byddai hynny'n digwydd. Awgrymodd arolwg byr a gynhaliwyd gan DCMS yn 2006, yn gyffredinol, bod tua 0.3% o'r holl fangreoedd wedi cael adolygiad o'u trwyddedau yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn trefn newydd yn cael ei gweithredu. Mae adolygiad yn caniatáu cymryd nifer o gamau gweithredu i ddelio â phroblemau sy'n codi ac os yw trwydded neuadd bentref neu neuadd gymunedol yn cael ei hadolygu, nid oes sicrwydd o gwbl mai ailosod y gofyniad am GDM fyddai'r canlyniad. Os rhagdybiwn y byddai 1% o drwyddedau neuaddau yn cael eu hadolygu dros gyfnod o 10 mlynedd a bod y gofyniad am GDM yn cael ei ailosod o ganlyniad i hynny, fe allai hynny olygu bod hyd at 60 o allan o 6000 o neuaddau a chyfanswm o £16,380 mewn arbedion posib yn cael eu colli dros y cyfnod 10 mlynedd. Er hwylustod,

rydym wedi rhagdybio y byddai hyn yn cael ei rannu rhwng y ddwy fath o fangre a restrir yn yr asesiad hwn.

Rydym felly yn amcangyfrif y byddai'r arbedion posib yn cael eu lleihau ychydig i £1,083,810 dros 10 mlynedd ar gyfer pob un o'r mathau o fangre.

Yn ychwanegol i'r mangreoedd hynny sydd eisoes â thrwydded sy'n caniatáu gwerthu alcohol, rydym yn rhagweld y byddai'r gost i wneud cais am dynnu'r gofyniad am GDM a deiliad trwydded bersonol (gan ragdybio y byddai'r broses a'r gost yn debyg i'r broses a'r gost presennol ar gyfer amrywio GDM) tua £32.48, yn cynnwys 1 awr o waith i wirfoddolwr. Byddai'r gost ychwanegol yma ar gyfer yr amcangyfrif o 4,000 o fangreoedd yn golygu lleihad o tua £129,920 yn yr arbedion posib dros 10 mlynedd gan eu gwneud yn £953,890. Gellid lleihau'r arbedion posib ymhellach pe bai'r cais yn denu sylwadau a gwrthwynebiad ac yn cael ei wrthod mewn gwrandawiad. Fodd bynnag, gellir delio â phryderon mewn ffyrdd eraill, felly mae'n anodd amcangyfrif faint o geisiadau fyddai'n aflwyddiannus wrth dynnu'r GDM (o'i gymharu â chanlyniadau eraill). Os rhagdybiwn yr un lefel â'r hyn a welir mewn adolygiadau trwydded uchod (1%), byddai hyn yn golygu lleihad mewn arbedion o £10,920.

Felly, fe allai'r cyfanswm arbedion cyffredinol o dan y cynnig hwn gyrraedd £2,026,780 dros 10 mlynedd neu £202,678 y flwyddyn. Yn nhermau Gwerth Presennol (gan addasu ar gyfer yr amser sy'n cael ei ffafrio trwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5%) mae hyn yn gwneud cyfanswm o £1,685,572 dros y cyfnod 10 mlynedd.

Materion Eraill

Mae'r Llywodraeth o'r farn na ddylai tynnu'r gofyniad am GDM/trwydded bersonol fod yn hawl awtomatig, ond yn hytrach yn destun proses ymgeisio a fyddai'n caniatáu gwrthwynebiad gan yr heddlu (er enghraifft ar sail trosedd ac anhrefn) a gwrthwynebiadau gan bartïon sydd â diddordeb megis trigolion lleol. Fe allai hyn o bosib ganiatáu cyfyngu'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys o dan y drwydded mewn mangre unigol ac ychwanegu amodau priodol (er enghraifft gwneud cytundebau llogi cywir yn ofynnol) cyn tynnu'r gofyniad am GDM/trwydded bersonol. Mae'r Llywodraeth o'r farn ei fod yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng llacio'r gofynion ar gyfer neuaddau pentref fel eu bod yn gallu ymateb i anghenion cymunedau lleol, ond wrth wneud hynny, sicrhau mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb ar gyfer rheoli'r neuadd.

Asesu Cystadleuaeth

Mae Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain a'r *Federation of Licensed Victuallers Association* wedi awgrymu y gallai fod materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth lle bo neuadd bentref yn dechrau gwerthu alcohol yn fwy rheolaidd ac mewn gwirionedd yn cystadlu â thafarnau gwledig. Er bod hyn eisoes yn bosibilrwydd damcaniaethol, mae'n amhosibl darogan pa mor aml y gallai hyn fod yn *wir o ganlyniad i'r cynigion hyn.* Mae trafodaethau gyda chynrychiolwyr neuaddau pentref yn awgrymu nad oes gan y mwyafrif o neuaddau pentref ddiddordeb mewn gweithredu fel hyn. Ar ben hyn, mae'n ofynnol mewn unrhyw gais am ganiatâd i werthu alcohol i amserlen weithredu gael ei chwblhau sy'n dangos y math o weithgaredd a drwyddedir a'i fynychder. Gall partïon â diddordeb, megis busnesau lleol a'r heddlu gyflwyno sylwadau yn erbyn ceisiadau o'r fath. Er nad yw materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth yn amcanion trwyddedu, mae'r gofynion Goruchwyliwr Dynodedig mangre/trwydded bersonol yno i raddau helaeth fel cydnabyddiaeth o'r potensial i werthiant alcohol arwain at droseddu ac anhrefn, gan gynnwys gwerthu i blant. Y sail resymegol dros dynnu'r gofyniad hwn oddi wrth neuaddau pentref a chymunedol yw bod eu gweithgareddau'n cynnwys llai o risg gan eu bod yn cael eu goruchwylio gan bwyllgor rheoli ac nid oes ganddynt yr un lefel o fudd masnachol mewn adwerthu alcohol i'r cyhoedd. Fe fyddem yn disgwyl y byddai unrhyw gais am werthu alcohol a fyddai, mewn gwirionedd, yn golygu bod y fangre gymunedol yn gweithredu fel allfa fasnachol, yn amodol i'r craffu angenrheidiol a'r ystyriaeth ofalus iawn a roddid cyn y byddai'r gofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig mangre'n cael ei dynnu. O dan yr hyn a ffafrir gan y Llywodraeth, sef Dewis 3, y byddai'r amddiffyniad gryfaf. Ni chredwn felly fod y polisi arfaethedig yn debygol o godi unrhyw bryderon yn ymwneud â chystadleuaeth gan na fydd yn cyfyngu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar y nifer na'r amrywiaeth o gyflenwyr, yn cyfyngu ar allu'r cyflenwyr i gystadlu nac yn lleihau cymhellion cyflenwyr i gystadlu'n egnïol.

Prawf effaith ar gwmnïau bach

Caiff mangreoedd pentref a chymunedol eu rhedeg yn gyffredinol gan gyrff cyhoeddus neu fel elusennau ac ni chredwn ei bod hi'n debygol y bydd effaith sylweddol ar fusnesau bach. I'r graddau y gallai unrhyw rai o'r mangreoedd y mae'r cynigion hyn yn berthnasol iddynt fod yn fusnesau, ni all yr effaith ond bod yn un o leihau baich a galluogi mwy o hyblygrwydd. Yn ogystal â thrafod y cynigion hyn yn fanwl gyda mudiadau sy'n cynrychioli mangreoedd pentref a chymunedol, mae swyddogion wedi cael trafodaethau anffurfiol byr i ganfod barn cyrff sy'n cynrychioli busnesau sy'n ymwneud â gwerthu alcohol. Eu diddordeb hwy oedd a fyddai'r cynigion hyn yn arwain at faterion yn ymwneud â chystadleuaeth i dafarnau bach, yn hytrach nag effaith y newidiadau hyn yn uniongyrchol ar fusnesau bach yn eu sector (gweler uchod).

Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler yr atodiad amgaeedig (tudalen 79) sy’n asesu effaith posibl y cynnig ar feysydd cydraddoldeb yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Oedran, Anabledd, Rhyw, Hil, Crefydd neu gred, a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Profi Gwledig

Trwy’r holl waith o ddatblygu, gweithredu a monitro Deddf Trwyddedu 2003 rydym wedi cysylltu â grwpiau sy’n cynrychioli buddiannau gwledig. Gofynnwyd i *Action with Communities in Rural England* (ACRE) gynrychioli buddiant gwledig ar Grwp Lefel Uchel y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o randdeiliaid allweddol, ac mae wedi bod yn rhan o grwpiau gwaith eraill gan gynnwys y Fforwm Cerddoriaeth Byw*.* Penodwyd un o uwch-swyddogion y Comisiwn dros Gymunedau Gwledig fel aelod o’r Panel Adolygu Ffioedd annibynnol ac roedd y deg Cyngor Craffu’n cynnwys awdurdod lleol a oedd yn wledig yn bennaf.

Mae’r cynnig hwn wedi cael ei dynnu ymlaen o ganlyniad i’n cysylltiad parhaus gyda chynrychiolwyr o gymunedau gwledig. Wrth lunio’r cynigion penodol hyn, mae swyddogion wedi bod yn cysylltu’n agos â ACRE, Community Matters a DEFRA. Maent hefyd wedi cael trafodaethau cyn-ymgynghori gydag awdurdodau lleol a’r heddlu ac wedi siarad yn y Fforwm Neuaddau Pentref a’r Rhwydwaith Adeiladau Cymunedau Gwledig*.*

<u>Sgrinio Asesiad Effaith ar Iechyd</u>

Rydym wedi ymgymryd â phroses sgrinio i bennu a oes angen i'r polisi yma gynnal asesiad effaith cyflawn ar iechyd. O gofio bod y bwriad ond yn cynnig newid posib i gyfrifoldeb mangre trwyddedig o un unigolyn dynodedig i grwp o bobl (e.e. pwyllgor neuadd bentref) ac nad yw fel arall yn newid unrhyw elfen arall o'r polisi trwyddedu, nid ydym o'r farn bod angen asesiad effaith ar iechyd.

Rydym o’r farn na fydd y polisi yn:

cael effaith sylweddol ar iechyd dynol yn rhinwedd ei effeithiau ar y penderfynyddion iechyd ehangach yma : Incwm, Troseddu, Yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Tai, Addysg, Cyflogaeth, Amaethyddiaeth neu Gydlynedd cymdeithasol.

cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r newidynnau canlynol sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw: Gweithgaredd corfforol, Deiet, Ysmygu, Cyffuriau neu ddefnyddio alcohol, Ymddygiad rhywiol, Damweiniau a straen yn y cartref neu yn y gwaith.

gosod gofyniad sylweddol ar unrhyw un o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol canlynol: Gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, Gofal ysbyty, Angen am feddyginiaethau, Presenoldeb mewn damweiniau neu achosion argyfwng, Gwasanaethau cymdeithasol, Amddiffyn iechyd a pharodrwydd ymateb

Profion Effeithiau Penodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos pa mor eang yr ystyriwch y bydd effeithiau potensial eich dewisiadau polisi.

Sicrhewch fod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar ddadansoddiad cost a budd yn cael eu cynnwys o fewn y brif sail tystiolaeth; gellir ychwanegu canlyniadau eraill.

Math o brofi a wnaed	***Canlyniadau yn y Sail Tystiolaeth?***	***Canlyniadau wedi'u hychwanegu?***
Asesiad Cystadleuaeth	Ydynt	Nac ydynt
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach	Ydynt	Nac ydynt
Cymorth Cyfreithiol	Nac ydynt	Nac ydynt
Datblygu Cynaliadwy	Nac ydynt	Nac ydynt
Asesiad Carbon	Nac ydynt	Nac ydynt
Amgylcheddol Arall	Nac ydynt	Nac ydynt
Asesiad Effaith ar Iechyd	Ydynt	Nac ydynt
Cydraddoldeb Hiliol	Ydynt	Ydynt
Cydraddoldeb i Bobl Anabl	Ydynt	Ydynt
Cydraddoldeb Rhywiol	Ydynt	Ydynt
Hawliau Dynol	Nac ydynt	Nac ydynt
Profi Gwledig	Ydynt	Nac ydynt

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb – Sgrinio Cychwynnol

Adran	**Nodiadau**
1. Enw'r swyddogaeth/polisi i gael ei asesu: **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio posibl i dynnu'r gofyniad am Oruchwyliwr Dynodedig mangre ar gyfer mangre gymunedol o dan Ddeddf Drwyddedu 2003.**	
2. Beth yw nod, amcan neu ddiben y polisi? **Tynnu'r rhwystr posibl i neuaddau pentref a mangreoedd cymunedol tebyg rhag gwneud cais am drwydded mangre sy'n caniatáu gwerthu alcohol.**	
3. Beth yw'r canlyniadau a fwriedir? **Gall rhagor o neuaddau pentref ayb. wneud cais am drwydded sy'n caniatáu gwerthu alcohol yn y fangre os yw rhwystr posibl yn cael ei dynnu. Gallai hyn gynnwys y rhai a allai fod mewn perygl o beidio â gallu cynnal yr holl weithgareddau y mae galw amdanynt.**	*Ystyriwch:* • ***Sut fyddwch chi'n monitro tuag at y canlyniadau hyn?*** • ***A yw'r canlyniadau'n cefnogi neu'n llesteirio polisïau, gwerthoedd neu amcanion eraill o fewn yr Adran?*** • *Os ydynt yn llesteirio gwaith arall a ellir cyfiawnhau hyn?*
4. Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol? **Y rhai hynny sy'n cynrychioli buddiannau neuaddau pentrefi a neuaddau cymunedol gan gynnwys ACRE a Community Matters, y rhai sy'n ymwneud â gweithredu polisi trwyddedu gan gynnwys LACORS a'r Gymdeithas Lywodraeth Leol, a'r rhai hynny sy'n ymwneud â gorfodi'r Ddeddf Drwyddedu megis ACPO.**	• *Pwy yw'r grwpiau/unigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y swyddogaeth neu bolisi?* • *Pwy arall allai fod â budd sylweddol yng ngweithredu'r polisi hwn?* • *Pwy arall allai fod â gwybodaeth am effaith neu effaith bosibl y polisi neu swyddogaeth?*
5. A yw nod y polisi neu unrhyw un o'i ganlyniadau a fwriedir wedi eu cynllunio'n benodol i gyflawni'r Dyletswyddau Cyhoeddus, er enghraifft: ➢ Dileu gwahaniaethu? ➢ Hyrwyddo Cyfle Cyfartal?	• *Er enghraifft, polisi sydd â'r nod o atal aflonyddu a bwlig* • *Os mai'r ateb yw **YDYNT** i unrhyw un o'r cwestiynau, yna fe fydd gofyn ichi fynd*

➢ Hyrwyddo perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau? **NA** *[Ni fydd y mwyafrif o swyddogaethau, polisïau ac arferion wedi cael eu cynllunio'n **benodol** i gyflawni'r Dyletswyddau Cyhoeddus. Nid oes ond angen ichi ateb **'ydynt'** os mai **bwriad penodol** y swyddogaeth, polisi neu arfer yw cyflawni'r dyletswyddau cyhoeddus. Fel arall, symudwch ymlaen i adran 6]*	*ymlaen i asesiad effaith llawn. Dylech droi at adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 7-12 yn eich helpu chi i gynnal asesiad llawn*

6. A yw'r swyddogaeth neu bolisi'n ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd neu â staff a gyflogir gan yr adran, neu'n effeithio arnynt? **YDYW**	• *Os mai'r ateb yw **YDYW** ewch ymlaen i adran 7* • *Os mai'r ateb yw **NA** rhestrwch y dystiolaeth neu'r cyfiawnhad arall gyferbyn neu arall daflen amgaeedig sy'n dangos pam na fydd y polisi'n effeithio ar aelodau o'r cyhoedd neu ar staff a gyflogir gan yr Adran* • *Os yw'r dystiolaeth sydd gennych yn dangos nad oes unrhyw effaith nac effaith debygol ni fydd angen ichi gynnal asesiad effaith ond fe fydd angen ichi fonitro gweithredu'r polisi dros amser er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i beidio â chael unrhyw effaith ar bobl. Fel isafswm, dylai hyn fod bob tair blynedd* • *Os ydych yn sicr mai'r ateb yw **NA**, ewch ymlaen i adrannau 13 a 14*
7. A oes unrhyw dystiolaeth sy'n dweud wrthych sut mae'r swyddogaeth neu bolisi'n gweithio neu sut y bwriedir iddo weithio dros y rhanddeiliaid arfaethedig? **OES** **Yn ôl ymchwil ACRE, mae'r gofynion presennol o ran trwydded mangre i ganiatáu gwerthu alcohol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn golygu fod nifer o neuaddau pentref yn Lloegr mewn perygl o beidio â gallu ymgymryd â'r cyfan o weithgareddau y mae galw amdanynt. Mae ACRE wedi darganfod mai un o'r rhwystrau i neuaddau pentref**	• *Os nad oes gennych ddim tystiolaeth ar gael, yna **ni fyddwch yn gallu asesu a yw'r polisi'n berthnasol i gydraddoldeb*** • *Fe fydd angen ichi gasglu tystiolaeth ynghylch effeithiau'r polisi ar randdeiliaid. (Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at adran 2 o'r nodiadau canllaw ar gasglu tystiolaeth)* • *Dylech hefyd ystyried ymgynghori â*

rhag gwneud cais am drwydded mangre yw amharodrwydd unigolyn, fel arfer gwirfoddolwr, i gymryd y cyfrifoldeb o fod yn Oruchwyliwr Dynodedig mangre. Mae hefyd oblygiad cost yn y gofyniad am ddeiliad trwydded bersonol i awdurdodi gwerthu alcohol (gan gynnwys hyfforddiant a gwirio cofnodion troseddol). Byddai cynnig y RRO yn ceisio lleihau'r beichiau hyn ar neuaddau pentref a mangreoedd cymunedol tebyg sy'n dymuno gwneud cais am drwydded mangre i werthu alcohol.

grwpiau rhanddeiliaid a chynnwys pobl anabl ar y cam hwn (Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at adran 5 ar ymgynghori a chynnwys)

- *Pan fyddwch chi wedi casglu tystiolaeth o effeithiau'r polisi ar y rhanddeiliaid arfaethedig, gellwch wedyn symud ymlaen gyda'r sgrinio cychwynnol*
- *Dylech sicrhau bod y camau angenrheidiol ar gyfer casglu'r dystiolaeth yn cael eu nodi mewn cynllun gweithredu*

8. O'r dystiolaeth sydd ar gael, a oes unrhyw reswm dros gredu fod pobl yn cael eu heffeithio'n wahanol neu'n debygol o gael eu heffeithio'n wahanol yn ôl unrhyw un o'r meysydd cydraddoldeb a restrir, er enghraifft, oherwydd bod ganddynt wahanol anghenion neu flaenoriaethau?

	Oes	**Nac oes**	**Anhysbys**		**Oes**	**Nac oes**	**Anhysbys**
Oedran		**X**		Hil		**X**	
Anabledd		**X**		Crefydd neu Gred		**X**	
Rhyw		**X**		Tueddfryd Rhywiol		**X**	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid yw ymchwil ACRE ar fater trwyddedu a neuaddau pentref (sydd ar gael ar eu gwefan) na thrafodaethau gyda hwy a Community Matters yn awgrymu bod y newid rheoliadol arfaethedig yn debygol o effeithio ar unrhyw un o'r meysydd cydraddoldeb uchod yn wahanol mewn unrhyw ffordd.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 9-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 9*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

9. A oes unrhyw dystiolaeth fod y swyddogaeth neu bolisi mewn unrhyw fodd yn gwahaniaethu, neu'n gallu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl o unrhyw un o'r meysydd a restrir, er enghraifft o ran y gallu i gael at wasanaeth neu fanteisio ar gyfle?

	Oes	**Nac oes**	**Anhysbys**		**Oes**	**Nac oes**	**Anhysbys**
Oedran		**X**		Hil		**X**	
Anabledd		**X**		Crefydd neu Gred		**X**	
Rhyw		**X**		Tueddfryd Rhywiol		**X**	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Fel yn adran 8, nid yw ymchwil ACRE a thrafodaethau gyda hwy a Community Matters yn awgrymu y bydd y newid rheoliadol arfaethedig yn gwahaniaethu yn erbyn pobl yn y meysydd a restrir.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 10-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 10*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

10. A oes unrhyw dystiolaeth fod gan bobl o'r grwpiau a gynhwysir o fewn y meysydd a restrir, neu y gall fod ganddynt, wahanol ddisgwyliadau o'r swyddogaeth neu bolisi o dan sylw?

	Oes	**Nac oes**	**Anhysbys**		**Oes**	**Nac oes**	**Anhysbys**
Oedran		**X**		Hil		**X**	
Anabledd		**X**		Crefydd neu Gred		**X**	
Rhyw		**X**		Tueddfryd Rhywiol		**X**	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 11-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 11*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn*

Fel gydag adrannau 8 a 9, nid yw ymchwil ACRE na Community Matters yn credu y bydd gan unrhyw un o'r grwpiau uchod ddisgwyliadau gwahanol o'r newid rheoliadol arfaethedig.	*ôl at adran 7 uchod*

11. A oes unrhyw dystiolaeth fod y swyddogaeth neu'r polisi'n effeithio neu y gallai effeithio ar y berthynas rhwng grwpiau a gynhwysir yn y meysydd cydraddoldeb, er enghraifft, a yw neu a allai gael ei weld fel petai'n ffafrio unrhyw grwp neilltuol neu'n gwadu cyfleoedd i un arall?

	Oes	**Nac oes**	**Anhysbys**		**Oes**	**Nac oes**	**Anhysbys**
Oedran		**X**		Hil		**X**	
Anabledd		**X**		Crefydd neu Gred		**X**	
Rhyw		**X**		Tueddfryd Rhywiol		**X**	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Fel yn yr achosion uchod, mae trafodaethau gyda ACRE a Community Matters yn awgrymu na fydd y newid rheoliadol arfaethedig yn ffafrio grwp penodol nac yn gwadu cyfleoedd i un arall.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adran 12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 12*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

12. A yw ymgynghoriadau blaenorol gyda grwpiau rhanddeiliaid neu unigolion perthnasol yn awgrymu bod polisïau o'r math hwn yn creu allgau neu'n peri sialensiau penodol i unrhyw un o'r grwpiau a restrir?

	Oes	**Nac oes**	**Anhysbys**		**Oes**	**Nac oes**	**Anhysbys**
Oedran		**X**		Hil		**X**	
Anabledd		**X**		Crefydd neu Gred		**X**	
Rhyw		**X**		Tueddfryd Rhywiol		**X**	

- *Os mai Oes yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13*
- *Os mai'r ateb yw Na a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 13*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol*

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael **Unwaith eto, ni fydd y math o gynnig am newid rheoliadol (sydd er mwyn lleihau'r baich ar neuaddau pentref a neuaddau cymunedol sy'n dymuno gwneud cais am drwydded mangre), yn creu allgau nac yn peri sialensiau penodol i unrhyw un o'r grwpiau a restrir.**	*grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*
13. A oes angen asesiad effaith llawn? **<u>NA</u>** Ni chredwn y bydd y newid rheoliadol arfaethedig yn effeithio mewn ffordd wahanol ar unrhyw un o'r grwpiau o dan y meysydd a restrir. Mater i neuaddau pentref unigol a mangreoedd cymunedol tebyg fyddai hi o hyd i benderfynu gwneud cais neu beidio am drwydded mangre sy'n caniatáu gwerthu alcohol.	• *Os mai'r ateb yw NA defnyddiwch y gofod gyferbyn i grynhoi pam ac amgaewch unrhyw dystiolaeth gefnogol bellach* • *Os mai'r ateb yw OES fe fydd angen ichi drefnu i gynnal asesiad effaith llawn* • *Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr wybodaeth yr ydych eisoes wedi ei nodi yn y sgrinio cychwynnol hwn yn werthfawr ichi wrth gynnal yr asesiad effaith llawn*
14. Os nad oes angen asesiad effaith llawn, nodwch os gwelwch yn dda y cynlluniau i fonitro gweithredu'r polisi hwn dros y tair blynedd nesaf. **Fe fyddwn ni'n gwirio gyda rhanddeiliaid allweddol a yw'r datganiad yn adran 13 yn dal yn wir 12 mis ar ôl deddfiad (yn amodol ar y Senedd) y newid rheoliadol.**	
15. Dychwelwch gopi o'r ffurflen hon os gwelwch yn dda at:	
Enw: David Gookey	
Uned/Cyfarwyddiaeth Tîm Polisi a Gweithredu'r Ddeddf Drwyddedu / Cyfarwyddiaeth Diwydiant	
Dyddiad 14/06/07	

ATODIAD 1: HOLIADURON

Holiadur 1: Mân amrywiadau i drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb

CWESTIWN 1: A ydych yn cytuno bod y Gorchymyn Drafft hwn yn adlewyrchiad cywir o'r broses mân amrywiadau newydd a ddisgrifir ym Mhennod 1 y Ddogfen Ymgynghori hon? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, rhowch fanylion sut y credwch chi y dylid addasu'r Gorchymyn drafft.

CWESTIWN 2: A yw'r Canllawiau drafft hyn yn darparu cyngor digonol i gynorthwyo swyddogion wrth ddod i benderfyniad ynghylch barnu a yw amrywiad yn fân ai peidio? Ydynt/Nac ydynt

Os Nac ydynt, rhowch fanylion ynghylch pa ganllawiau ychwanegol y dylid eu darparu.

CWESTIWN 3: A ydych yn cytuno nad oes angen cymryd unrhyw gamau penodol pe bai awdurdod trwyddedu yn methu ymateb i'r ymgeisydd o fewn y cyfnod amser statudol? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, eglurwch pa gamau y dylid eu cymryd a'r rhesymau am hynny?

CWESTIWN 4: A ydych yn credu bod y ffi arfaethedig yn a) iawn b) rhy isel neu c) rhy uchel?

Os ydych yn credu bod y ffi yn rhy uchel neu'n rhy isel, dylech awgrymu ffigur amgen a rhoi tystiolaeth, yn cynnwys tasgau a gyflawnwyd, amser angenrheidiol i'w cyflawni ar gyfartaledd, a chyfran o'r ymdrech broffesiynol/gweinyddol sy'n berthnasol.

CWESTIWN 5: A ydych yn credu y bydd ymgeiswyr yn gallu cwblhau'r ffurflen hon yn hawdd heb ofyn am gyngor cyfreithiol? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, eglurwch sut y gellid ei gwneud yn fwy hwylus i'r defnyddiwr.

CWESTIWN 6: yw'r ffurflen hon yn darparu digon o wybodaeth er mwyn i swyddog trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn fân ai peidio? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, rhowch fanylion ynghylch pa wybodaeth ychwanegol ddylid ei darparu.

CWESTIWN 7: A ydych yn cytuno gyda'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith yma? Ydwyf/Nac ydwyf.

Os Nac ydwyf, rhowch eich rhesymau a nodwch gostau amgen.

Holiadur 2: Tynnu'r Gofyniad am Oruchwyliwr Mangre Dynodedig

CWESTIWN 1: A ydych yn cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchiad cywir o'r broses newydd a ddisgrifir yn Adran 3, Pennod 1 y Ddogfen Ymgynghorol yma i ganiatáu datgymhwyso amodau gorfodol yn ymwneud â gwerthu alcohol mewn perthynas â mangre gymunedol? Ydwyf/Nac ydwyf

Os Nac ydwyf, a wnewch chi ddisgrifio'n fanwl sut y dylid diwygio'r Gorchymyn drafft yn eich barn chi.

CWESTIWN 2: A yw'r Canllawiau drafft hyn (Adran 3, Pennod 3) yn darparu cyngor digonol i gynorthwyo swyddogion trwyddedu i ddod i benderfyniad ynghylch a yw mangre yn cwrdd â'r gofynion a nodir yn adran 25A(6) arfaethedig Deddf 2003 i ganiatáu datgymhwyso'r amodau gorfodol mewn perthynas â deiliad trwydded bersonol a GDM? Ydi/Nac ydi

Os Nac ydi, a wnewch chi ddisgrifio'n fanwl pa Ganllawiau ychwanegol y dylid eu darparu.

CWESTIWN 3: A ydych yn credu bod y ffi arfaethedig (Adran 3, Pennod 4) yn a) iawn b) rhy isel neu c) rhy uchel?

Os ydych yn credu bod y ffi yn rhy uchel neu'n rhy isel, dylech awgrymu ffigur amgen a rhoi tystiolaeth, yn cynnwys tasgau a gyflawnwyd, amser angenrheidiol i'w cyflawni ar gyfartaledd, a chyfran o'r ymdrech broffesiynol/gweinyddol sy'n berthnasol.

CWESTIWN 4: A ydych yn credu y bydd ymgeiswyr yn gallu cwblhau'r ffurflen hon yn hawdd heb ofyn am gyngor cyfreithiol? Ydwyf/Nac ydwyf.

Os Nac ydwyf, eglurwch sut y gellid ei gwneud yn fwy hwylus i'r defnyddiwr.

CWESTIWN 5: A yw'r ffurflen hon (Adran 3, Pennod 5) yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng darparu digon o wybodaeth er mwyn i swyddog trwyddedu benderfynu a yw neuadd yn fangre gymunedol ac yn meddu ar strwythur rheoli digonol i leihau'r baich ar y sawl sy'n cyflwyno cais? Ydi/Nac ydi?

Os Nac ydi, rhowch fanylion ynghylch pa wybodaeth ychwanegol y dylid ei darparu neu beth ddylid ei eithrio gan egluro'r rhesymau am hynny.

ATODIAD 2: RHESTR YMGYNGHORI

Action in Rural Sussex

Action with Communities in Rural England

Alburgh Village Hall

Alcohol Concern

Aldeburgh

Amber Lounge Ltd

Ardal Milton Keynes

Arts Council in England

Arts Reach

Ashurst McDermott Neuadd Trust

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Association of Circus Proprietors of Great Britain

Association of Inland Navigation Authorities

Awdurdod Lleol Basingstoke and Deane

Awdurdod Llundain Fwyaf

Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr

Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

Awdurdodau Trwyddedu yng Nghymru a Lloegr

Balcombe Cyngor Plwyf

BII

Bletchingley Village Halls Management Committee

Boredon Parish Hall

Braceborough and Wilsthorpe Village Hall

Briningham Village Hall Committee

Buckland Newton Village Hall

Burton Bradstock Village Hall Trust

Busnes mewn Chwaraeon a Hamdden

Bwrdeistref Bracknell Forest

Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydain

Campaign for Real Ale

Carpenters Arms Motel

Catherdrals and Church Buildings Division Church of England

Central Council Amaetur Theatre

Central Council for Physical Recreation

Chinese Takeaway Association UK

Churchgate Area Association

Cinema Exhibitors Association

Circus Arts Forum

Cley Village Hall

Co Durham & Darlington FRS

Comisiwn Cymunedau Gwledig

Comisiwn Elusennau

Comisiwn Gwell Rheoleiddio

Community Council for Staffordshire

Community Lincs

Community Matters

Concert Promoters Association

Consortiwm Adwerthu Prydain

Covent Garden Community Association

Cydffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol

Cyfarwyddiaeth Menter, Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio

Cynghorau Llundain

Cynghrair Siopau Gwledig

Cyngor a Neuadd Plwyf Instow

Cyngor Bwrdeistref Brentwood

Cyngor Bwrdeistref Cheltenham

Cyngor Bwrdeistref Colchester

Cyngor Bwrdeistref Ipswich

Cyngor Bwrdeistref Maidstone

Cyngor Bwrdeistref South Ribble

Cyngor Bwrdeistref Stockton on Tees

Cyngor Bwrdeistref Woking

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Dinas Birmingham

Cyngor Dinas Coventry

Cyngor Dinas Lichfield

Cyngor Dinas Norwich

Cyngor Dosbarth Carrick

Cyngor Dosbarth East Devon

Cyngor Dosbarth Forest Heath

Cyngor Dosbarth Horsham
Cyngor Dosbarth Mid Beds
Cyngor Dosbarth Mid Devon
Cyngor Dosbarth Mid Suffolk
Cyngor Dosbarth Newark & Sherwood
Cyngor Dosbarth North Cornwall
Cyngor Dosbarth Penwith
Cyngor Dosbarth Rochford
Cyngor Dosbarth Rother
Cyngor Dosbarth St Albans
Cyngor Dosbarth Staffordshire Moorlands
Cyngor Dosbarth Suffolk Coastal
Cyngor Dosbarth Tendring
Cyngor Dosbarth Three Rivers
Cyngor Dosbarth Uttlesford
Cyngor Dosbarth Waveney
Cyngor Dosbarth Welwyn Hatfied
Cyngor East Herts
Cyngor Ffilmiau'r Deyrnas Unedig
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Hackney
Cyngor Havering (Trwyddedu)
Cyngor Hinkley & Bosworth
Cyngor Medway
Cyngor North Somerset
Cyngor Plwyf Abbots Langley
Cyngor Plwyf Boxley
Cyngor Plwyf Braunton
Cyngor Plwyf Coxhoe
Cyngor Plwyf Cuckfield
Cyngor Plwyf Elmswell
Cyngor Plwyf Graffham
Cyngor Plwyf Great Barton
Cyngor Plwyf Itchenor
Cyngor Plwyf Newton and Biggin
Cyngor Plwyf Southwater
Cyngor Plwyf Tarleton
Cyngor Plwyf Wigginton
Cyngor Plwyf Wisborough Green
Cyngor Sir South Gloucestershire
Cyngor Tref Attleborough
Cyngor Tref Bodmin
Cyngor Tref Budleigh Salterton
Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod
Cyngor Tref Ferryhill
Cyngor Tref Hatfield
Cyngor Tref Loughton
Cyngor Tref Rye
Cyngor Tref Shildon
Cyngor Tref Thorpe St Andrew
Cyngor Tynedale
Cyngor Wansbeck
Cymdeithas Adloniant Bar a Dawns
Cymdeithas Adwerthwyr Trwyddedaug Lluosog
Cymdeithas Arweinwyr Ysgol a Choleg
Cymdeithas Cenedlaethol Adwerthu a Marchnadoedd Ffermwyr
Cymdeithas Cenedlaethol Cynghorau Lleol
Cymdeithas Cenedlaethol Opera a Drama
Cymdeithas Cenedlaethol y Prifathrawon
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
Cymdeithas Clercod yr Ynadon
Cymdeithas Croesawiaeth a Thai Bwyta Prydain
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
Cymdeithas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Cymdogol
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Cartref Prydain
Cymdeithas Prif Swyddogion Tân
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Cymdeithas Sefydliadau Sioe ac Amaethyddol
Cymdeithas Siopau Hwylus
Cymdeithas Tai Hanesyddol
Cymdeithas Uwch-arolygwyr yr Heddlu
Cymdeithas y Fasnach Gwin a Gwirodydd
Cymdeithas y Plant
Cymdeithas y Sgowtiaid
Cymdeithas yr Ynadon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(DEFRA) Rhwydwaith Adeiladau Cymunedau Gwledig

Dinas Durham

Dinas Llundain

East Sussex Fire and Rescue

Eathorpe Village Hall

English Heritage

Erpingham and Calthorpe Village Hall

Everards

Federation of Irish Societies

Federation of Licensed Victuallers

Federation of Licensed Victuallers (Wales)

Federation of Wholesale Distributors

Ffederasiwn Busnesau Bach

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched

Ffederasiwn Cymdeithas Preswylwyr Preifat

Ffederasiwn Morol Prydain

Ffederasiwn yr Heddlu

Fforwm Cenedlaethol Neuaddau Pentref

Fiskerton Village Hall

Girlguiding UK

Gloucestershire Licensing Officers Group

GT Licensing Consultants

Guild of Bangladeshi Restauranteurs

Guild of Master Victuallers

Gwasanaeth Busnesau Bach

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Hampshire Fire and Rescue

Hanham Folk Centre

Heddlu Gloucestershire

Heddlu Gwent

Heddlu Lancashire

Heddlu North Yorkshire

Hempnall Village Hall Committee

Henry Warren Village Club

Hethersett Village Hall

Independent Schools Council

Interfaith Network

Isle of Wight Fire and Rescue Authority

James Motion

John Birch Licensing Consultant

John Pinnington

King Edward VII Institute Groomberidge Village Hall

Kurt Steinart Levy Solicitors

Licensing Act Active Resident's Network

Licensing Legal

Lincolnshire Fire & Rescue

Lingfield & Dormanslend Community Centre

Little Theatre Guild

Little Waltham Sports and Social Club

London Borough Camden

London Fire Brigade

Lowdham Village Hall and Playing Fields Committee

Margaret Prince

Milton Damerel Parish Hall

NALEO

National Association of Kebab Shops

National Federation of Fish Friers

National Federation of Retail Newsagents

National Rural Touring Forum

New Buckenham Village Hall

NOCTIS (BEDA)

Northumberland Fire and Rescue

Norton Fitzwarren Village Hall Management Committee

Nottinghamshire

Olton Mere Sailing Club

Open all Hours

Oxford Preservation Trust

Pamela Hambro Hall

Passenger Boat Association

Patersons Licensing Acts

Popplestone Allen

Portesham Village Hall

Punch Taverns

Pwyllgor Cymdeithasau Clybiau Cofrestredig

Pwyllgor Rheoli Neuadd Plwyf Llanisien

Rendham Village Hall

Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol

Rhwydwaith Celfyddydau'r Stryd Annibynnol

Rhwydwaith Preswylwyr Gweithredol y Ddeddf Trwyddedu

Rotary International in Great Britain and Ireland

Royal Berks Fire Authority

Royal Yachting Association

Sammonds

Sandford Orcas Village Hall Management Committee

Scarning Village Hall & Estate Trust

Seafarers Sailing Club

Sefydliad Cenedlaethol Cymdeithasau Preswylwyr

Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig

Sefydliad Safonau Masnach

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Sefydliad Trwyddedu

Shropshire FRS

Society of London Theatre and Theatrical Management Association

Soho Society

Speldhurst Village Hall Foundation

Starston Village Hall

Stewart Hillen

Synod Cyffredinol Eglwys Lloegr

T/As Licensing Consultancy Services

Tanworth in Arden Village Hall

Tate

Taylor Semour Arcitects

The Bouverie Hall

The Co-operative Group

The Hub

The Newspaper Society

The Racehouse Association Ltd

The Richmond Society

Thornford Village Hall Management Trustees

Tickenham Village Hall

Toby Cunningham

Toftwood Village Hall Mangement Committee

Tony Bone

Twristiaeth i Bawb

Undeb y Cerddorion

United Kingdom Warehousing Association

Watlington Village Hall

Welbourne Village Hall Events Committee Secretary

Wenhaston Village Hall

West Midlands Fire and Rescue

Westminister Citizens advice

Wig and Mitre Group of Pub-restaurants and Shop

Wilmington Society

Ymddiriedolaeth Cadwraeth yr Eglwysi

Ymgyrch Cenedlaethol y Celfyddydau

Yr Ymddiriedolaeth Ddinesig

Gwahoddir ymatebwyr i gysylltu â ni gydag enwau unrhyw grwpiau rhanddeiliaid eraill a allai gyfrannu sydd heb eu cynnwys ar y rhestr hon.

ATODIAD 3: COD YMARFER Y LLYWODRAETH AR YMGYNGHORIADAU YSGRIFENEDIG

Cynhelir yr ymgynghoriad yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghoriad Ysgrifenedig. Rhestrir y chwe maen prawf ymgynghori yn fras isod, ond gellir cael mwy o wybodaeth ar:

http://www.berr.gov.uk/files/file44364.pdf

Y Chwe Maen Prawf Ymgynghori

- Ymgynghorwch yn eang trwy gydol y broses, gan ganiatáu lleiafswm o 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygu'r polisi.
- Be clear about who may be affected, what questions are being asked and the timescale for Byddwch yn glir ynghylch pwy a all gael eu heffeithio, pa gwestiynau a ofynnir, a'r amserlen ar gyfer ymatebion.
- Sicrhewch fod eich ymgynghoriad yn glir, cryno ac yn hygyrch.
- Rhowch adborth ynghylch yr ymatebion a dderbyniwyd a sut y gwnaeth y broses ymgynghori ddylanwadu ar y polisi.
- Monitrwch effeithiolrwydd eich adran gydag ymgynghori, gan gynnwys defnyddio cydgysylltydd dynodedig ar gyfer ymgynghor.
- Sicrhewch fod eich ymgynghoriad yn dilyn arferion gorau rheoleiddio da, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoliadol os yw hynny'n briodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori ar y papur hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda â Mythily Manickavasagar, Cydlynydd Ymgynghori, Is-adran Strategaeth, Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2-4 Cockspur Street, Llundain SW1Y 5DH, mythily.manickavasagar@culture.gsi.gov.uk

ATODIAD 4: GORCHMYNION DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL – YSTYRIAETH SENEDDOL

Cyflwyniad

1) Bydd y cynigion diwygio hyn mewn perthynas â mân amrywiadau yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn eu gweithredu. Fe allai'r Gweinidog gyflawni'r newidiadau hyn trwy wneud Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio) o dan y Ddeddf Diwygio Rheoleiddio a Deddfwriaeth 2006. Mae Gorchmynion Diwygio Rheoleiddio yn destun ymgynghori rhag blaen a chraffu Seneddol trylwyr gan Bwyllgorau yn y ddau dy Seneddol. Ar y sail yma, mae'r Gweinidog yn gwahodd sylwadau ar y cynigion diwygio hyn mewn perthynas â mân amrywiadau fel mesurau y gellid eu symud ymlaen gan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio.

Cynigion Diwygio Deddfwriaeth

2) Cynhyrchwyd y ddogfen ymgynghorol yma ar fân amrywiadau oherwydd mai'r man cychwyn ar gyfer cynigion Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yw ymgynghori trylwyr ac effeithiol gyda phartïon sydd â diddordeb. Trwy gynnal yr ymgynghoriad ymlaen llaw yma, disgwylir i'r Gweinidog yn weithredol geisio barn y rhai perthnasol, yn cynnwys rhai y mae'n effeithio'n niweidiol arnynt, ac yna dangos i'r Pwyllgorau Craffu ei iddo/iddi ymdrin â'r pryderon hynny.

3) Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori, pan fo'r Gweinidog yn rhoi cynigion gerbron y Senedd o dan adran 14 Deddf Diwygio Rheoleiddio a Deddfwriaeth 2006, mae'n rhaid iddo/iddi osod Dogfen Eglurhaol gerbron y Senedd sydd yn gorfod:

i) egluro o dan ba bwer neu bwerau yn y Ddeddf Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio y mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y gorchymyn yn cael eu gwneud;

ii) cyflwyno a rhoi rhesymau am y darpariaethau yn y Gorchymyn;

iii) egluro pam fod y Gweinidog o'r farn:

- nad oes yno atebion anneddfwriaethol a fydd yn datrys yn foddhaol yr anhawster y mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio wedi'i fwriadu i ymdrin â hwynt;
- bod effaith y darpariaethau yn gymesur â'r amcan polisi;
- bod y darpariaethau a wnaed yn y gorchymyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng budd y cyhoedd a buddiannau unrhyw unigolyn y mae'n cael effaith niweidiol arnynt;
- nad yw'r darpariaethau yn dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol;
- nad yw'r darpariaethau yn atal unrhyw un rhag parhau i ymarfer unrhyw hawl neu ryddid y byddent yn disgwyl yn rhesymol i barhau i'w ymarfer;
- nad yw'r darpariaethau yn y cynnig o bwys cyfansoddiadol; a
- lle mae'r cynigion yn ailddatgan deddfiad, yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch neu'n haws i'w deall.

iv) cynnwys, i'r graddau y mae hynny'n briodol, asesiad o'r graddau y byddai'r ddarpariaeth a wnaed gan y gorchymyn yn symud neu'n lleihau unrhyw faich neu feichiau;

v) adnabod a rhoi rhesymau dros unrhyw swyddogaethau deddfu a gyflwynwyd gan y gorchymyn a'r gofynion gweithdrefnol sydd ynghlwm â'r ymarfer y swyddogaethau hynny; a

vi) rhoi manylion unrhyw ymgynghori a wnaed, unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad a'r newidiadau (os oes rhai) a wnaed o ganlyniad i'r cyflwyniadau hynny.

4) Bydd y cyfnod o ystyriaeth Seneddol yn cychwyn ar y diwrnod y mae'r Gweinidog yn gosod y cynigion a'r ddogfen eglurhaol gerbron. Bydd hyn yn parhau am 40 diwrnod o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol a chadarnhaol a 60 diwrnod o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol. Os ydych am gopi o'r cynigion a dogfen eglurhaol y Gweinidog a osodwyd gerbron y Senedd, gallwch eu cael naill o'r adran berthnasol o'r Llywodraeth neu trwy ymweld â gwefan y BRE:

http://www.berr.gov.uk/bre/index.html

Craffu Seneddol

5) Mae'r Ddau Dy Seneddol yn craffu ar gynigion diwygio deddfwriaeth a Gorchmynion Diwygio Rheoleiddio drafft. Gwneir hyn y Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio yn Nhy'r Cyffredin a'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio yn Nhy'r Arglwyddi.

6) Mae Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio yn Nhy'r Cyffredin yn amodi bod y Pwyllgor yn ystyried:

a) a yw cynigion yn ymddangos fel pe baent yn gwneud defnydd amhriodol o ddeddfwriaeth dirprwyedig;
b) a yw cynigion yn gwasanaethu'r diben o symud neu leihau baich, neu feichiau cyffredinol, sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gyfer unrhyw unigolyn gan unrhyw ddeddfwriaeth (mewn perthynas â Gorchymyn drafft o dan adran 1 y Ddeddf);
c) a yw cynigion yn gwasanaethu'r diben o sicrhau bod swyddogaethau rheoleiddio yn cael eu hymarfer er mwyn cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddio, fel y'u nodwyd yn adran 2(3) y Ddeddf (mewn perthynas â Gorchymyn drafft o dan adran 2 y Ddeddf);
d) a yw cynigion yn sicrhau amcan polisi na ellid ei gyflawni'n foddhaol trwy ddull anneddfwriaethol;
e) a yw cynigion yn cael effaith sy'n gymesur â'r amcan polisi;
f) a yw cynigion yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a buddiannau unrhyw unigolyn a effeithir yn niweidiol ganddo;
g) a yw cynigion yn peidio dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol;
h) nad yw cynigion yn atal unrhyw unigolyn rhag parhau i ymarfer unrhyw hawl neu ryddid y gallai'r unigolyn hynny ddisgwyl yn rhesymol i barhau i'w ymarfer;
i) nad yw cynigion o unrhyw arwyddocâd cyfansoddiadol;
j) a yw cynigion yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch neu'n haws i'w ddeall (yn achos darpariaethau sy'n ailddatgan deddfiadau);
k) a yw cynigion wedi bod yn destun, ac yn cymryd ystyriaeth briodol o ymgynghoriad digonol;
l) a yw cynigion yn codi mater o dan y fath feini prawf ar gyfer ystyriaeth offerynnau statudol fel nodir ym mharagraff (1) Gorchymyn Sefydlog Rhif 151 (Offerynnau Statudol Cyd Bwyllgor)) fel sy'n berthnasol, megis drafftio diffygiol neu fethiant yr adran i ddarparu gwybodaeth pan oedd ei hangen ar gyfer eglurhad;
m) a yw cynigion yn ymddangos yn anghymarus ag unrhyw ymrwymiad sy'n deillio o aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd;

7) Bydd y Pwyllgor yn Nhy'r Arglwyddi yn ystyried pob cynnig yn nhermau meini prawf cyffelyb, er nad yw'r rhain wedi'u nodi mewn Gorchmynion Sefydlog.

8) Fe allai pob Pwyllgor gymryd tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig i'w helpu i benderfynu ar y materion hyn, ac yna byddai disgwyl i bob Pwyllgor adrodd yn ôl.

9) Gellir cael copïau o Adroddiadau Pwyllgor, fel papurau Seneddol, trwy'r Llyfrfa. Maent hefyd ar gael ar y wefan Seneddol yn:

- Regulatory Reform Committee yn Nhy'r Cyffredin; a'r

- Delegated Powers and Regulatory Reform Committee yn Nhy'r Arglwyddi.

10) O dan weithdrefn penderfyniad negyddol, rhoddir 40 niwrnod i bob un o'r Pwyllgorau Craffu i graffu ar Orchymyn Diwygio Rheoleiddio, ar ôl hynny fe all y Gweinidog wneud y gorchymyn os nad yw'r naill dy Seneddol neu'r llall wedi penderfynu yn ystod y cyfnod yna na ddylid gwneud y gorchymyn neu i wrthod y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio.

11) O dan weithdrefn penderfyniad negyddol, rhoddir 40 niwrnod i bob un o'r Pwyllgorau Craffu i graffu ar Orchymyn Diwygio Rheoleiddio, ar ôl hynny fe all y Gweinidog wneud y gorchymyn os nad yw'r naill Bwyllgor neu'r llall wedi penderfynu gwrthod y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio a bod hynny wedi'i gymeradwyo gan benderfyniad pob un o'r ddau dy Seneddol.

12) O dan weithdrefn uwchgadarnhaol rhoddir 60 diwrnod i'r ddau Bwyllgorau Craffu graffu ar y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio. Os, ar ôl y cyfnod 60 diwrnod, yw'r Gweinidog yn dymuno gwneud y Gorchymyn heb unrhyw newidiadau, fe all wneud hynny yn unig ar ôl iddo osod datganiad gerbron y Senedd yn rhoi manylion unrhyw gyflwyniadau a wnaed ac os cymeradwyir y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio gan benderfyniad pob un o ddau Dy'r Senedd. Os yw'r Gweinidog yn dymuno gwneud newidiadau i'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio drafft mae'n rhaid iddo osod y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yn ogystal â datganiad yn rhoi manylion unrhyw gyflwyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod craffu a'r diwygiadau arfaethedig i'r gorchymyn, gerbron y Senedd. Fe all y Gweinidog wneud y gorchymyn yn unig os yw wedi'i gymeradwyo gan benderfyniad pob un o ddau Dy'r Senedd ac heb ei atal gan y naill Bwyllgor perthnasol neu'r llall.

Sut i Leisio Eich Barn

13) Ymateb i'r ddogfen ymgynghori yma yw eich cyfle cyntaf a'r prif gyfle i chi fynegi eich barn i'r adran berthnasol fel rhan o'r broses ymgynghori. Dylech anfon eich barn i'r cyfeiriad a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Pan yw'r Gweinidog yn gosod cynigion gerbron y Senedd mae croeso i chi leisio eich barn gerbron y naill neu'r llall neu'r ddau Bwyllgor Craffu.

14) Yn y lle cyntaf, fe ddylech wneud hynny yn ysgrifenedig. Fel arfer bydd y Pwyllgorau yn penderfynu ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig a fyddant yn gwrando ar dystiolaeth lafar.

15) Dylai eich cyflwyniad fod mor gryno â phosib, a dylai ganolbwyntio at un neu fwy o'r meini prawf a restrwyd ym mharagraff 6 uchod.

16) Gellir cysylltu â'r Pwyllgorau Craffu a benodwyd i graffu ar Orchmynion Diwygio Rheoleiddio yn y cyfeiriadau isod:

Delegated Powers and
Regulatory Reform Committee
House of Lords
London
SW1A 0PW
Ffôn: 0207 219 3103
Ffacs: 0207 219 2571
ebost: DPDC@parliament.uk

Regulatory Reform Committee
House of Commons
7 Millbank
London
SW1P 3JA
Ffôn: 020 7219 2830/2833/2837
Ffacs: 020 7219 2509
ebost: regrefcom@parliament.uk

Peidio datgelu ymatebion

17) Mae Adran 14(3) y Ddeddf Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yn darparu ar gyfer yr hyn ddylai ddigwydd pan fo rhywun sy'n ymateb i'r ymarfer ymgynghori ar Orchymyn Diwygio Rheoleiddio arfaethedig yn gofyn am beidio datgelu eu hymateb.

18) Bydd enw'r sawl sydd wedi cyflwyno sylwadau yn cael ei ddatgelu i'r Senedd bob tro. Os gofynnwch i'ch sylwadau beidio cael eu datgelu, ni ddylai'r Gweinidog ddatgelu cynnwys y sylwadau hynny heb eich caniatâd penodol chi ac, os yw'r sylwadau yn ymwneud â thrydydd parti, eu caniatâd hwythau

hefyd. Fel arall, fe all y Gweinidog ddatgelu cynnwys y sylwadau yn y fath fodd i sicrhau eich bod yn aros yn ddienw a sicrhau bod unrhyw drydydd parti yn aros yn ddienw hefyd.

Gwybodaeth am Drydydd Parti

19) Os ydych yn rhoi gwybodaeth am drydydd parti sydd ym marn y Gweinidog yn niweidiol i fudd y trydydd parti yna, nid oes rhaid i'r Gweinidog basio gwybodaeth o'r fath ymlaen i'r Senedd os yw o'r farn nad yw'n wir neu os nad yw'n gallu cael caniatâd y trydydd parti i'w ddatgelu. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydych chi yn gofyn i'ch sylwadau beidio cael eu datgelu.

20) Fodd bynnag, fe all y Pwyllgorau Craffu, trwy wneud cais, gael mynediad at bob sylw a gyflwynwyd yn wreiddiol, fel diogelwch rhag dylanwadu'n amhriodol ar Weinidogion wrth lunio gorchmynion diwygio deddfwriaeth.

Gweithrediaeth Gwella Rheoleiddio
Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio

department for
culture, media
and sport

2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk